# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 20/05/2014

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon
Questions to the Minister for Culture and Sport

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau
Motion to Elect Members to Committees

Datganiad: Cyflwyno Bil Addysg Uwch (Cymru)
Statement: Introduction of the Higher Education (Wales) Bill

Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014
The Rating Lists (Postponement of Compilation) (Wales) Order 2014

Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb—Fframwaith Gweithredu
Tackling Hate Crimes and Incidents—A Framework for Action

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I am sure that Members would like to join me in welcoming the Speaker and the delegation from the Parliament of Canada. Welcome. [Applause.] They have said that we are so well behaved that they have come to watch how we do it. [Laughter.]

Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n dymuno ymuno â mi i groesawu'r Llefarydd a'r ddirprwyaeth o Senedd Canada. Croeso. [Cymeradwyaeth.] Maen nhw wedi dweud ein bod ni'n ymddwyn mor dda fel eu bod nhw wedi dod i wylio sut yr ydym ni'n llwyddo i wneud hynny. [Chwerthin.]

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Cynhyrchu Bwyd a'r Economi Wledig

### Food Production and the Rural Economy

13:30

### William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y berthynas rhwng cynhyrchu bwyd ac economi wledig Cymru? OAQ(4)1676(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the relationship between food production and the rural Welsh economy? OAQ(4)1676(FM)*

13:31

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As the Member will know, food and farming are both priority sectors for the Welsh Government, and they have been identified as offering great potential for growth in the future.

Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, mae bwyd a ffermio yn sectorau o flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a nodwyd eu bod yn cynnig potensial mawr ar gyfer twf yn y dyfodol.

13:31 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the First Minister very much for his response. In evidence to the Environment and Sustainability Committee recently, both the National Farmers' Union and the young farmers of Wales stressed that, alongside environmental benefits, it is the need to improve food security, and the primacy of food production, that is essential for the betterment of Welsh agriculture and the wider Welsh rural economy. First Minister, would you agree with me that food production must maintain its primacy within the whole field of agriculture during the coming common agricultural policy period, and what interventions are you prepared to undertake to ensure that that is the case?

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Prif Weinidog am ei ymateb. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ddiweddar, pwysleisiodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a ffermwyr ifanc Cymru, ochr yn ochr â manteision amgylcheddol, mai'r angen i wella diogelwch bwyd, ac uchafiaeth cynhyrchu bwyd, sy'n hanfodol ar gyfer y gwella amaethyddiaeth Cymru ac economi ehangach cefn gwlad Cymru. Brif Weinidog, a fyddech chi'n cytuno â mi bod yn rhaid i gynhyrchu bwyd gynnal ei uchafiaeth o fewn maes cyfan amaethyddiaeth yn ystod cyfnod y polisi amaethyddol cyffredin sydd i ddod, a pha ymyraethau ydych chi'n barod i'w gwneud i sicrhau bod hynny'n digwydd?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As the Minister has said on many occasions, what is important is that we have a sustainable farming industry in the future. He has outlined steps that will lead to that position, so that, as we see budgets potentially being cut in terms of pillar 1 in years to come, Welsh farmers are in a position to confront those challenges, should they arise.

Fel y mae'r Gweinidog wedi ei ddweud ar sawl achlysur, yr hyn sy'n bwysig yw bod gennym ddiwydiant ffermio cynaliadwy yn y dyfodol. Mae wedi amlinellu camau a fydd yn arwain at y sefyllfa honno, fel bod ffermwyr Cymru, wrth i ni weld cyllidebau'n cael eu torri o bosibl o ran colofn 1 yn y blynyddoedd i ddod, mewn sefyllfa i wynebu'r heriau hynny, pe byddent yn codi.

13:32 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As we know, the food and drink action plan will be launched next month. One question that I asked the Minister for Natural Resources and Food, when he gave his oral statement on progress last month, was regarding the lessons that have been learned from the Wales the True Taste promotional campaign. Given that industry leaders were less than enamoured with the Wales the True Taste promotional campaign when it was scrapped last year, what lessons has the Government learned from that campaign that will make this new action plan radically different?

Fel y gwyddom, bydd y cynllun gweithredu ar fwyd a diod yn cael ei lansio fis nesaf. Roedd un cwestiwn a ofynnais i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, pan gyflwynodd ei ddatganiad llafar ar gynnydd y mis diwethaf, am y gwersi a ddysgwyd o'r ymgyrch hyrwyddo Cymru: Y Gwir Flas. O ystyried nad oedd arweinwyr y diwydiant yn rhy hoff o ymgyrch hyrwyddo Cymru: Y Gwir Flas pan gafodd ei ddileu'r llynedd, pa wersi mae'r Llywodraeth wedi eu dysgu o'r ymgyrch honno a fydd yn gwneud y cynllun gweithredu newydd hwn yn wahanol yn ei hanfod?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, of course, things have changed over the years in terms of how messages are communicated, particularly through the use of social media. Nevertheless, we have seen, over the past decade, a growth in the number of food producers in Wales. Those who are familiar with the food hall of the Royal Welsh Show will know that it has had to expand in size and is still finding it difficult to accommodate all those new producers. Welsh food has been a tremendous area of growth over the last few years, and any new promotional campaign will, of course, take account of all the potential means of communicating that message to the rest of the world.

Wel, wrth gwrs, mae pethau wedi newid dros y blynyddoedd o ran sut y caiff negeseuon eu cyfleu, yn enwedig trwy'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Serch hynny, rydym ni wedi gweld, yn ystod y degawd diwethaf, twf yn nifer y cynhyrchwyr bwyd yng Nghymru. Bydd y rhai sy'n gyfarwydd â neuadd fwyd Sioe Frenhinol Cymru yn gwybod y bu'n rhaid iddi ehangu o ran maint a'i bod yn dal i'w chael yn anodd cynnwys yr holl gynhyrchwyr newydd hynny. Mae bwyd o Gymru wedi bod yn faes o dwf enfawr dros y blynyddoedd diwethaf, a bydd unrhyw ymgyrch hyrwyddo newydd, wrth gwrs, yn cymryd yr holl ffyrdd posibl o gyfathrebu'r neges honno i weddill y byd i ystyriaeth.

13:33 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n meddwl bod llawer i'w ganmol am y cynllun gweithredu yr ymgynghorwyd arno yn ddiweddar. Fodd bynnag, un gofid sydd wedi ei fynegi i mi ynglŷn â'r broses ymgynghorol honno oedd yr anghydbwysedd a oedd yno yn nhermau nifer y cwmnïau bwyd a wnaeth ymateb i'r broses ymgynghorol o'i gymharu ag unigolion, cyrff cyhoeddus, ymgynghorwyr, ac yn y blaen. Nawr, rwy'n meddwl bod gwers bwysig i'r Llywodraeth ei dysgu yn hynny o beth er mwyn sicrhau bod llais y diwydiant yn cael ei glywed yn gryfach y tu mewn i lais y sector yn ehangach. Felly, beth fydd eich Llywodraeth chi yn ei wneud i sicrhau, pan fydd y ffederasiwn hon o fusnesau bwyd yn cael ei sefydlu, y bydd yn cael ei harwain a'i rhedeg gan y sector, a nid gan yr ymgynghorwyr a'r cyrff ehangach o gwmpas y cwmnïau bwyd?

I think that there is a great deal to be applauded in the action plan that has been consulted upon recently. However, one concern expressed to me on the consultation process was the imbalance that existed in terms of the number of food companies that responded to the consultation as opposed to individuals, public bodies, consultants, and so on. Now, I think that there is an important lesson for the Government to learn in that regard in order to ensure that the voice of the industry is heard clearly within the wider sector. So, what will your Government do to ensure, when this federation of food businesses is established, that it will be led and run by the sector itself, and not by consultants and the wider bodies around the food companies?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny'n bwysig, wrth gwrs. Mae'n rhaid i ni dynnu ar y dystiolaeth sy'n bodoli gan bob cwmni bwyd neu fusnes bwyd bach yng Nghymru er mwyn inni sylweddoli beth sy'n gweithio ac efallai beth nad yw'n gweithio mor dda â hynny. Mae gennym record dda fel Llywodraeth o ran gweithio gyda busnesau, byddwn yn ei ddweud, ac yr ydym eisiau sicrhau, wrth gwrs, fod y record honno yn parhau pan ydym yn delio â busnesau bwyd bach.

That is important, of course. We have to draw on the evidence provided by all food companies or small food businesses in Wales so that we can understand what works and perhaps what does not work as well. We do as a Government have a good record in working with businesses, I would say, and we do want to ensure, of course, that that record continues into the future when we deal with small food businesses.

## Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol

## Individual Patient Funding Requests

13:34 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr adolygiad o'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol yng Nghymru? OAQ(4)1666(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on the review of the Individual Patient Funding Requests process in Wales? OAQ(4)1666(FM)*

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The review group concluded that the process that we have in Wales supports evidence-based decision making for those treatments that are not routinely available. The report of the review is currently out to consultation, and that consultation period will end on 25 June.

Gwnaf. Daeth y grŵp adolygu i'r casgliad bod y broses sydd gennym yng Nghymru yn cefnogi gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y triniaethau hynny nad ydynt ar gael fel mater o drefn. Mae adroddiad yr adolygiad yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, a bydd y cyfnod ymgynghori hwnnw yn dod i ben ar 25 Mehefin.

13:34 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that answer, First Minister. Should the recommendations of the review panel be implemented in full, that could lead to growth in the number of people having different treatments. Will those additional treatments be funded from health boards' current budgets, or, in the absence of a discrete fund, do you have any contingency plans for how they might be paid for?

Diolch yn fawr iawn am yr ateb yna, Brif Weinidog. Pe byddai argymhellion y panel adolygu yn cael eu rhoi ar waith yn llawn, gallai hynny arwain at dwf yn nifer y bobl sy'n cael gwahanol driniaethau. A fydd y triniaethau ychwanegol hynny yn cael eu hariannu o gyllidebau cyfredol byrddau iechyd, neu, gan nad oes cronfa ar wahân, a oes gennych chi unrhyw gynlluniau wrth gefn ar gyfer sut y gellid talu amdanynt?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These are questions that will be considered as part of the process. Clearly, we want to make sure that, as far as patients in Wales are concerned, they continue to have access to cost-effective drugs, as has been shown by the University of Bristol study.

Mae'r rhain yn gwestiynau a fydd yn cael eu hystyried yn rhan o'r broses. Yn amlwg, rydym ni eisiau gwneud yn siŵr, cyn belled ag y mae cleifion yng Nghymru yn y cwestiwn, eu bod yn parhau i gael mynediad at gyffuriau cost-effeithiol, fel y dangoswyd gan astudiaeth Prifysgol Bryste.

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

First Minister, the review states that the IPFR panels continue to operate in isolation from each other, and that information sharing is limited. How can the Welsh Government ensure that inconsistencies in the process and outcomes of these IPFR decisions across health boards do not continue, please?

Brif Weinidog, mae'r adolygiad yn nodi bod y paneli Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) yn parhau i weithredu yn annibynnol ar ei gilydd, a bod rhannu gwybodaeth yn gyfyngedig. Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau na fydd yr anghysondebau yn y broses a chanlyniadau'r penderfyniadau IPFR hyn ar draws byrddau iechyd yn parhau, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, there is a challenge in ensuring that there is equity of access across Wales, in terms of cost-effective drugs. That is something, of course, that the Minister is considering, to see how that equity can be achieved across Wales.

Wel, mae her yn bodoli o ran sicrhau bod mynediad cyfartal ar gael ledled Cymru, o ran cyffuriau cost-effeithiol. Mae hynny, wrth gwrs, yn rhywbeth y mae'r Gweinidog yn ei ystyried, i weld sut y gellir sicrhau'r tegwch hwnnw ledled Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon is the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Gwnaeth y Prif Weinidog addewid i wneud datganiad llawn ar bolisi'r Llywodraeth ar yr iaith Gymraeg yn ystod y gwanwyn. Pryd bydd y Prif Weinidog yn gwneud hyn?

The First Minister made a pledge to make a full statement on the Government's policy on the Welsh language during the spring. When will the First Minister make this statement?

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Gwnaf, a byddaf yn edrych i wneud hynny dros yr wythnosau rhwng hanner tymor a diwedd y gwanwyn.

I will be doing so, and will be looking to do so over the weeks between the half-term recess and the end of the spring.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Roedd un adroddiad gan y Llywodraeth wedi dangos yr angen am sgiliau iaith Gymraeg ar draws wyth sector gwahanol: roedd 60% eisiau mwy o sgiliau iaith Gymraeg. Beth yw bwriad y Prif Weinidog o ran sgiliau iaith Gymraeg?

There was one Government report that demonstrated the need for Welsh-language skills across eight different sectors: 60% wanted more Welsh-language skills. What are the First Minister's intentions in terms of Welsh-language skills?

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, maent i sicrhau, yn gyntaf—a bydd hyn yn rhan, wrth gwrs, o'r polisi a gaiff ei ddatblygu—fod y sgiliau Cymraeg sydd gan bobl eisoes yn cael eu hybu pan fyddant yn gadael yr ysgol neu pan fyddant mewn sefyllfa lle nad oes cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn hanesyddol. Felly, sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i barhau i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yw'r her fwyaf.

Well, they are to ensure, first of all—and, of course, this will be part of the policy that will be developed—that the Welsh-language skills that people already have are promoted when they leave school or when they are not in a position to use the Welsh language in the workplace, historically. So, ensuring that people have the opportunity to continue to use their Welsh-language skills is the biggest challenge.

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Diolch. Un cam pwysig byddai dysgu'r Gymraeg, yn ystod y cyfnod sylfaenol, i bob plentyn yng Nghymru. Byddai hyn yn helpu gyda'u sgiliau iaith. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno gyda hyn?

Thank you. One important step is to teach Welsh, during the foundation phase, to all children in Wales. That will certainly help with Welsh-language skills. Does the First Minister agree with this?

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, wrth gwrs, rydym yn ystyried ar hyn o bryd adolygu'r modd y mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith. Ni all unrhyw un, yn fy marn i, ddweud bod y system bresennol wedi bod yn gwbl lwyddiannus, o achos y ffaith nad ydym wedi creu siaradwyr Cymraeg hyderus y tu allan i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Felly, mae gennym her o ran sicrhau bod gennym system yn y dyfodol a fydd yn rhoi hyder i bobl sydd wedi dysgu'r Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n rhaid inni ganolbwyntio ar y cyfnod sylfaenol, wrth gwrs, ond hefyd ar y cyfnod yng nghyfnod allweddol 3 pan, ar hyn o bryd, mae gan rhai plant ddewis rhwng astudio Cymraeg fel cwrs byr neu gwrs llawn. Mae'n rhaid inni ystyried a yw hynny'n ffordd effeithiol o barhau yn y dyfodol.

Well, of course, we are considering reviewing the way in which the Welsh language is taught as a second language. In my view, no-one can say that the current system has been completely successful, because of the fact that we have not created confident Welsh speakers outside the Welsh-medium education system. So, we have a challenge to ensure that we have a system in future that will give Welsh learners the confidence to use the Welsh language. We must, of course, focus on the foundation phase, but also on that period in key stage 3 when at present some pupils have to make the choice between studying Welsh as a short course or a full course. We have to consider whether that is an effective way of continuing in the future.

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Now we move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Presiding Officer. Last week, First Minister, the Chamber was obviously dealing with the Andrews report, which had just been published that morning. In the last seven days, everyone has had the opportunity to read in detail the findings of that report. I would like to pay tribute to Gareth Williams and his colleagues, who are in the gallery today, for the actions that they have taken. One of the key lines in the report stated that Healthcare Inspectorate Wales had not seen or reported on what could have been highly visible issues of poor practice. If the independent regulator is not performing, how can the public have confidence that your stopping a public inquiry from coming forward will be able to improve our hospitals?

Diolch i chi, Lywydd. Yr wythnos diwethaf, Brif Weinidog, roedd y Siambr yn amlwg yn ymdrin ag adroddiad Andrews, a oedd newydd ei gyhoeddi'r bore hwnnw. Yn ystod y saith diwrnod diwethaf, mae pawb wedi cael cyfle i ddarllen yn fanwl canfyddiadau'r adroddiad hwnnw. Hoffwn dalu teyrnged i Gareth Williams a'i gydweithwyr, sydd yn yr oriel heddiw, am y camau y maen nhw wedi eu cymryd. Roedd un o'r llinellau allweddol yn yr adroddiad yn dweud nad oedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi gweld nac adrodd ar yr hyn a allai fod wedi bod yn faterion hynod amlwg o arfer gwael. Os nad yw'r rheoleiddiwr annibynnol yn perfformio, sut y gall y cyhoedd fod yn hyderus y bydd y ffaith eich bod yn atal ymchwiliad cyhoeddus rhag cael ei gynnal yn gallu gwella ein hysbytai?

Senedd.tv Fideo Video

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, as he will know, this is an issue that the Minister for Health and Social Services is examining. Health Inspectorate Wales is a body that we inherited; it was not set up by the Welsh Government. There are clearly issues that need to be resolved in terms of the way that it operates. The Minister has already mentioned the fact that there will be spot checks in the future. It is important that the issues that have been identified in the report are issues that are examined in every hospital in Wales. That is exactly what the Minister intends to do.

Wel, fel y bydd ef yn gwybod, mae hwn yn fater y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei archwilio. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gorff a etifeddwyd gennym; ni chafodd ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n amlwg bod problemau y mae angen eu datrys o ran y ffordd y mae'n gweithredu. Mae'r Gweinidog eisoes wedi sôn am y ffaith y bydd archwiliadau ar hap yn cael eu cynnal yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod y materion a nodwyd yn yr adroddiad yn faterion sy'n cael eu harchwilio ym mhob ysbyty yng Nghymru. Dyna'n union y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei wneud.

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

With respect, as has come out, we have realised that those spot checks were announced some two years ago. The Welsh Government has been in being since the start of devolution in 1999. You say that you inherited that organisation. You are responsible for the day-to-day management of Wales, with your Government, First Minister. The report also highlighted how, if some hospitals were to say, 'We were sometimes unable to feed frail and elderly patients', families could take their own action by bringing in and preparing meals or setting up a volunteering system. Why should families have to do that in hospitals across Wales? Do you think that that is an unacceptable standard to set for our hospitals here in Wales?

Gyda phob parch, fel sydd wedi dod i'r amlwg, rydym ni wedi sylweddoli y cyhoeddwyd yr archwiliadau ar hap hynny tua dwy flynedd yn ôl. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn bodolaeth ers dechrau datganoli yn 1999. Rydych chi'n dweud eich bod wedi etifeddu'r sefydliad hwnnw. Chi sy'n gyfrifol am reoli Cymru o ddydd i ddydd, gyda'ch Llywodraeth, Brif Weinidog. Amlygodd yr adroddiad hefyd, pe byddai rhai ysbytai yn dweud, 'Weithiau, nid oeddem yn gallu bwydo cleifion oedrannus a bregus', y gallai teuluoedd weithredu eu hunain trwy ddod â phrydau bwyd i mewn a'u paratoi eu hunain, neu sefydlu system wirfoddoli. Pam y dylai teuluoedd orfod gwneud hynny mewn ysbytai ledled Cymru? A ydych chi'n credu bod hynny'n safon annerbyniol i'w osod i'n hysbytai yma yng Nghymru?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes I do, and I am glad that the report identified that. The report was hard-hitting in terms of the issues that it identified—it certainly did not pull any punches, and we very much welcome that that is exactly what the report identified. We need to ensure that what the report has identified in two hospitals are not issues in other hospitals in Wales. That is why those spot checks are being introduced. He should understand, of course, that Healthcare Inspectorate Wales was set up in the days when this body did not have primary law-making powers, and so was set up by the Westminster Parliament, not by ourselves. There is an opportunity now, of course, to make sure that any body that looks at inspecting our hospitals in the future is as robust as this Chamber would want.

Ydw, ac rwy'n falch bod yr adroddiad wedi nodi hynny. Mae'r adroddiad yn ddi-flewyn ar dafod o ran y materion a nodir ynddo—yn sicr nid oedd yn dal unrhyw beth yn ôl, ac rydym ni'n croesawu'n fawr mai dyna'n union yr hyn a nodwyd yn yr adroddiad. Mae angen inni sicrhau nad yw'r hyn y mae'r adroddiad wedi ei nodi mewn dau ysbyty yn broblemau mewn ysbytai eraill yng Nghymru. Dyna pam mae'r archwiliadau ar hap hynny yn cael eu cyflwyno. Dylai ef ddeall, wrth gwrs, y sefydlwyd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn y dyddiau pan nad oedd gan y corff hwn bwerau deddfu sylfaenol, ac felly fe'i sefydlwyd gan Senedd San Steffan, nid gennym ni. Mae cyfle nawr, wrth gwrs, i wneud yn siŵr bod unrhyw gorff sy'n edrych ar archwilio ein hysbytai yn y dyfodol mor gadarn ag y byddai'r Siambr hon yn dymuno.

13:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

What I do understand is that your Government has had a considerable amount of time to get on top of these issues. I am pleased to say that you do not accept that comment in the report, because, surely, food and drink is a basic necessity that everybody should have a right to, rather than it having to be withdrawn in hospitals and having patients saying that they are in 'hell', as some of the patients commented about their experience at the Princess of Wales Hospital.

Yr hyn yr wyf yn ei ddeall yw bod eich Llywodraeth chi wedi cael cryn dipyn o amser i gael rheolaeth ar y materion hyn. Rwy'n falch o ddweud nad ydych chi'n derbyn y sylw hwnnw yn yr adroddiad, oherwydd, yn ôl pob rheswm, mae bwyd a diod yn anghenraid sylfaenol y dylai fod gan bawb hawl iddo, yn hytrach na'i fod yn gorfod cael ei dynnu'n ôl mewn ysbytai a chael cleifion yn dweud eu bod yn 'uffern', fel y dywedodd rhai o'r cleifion am eu profiad yn Ysbyty Tywysoges Cymru.

One of the other comments that came over in the report last week was this, in your response to the report:

Un o'r sylwadau eraill a wnaed yn yr adroddiad yr wythnos diwethaf oedd hyn, yn eich ymateb i'r adroddiad:

‘It is not possible for governments to understand what happens on every ward in every hospital at all times, but it is correct that people should judge governments by the response that they give, once failings are identified to them.’

'Nid yw'n bosibl i lywodraethau ddeall beth sy'n digwydd ar bob ward ym mhob ysbyty bob amser, ond mae'n iawn y dylai pobl farnu llywodraethau ar sail yr ymateb maen nhw’n ei roi, ar ôl iddynt gael eu hysbysu am fethiannau.'

Surely, people should have confidence that their Government will not allow such catastrophic failings to happen in our district general hospitals. The evidence is building week in, week out, First Minister, and you, week in, week out, stand there, saying that a full public inquiry would not help the situation. Why is it that your Government is allowing these situations to continue and yet is still denying a full, open and transparent public inquiry that could do so much to improve the state of our hospitals here in Wales?

Yn ôl pob rheswm, dylai pobl fod yn hyderus na fydd eu Llywodraeth yn caniatáu methiannau trychinebus o'r fath i ddigwydd yn ein hysbytai cyffredinol dosbarth. Mae'r dystiolaeth yn casglu wythnos ar ôl wythnos, Brif Weinidog, ac rydych chi, wythnos ar ôl wythnos, yn sefyll yn y fan yna, yn dweud na fyddai ymchwiliad cyhoeddus llawn yn helpu'r sefyllfa. Pam mae eich Llywodraeth yn caniatáu i’r sefyllfaoedd hyn barhau ac eto’n dal i atal ymchwiliad cyhoeddus llawn, agored a thryloyw a allai wneud cymaint i wella cyflwr ein hysbytai yma yng Nghymru?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I do not agree that there is evidence to justify a full public inquiry into all aspects of healthcare in Wales and the millions that it would cost—millions that could be used on actually treating people. I do accept that there is a need, where issues have been identified, for those issues to be dealt with by way of a full and openly transparent report. That is exactly what we got last week. I do not think that anybody in this Chamber could suggest that the report in some way tried to hide any of the issues that were present in the hospitals; it was quite open and critical, and should be. That is exactly what an independent report should do.

Nid wyf yn cytuno bod tystiolaeth i gyfiawnhau ymchwiliad cyhoeddus llawn i bob agwedd ar ofal iechyd yng Nghymru a'r miliynau y byddai hynny’n ei gostio—miliynau y gellid eu defnyddio i roi triniaeth i bobl. Rwyf yn derbyn bod angen, lle mae problemau wedi eu nodi, y dylid mynd i’r afael â’r problemau hynny trwy adroddiad llawn a chwbl dryloyw. Dyna'n union yr hyn a gawsom yr wythnos diwethaf. Nid wyf yn credu y gallai neb yn y Siambr hon awgrymu bod yr adroddiad hwn wedi ceisio cuddio mewn unrhyw ffordd unrhyw un o'r problemau a oedd yn bodoli yn yr ysbytai; roedd yn gwbl agored ac yn feirniadol, a dyna ddylai fod. Dyna'n union yr hyn y dylai adroddiad annibynnol ei wneud.

Yes, I stand by what I said last week. The Minister for health has already outlined what we will do as a Government to deal with the issues that have been raised in that report, and yes, of course, Members can judge us in time on how we have handled those issues. It is important, as I have said, that spot checks are introduced across all hospitals in Wales, because, as he rightly says, the public of Wales deserve to have confidence. However, that is the difference between ourselves and his party: we confront these problems openly; his party hides them in England.

Ydw, rwy’n cadw at yr hyn a ddywedais yr wythnos diwethaf. Mae'r Gweinidog iechyd eisoes wedi amlinellu’r hyn y byddwn yn ei wneud fel Llywodraeth i ymdrin â'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwnnw, ac, wrth gwrs, gall aelodau ein barnu mewn amser ar sut yr ydym ni wedi ymdrin â'r materion hynny. Mae'n bwysig, fel yr wyf wedi ei ddweud, bod archwiliadau ar hap yn cael eu cyflwyno ym mhob ysbyty yng Nghymru, oherwydd, fel y dywed yn gywir, mae’r cyhoedd yng Nghymru yn haeddu bod yn hyderus. Fodd bynnag, dyna'r gwahaniaeth rhyngom ni a'i blaid ef: rydym ni’n wynebu’r problemau hyn yn agored; mae ei blaid ef yn eu cuddio yn Lloegr.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, over 12 months ago your Government announced a new chapter in the careers service in Wales, heralding a more joined-up, refreshed and revitalised careers service designed to deliver a personalised approach to careers information, advice and guidance. Could you tell us, please, how you feel this new chapter is progressing?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, dros 12 mis yn ôl, cyhoeddodd eich Llywodraeth bennod newydd yn y gwasanaeth gyrfaoedd yng Nghymru, gan gyhoeddi gwasanaeth gyrfaoedd mwy cydgysylltiedig, wedi ei adnewyddu a’i ailwampio gyda’r nod o gyflwyno dull wedi ei deilwra i’r unigolyn o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd. A allech chi ddweud wrthym, os gwelwch yn dda, beth yw eich barn ar sut y mae’r bennod newydd hon yn datblygu?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is early days yet, and, clearly, there is still work to be done in order to make sure that the full range of careers advice is available to all our school students in Wales and, indeed, our college students.

Dyddiau cynnar yw hi o hyd, ac, yn amlwg, mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau bod yr ystod lawn o gyngor gyrfaoedd ar gael i bob un o'n myfyrwyr ysgol yng Nghymru ac, yn wir, ein myfyrwyr coleg.

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Today, First Minister, we have seen the latest in a report from Estyn warning about underperformance in the education system, and one of its criticisms is that careers advice is out of date and too generic, and that it comes too late for many children. That comes despite your announcement last year that it would be personalised and refreshed. In fact, that comes despite a review of the careers service by your Government in 2004, another one in 2007, one in 2009 and one in 2010. Given that we have had all of these reviews and promises about a refreshed careers service, when will young people in Wales be able to access the tailored careers advice that you have continually promised but not delivered?

Heddiw, Brif Weinidog, rydym ni wedi gweld y diweddaraf mewn adroddiad gan Estyn yn rhybuddio am danberfformio yn y system addysg, ac un o'i feirniadaethau yw bod cyngor gyrfaoedd yn hen ac yn rhy gyffredinol, a'i fod yn dod yn rhy hwyr i lawer o blant. Mae hynny er gwaethaf eich cyhoeddiad y llynedd y byddai'n cael ei deilwra ar gyfer yr unigolyn a'i adnewyddu. Mewn gwirionedd, mae hynny er gwaethaf adolygiad o'r gwasanaeth gyrfaoedd gan eich Llywodraeth yn 2004, un arall yn 2007, un yn 2009 ac un yn 2010. O gofio ein bod ni wedi cael pob un o'r adolygiadau a’r addewidion hyn am wasanaeth gyrfaoedd wedi ei ailwampio, pryd fydd pobl ifanc yng Nghymru yn gallu cael mynediad at y cyngor gyrfaoedd wedi ei deilwra yr ydych chi wedi ei addo’n barhaus ond nad ydych wedi ei ddarparu?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There have been issues with giving careers advice in Wales over the years, particularly in terms of the sometimes unjoined-up way—if I can use that phrase—in which that has been done. Of course, from our position, we want to make sure that our careers advice is robust and we will take account of Estyn’s report to see how that advice can be strengthened in the future.

Bu problemau gyda rhoi cyngor gyrfaoedd yng Nghymru dros y blynyddoedd, yn enwedig o ran y ffordd nad oedd yn gydgysylltiedig weithiau—os caf i ddefnyddio'r ymadrodd yna—y gwnaed hynny. Wrth gwrs, o’n safbwynt ni, rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod ein cyngor gyrfaol yn gadarn a byddwn yn cymryd adroddiad Estyn i ystyriaeth i weld sut y gellir cryfhau’r cyngor hwnnw yn y dyfodol.

13:45 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The report from Estyn today goes on to say that despite very welcome improvements in attendance and a fall in the number of exclusions, half of all pupils still do not attain a good English or Welsh first-language GCSE or a maths GCSE. When will the Welsh Government ensure that all Welsh children leave Welsh schools not only with correct careers advice, but the very basic qualifications that will allow them to succeed in this world?

Mae adroddiad Estyn heddiw yn mynd ymlaen i ddweud, er gwaethaf gwelliannau i bresenoldeb a gostyngiad i nifer y gwaharddiadau, sydd i’w croesawu’n fawr, nad yw hanner yr holl ddisgyblion yn cyflawni cymhwyster TGAU Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf da neu TGAU mathemateg o hyd. Pryd y gwnaiff Llywodraeth Cymru sicrhau bod holl blant Cymru yn gadael ysgolion Cymru, nid yn unig gyda chyngor gyrfaoedd cywir, ond y cymwysterau sylfaenol iawn a fydd yn eu galluogi i lwyddo yn y byd hwn?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First, let us remember that performance has improved over the last few years. Let us also remember that we have the national literacy and numeracy tests, which will assist parents—and I am one of them—to see how their children are doing when they are in school. However, I do not believe that we will ever get the consistency of results that we would want, given the current structure of education provision in Wales. That is why the Williams commission has looked at the structure of local authorities. We have six local authorities in special measures; that is not acceptable. We need to ensure that in the future we have local education authorities that are robust and resilient enough to deliver consistent excellence across Wales. We are not in that position yet. We hope that over the next few years, as we move forward with the Williams commission's recommendations, that that will be the case in Wales.

Yn gyntaf, gadewch i ni gofio bod perfformiad wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gadewch i ni gofio hefyd bod y profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol gennym, a fydd yn cynorthwyo rhieni—ac rwy'n un ohonynt—i weld sut mae eu plant yn gwneud pan eu bod yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid wyf yn credu y byddwn byth yn cael y canlyniadau cyson y byddem yn dymuno eu cael, o ystyried strwythur presennol y ddarpariaeth addysg yng Nghymru. Dyna pam mae comisiwn Williams wedi edrych ar strwythur awdurdodau lleol. Mae gennym chwe awdurdod lleol mewn mesurau arbennig; nid yw hynny'n dderbyniol. Mae angen inni sicrhau yn y dyfodol bod gennym awdurdodau addysg lleol sy'n ddigon cadarn a chryf i ddarparu rhagoriaeth gyson ledled Cymru. Nid ydym yn y sefyllfa honno eto. Rydym ni'n gobeithio, yn ystod y blynyddoedd nesaf, wrth i ni fwrw ymlaen ag argymhellion comisiwn Williams, y bydd hynny'n wir yng Nghymru.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr.

### Darpariaeth Gwasanaethau Fferyllol

### Provision of Pharmacy Services

13:47 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol yng Nghymru? OAQ(4)1680(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the provision of pharmacy services in Wales? OAQ(4)1680(FM)*

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have a range of pharmacy services delivered in hospitals and the community. This is a network of 712 community pharmacies, which are often located in the heart of our communities and make a valuable contribution to the health of those communities.

Mae gennym amrywiaeth o wasanaethau fferyllol a ddarperir mewn ysbytai ac yn y gymuned. Rhwydwaith o 712 o fferyllfeydd cymunedol yw hwn, sy'n aml wedi eu lleoli yng nghanol ein cymunedau ac sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr i iechyd y cymunedau hynny.

13:47 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, and I very much agree. You may be aware that an English pharmacy company recently started operating a home prescription dispensing service in my region and had been legally able to run that service without a licence because it was not offering the full range of pharmacy services that our local community pharmacists do. It has now stopped that operation but will your Government close this loophole to prevent companies from dispensing medicines in Wales without a licence?

Diolch i chi, Brif Weinidog, ac rwy'n cytuno'n llwyr. Efallai y byddwch yn ymwybodol bod cwmni fferyllol yn Lloegr wedi dechrau gweithredu gwasanaeth dosbarthu presgripsiwn cartref yn fy rhanbarth i yn ddiweddar ac wedi gallu rhedeg y gwasanaeth hwnnw yn gyfreithlon heb drwydded gan nad oedd yn cynnig yr ystod lawn o wasanaethau fferylliaeth y mae ein fferyllwyr cymunedol lleol yn ei wneud. Mae wedi rhoi terfyn ar y gwasanaeth hwnnw erbyn hyn, ond a wnaiff eich Llywodraeth gau'r bwlch hwn i atal cwmnïau rhag dosbarthu meddyginiaethau yng Nghymru heb drwydded?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We do not license medicines, of course. That is a matter that is not devolved. However, I take the point. You mentioned the Cyncoed medical centre where this happened and the concern surrounding practices there and I understand that those practices have stopped. Nevertheless, I understand that it is an issue for her constituents and I can say that, as a Government, we have not endorsed the action by Quantum Direct Pharmacy—I think that is what it is called. If what is said about its practices is correct, it will be asked some questions in terms of professional practice. I make no judgment on that; I simply observe what has been suggested thus far.

Nid ydym ni'n trwyddedu meddyginiaethau, wrth gwrs. Mae hwnnw'n fater nad yw wedi ei ddatganoli. Fodd bynnag, rwy'n derbyn y pwynt. Soniasoch am ganolfan feddygol Cyncoed lle y digwyddodd hyn a'r pryder am arferion yno ac rwy'n deall bod yr arferion hynny wedi dod i ben. Serch hynny, rwy'n deall bod hyn yn broblem i'w hetholwyr a gallaf ddweud, fel Llywodraeth, nad ydym wedi cymeradwyo'r camau gweithredu gan Quantum Direct Pharmacy—rwy'n credu mai dyna yw ei enw. Os yw'r hyn a ddywedir am ei arferion yn gywir, bydd cwestiynau'n cael eu gofyn iddo am arfer proffesiynol. Nid wyf yn rhoi unrhyw farn ar hynny; y cwbl rwy'n ei wneud yw nodi'r hyn a awgrymwyd hyd yn hyn.

13:48 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, my father died from a respiratory condition, sadly. There is clear evidence that patients with respiratory conditions in England are not taking up their prescriptions because of the cost. This is in contrast to Wales where, since the abolition of prescription charges, Asthma UK Cymru reports a dramatic increase in the number of patients being properly treated for respiratory disease. Is this not another example of the danger of what is, effectively, a tax on being ill?

Brif Weinidog, bu farw fy nhad o gyflwr anadlol, yn anffodus. Ceir tystiolaeth eglur nad yw cleifion â chyflyrau anadlol yn Lloegr yn manteisio ar eu presgripsiynau oherwydd y gost. Mae hyn yn wahanol i Gymru lle, ers diddymu taliadau presgripsiwn, mae Asthma UK Cymru yn adrodd cynnydd dramatig yn nifer y cleifion sy'n cael eu trin yn briodol ar gyfer clefydau anadlol. Onid yw hyn yn enghraifft arall o berygl yr hyn sydd, i bob pwrpas, yn dreth ar fod yn sâl?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Indeed. There are many of us in the Chamber who have experience of watching relatives suffer with pneumoconiosis, particularly—especially in the anthracite belt—and what it did to so many men and to their health in terms of the nebulisers that they had to carry around. For many of us, it was a major factor in our entry into politics in the first place, to make sure that that did not happen to so many people in the future. It is appalling, for example, that in the survey that the Prescription Charges Coalition ran, some 37% of respondents reported that the cost of medication is prohibiting them from taking their medication as prescribed. As long as we are in power in Wales, we will not charge people for their prescriptions. We will not succumb to the temptations of what is in England, after all, a Tory tablet tax.

Yn wir. Mae llawer ohonom ni yn y Siambr sydd â phrofiad o wylio perthnasau yn dioddef o niwmoconiosis, yn arbennig—yn enwedig yn yr ardaloedd glo carreg—a'r hyn a wnaeth i gymaint o ddynion ac i'w hiechyd o ran y nebiwlyddion y bu'n rhaid iddyn nhw eu cario o gwmpas. I lawer ohonom, roedd hwn yn ffactor pwysig yn ein penderfyniad i ymuno â byd gwleidyddiaeth yn y lle cyntaf, i wneud yn siŵr nad oedd hyn yn digwydd i gymaint o bobl yn y dyfodol. Mae'n warthus, er enghraifft, yn yr arolwg a gynhaliwyd gan y Glymblaid Taliadau Presgripsiwn, bod tua 37% o'r ymatebwyr yn dweud bod cost meddyginiaeth yn eu hatal rhag cymryd eu meddyginiaeth fel y nodwyd ar y presgripsiwn. Cyn belled â'n bod ni mewn grym yng Nghymru, ni fyddwn yn codi tâl ar bobl am eu presgripsiynau. Ni fyddwn yn ildio i demtasiynau o ran yr hyn a geir yn Lloegr, sydd mewn gwirionedd, yn dreth ar dabledi gan y Torïaid.

13:49 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, First Minister, for confirming that you will continue to allow millionaires in Wales to have free paracetamol, Bonjela and athlete's foot powder at the expense of cancer patients who are denied access to life-saving treatment and drugs. Will you join with me in commending the opportunity that is presented to the Welsh NHS by community pharmacies in tackling the unscheduled care crisis that exists in Wales as a result of the pressures in our hospitals and in general practices? What action are you taking as a Welsh Government to realise the full potential of community pharmacies in being able to offer unscheduled care services?

Diolch i chi, Brif Weinidog, am gadarnhau y byddwch yn parhau i ganiatáu i filiwnyddion yng Nghymru gael parasetamol, Bonjela a phowdr tarwden y traed am ddim ar draul cleifion canser nad ydynt yn cael mynediad at driniaeth a chyffuriau a fyddai yn achub eu bywydau. A wnewch chi ymuno â mi i gymeradwyo'r cyfle a gyflwynir i'r GIG yng Nghymru gan fferyllfeydd cymunedol o ran mynd i'r afael â'r argyfwng gofal heb ei drefnu sy'n bodoli yng Nghymru o ganlyniad i'r pwysau yn ein hysbytai ac mewn meddygfeydd teulu? Pa gamau ydych chi'n eu cymryd fel Llywodraeth Cymru i wireddu potensial llawn fferyllfeydd cymunedol o ran gallu cynnig gwasanaethau gofal heb ei drefnu?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am disappointed, Llywydd, that when mention is made of all those miners who had pneumoconiosis and respiratory disease, the benches opposite laughed. They laughed. They are the people who destroyed our mining communities, destroyed the lives of many of our miners, and they laugh—[Interruption.]

Rwy'n siomedig, Lywydd, pan sonnir am yr holl lowyr hynny a oedd â niwmoconiosis a chlefyd anadlol, bod y meinciau gyferbyn wedi chwerthin. Fe wnaethant chwerthin. Nhw yw'r bobl a ddinistriodd ein cymunedau glofaol, a ddinistriodd bywydau llawer o'n glowyr, ac maen nhw'n chwerthin—[Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order.

Trefn.

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

They laugh at people who suffer from respiratory diseases.

Maen nhw'n chwerthin am ben pobl sy'n dioddef o glefydau anadlol.

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. That is not the kind of behaviour I expect from the leader of the opposition. [Interruption.] Order.

Trefn. Nid dyna'r math o ymddygiad rwy'n ei ddisgwyl gan arweinydd yr wrthblaid. [Torri ar draws.] Trefn.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

They laugh when mention is made of the treatment of those respiratory diseases, and I have to say that I am disappointed in that. The Member talks about millionaires not paying for prescriptions. What he means, of course, is millionaires over 60 not paying for prescriptions. What he means is that those many people who have long-term illnesses and need medication should be denied that medication unless they can pay. The Prescription Charges Coalition made it quite clear that 37% of people with respiratory diseases are put off taking their medication because of the charges. That is the position that the party opposite defends. We believe in a free NHS at the point of delivery. They do not.

Maen nhw'n chwerthin pan sonnir am drin y clefydau anadlol hynny, ac mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn siomedig yn hynny o beth. Mae'r Aelod yn siarad am filiwnyddion nad ydynt yn talu am bresgripsiynau. Yr hyn y mae'n ei olygu, wrth gwrs, yw miliwnyddion dros 60 oed nad ydynt yn talu am bresgripsiynau. Yr hyn y mae'n ei olygu yw y dylid atal y llawer o bobl hynny sydd â salwch tymor hir ac angen meddyginiaeth rhag cael y feddyginiaeth honno oni bai eu bod yn gallu talu. Fe'i gwnaed yn gwbl eglur gan y Glymblaid Taliadau Presgripsiwn bod 37% o bobl sydd â chlefydau anadlol yn amharod i gymryd eu meddyginiaeth oherwydd y taliadau. Dyna'r sefyllfa y mae'r blaid gyferbyn yn ei hamddiffyn. Rydym ni'n credu mewn GIG am ddim ar y pwynt darparu. Dydyn nhw ddim.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Poor show.

Cywilydd.

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Mae rhywun yn gorfod trefnu i fod yn sâl wythnos ymlaen llaw er mwyn gweld doctor ar amser yn rhy aml y dyddiau hyn. Dyna pam y mae'r gwasanaeth fferyllol yn y gymuned yn eithriadol o bwysig o ran rhoi cyngor. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau dyfodol y fferyllfeydd hynny sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y rhan fwyaf o'n pentrefi mwyaf a'n trefi ni?

Too often these days, one has to arrange to be ill a week in advance in order to see a GP on time. That is why the pharmaceutical service within the community is exceptionally important in terms of giving advice. What is the Government doing to secure the future of those pharmacies that exist at present in the majority of our larger villages and towns?

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'r system o ran fferyllfeydd yn sicrhau nad oes gormod mewn un ardal. Rwy'n deall na fyddai'n gam buddiol iawn pe bai fferyllfeydd bach yn cael eu colli mewn ardal a fyddai'n golygu y byddai'n rhaid teithio i gael moddion yn rhywle arall. Felly, rydym wedi bod yn gryf o ran cefnogi fferyllfeydd cymunedol, er mwyn sicrhau bod eu gwasanaeth ar gael yn y cymunedau sydd ei heisiau.

The system in terms of pharmacies ensures that there are not too many of them in any given area. I understand that it would not be particularly beneficial if smaller pharmacies were lost in an area, meaning that people would have to travel to get hold of their medicine somewhere else. So, we have been very robust in our support of community pharmacies, in order to ensure that that service is available within the communities that need it.

## Gwasanaethau Llywodraeth Leol

## Local Government Services

13:53 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)1665(FM)*

*4. Will the First Minister outline the Welsh Government's policies for the future of local government services in Wales? OAQ(4)1665(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Our policies for the future of local government services will remain unchanged. We expect them to be of the highest quality, efficient and well governed.

Ni fydd ein polisïau ar gyfer dyfodol gwasanaethau llywodraeth leol yn newid. Rydym ni'n disgwyl iddyn nhw fod o'r ansawdd uchaf, yn effeithlon ac wedi eu llywodraethu'n dda.

13:53 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Local authorities in north Wales have told me that collaboration is stopping and some mergers between departments are stopping because of the uncertainty caused by the Williams commission proposals over mergers. They have called for you, as First Minister, to state when you will be announcing what the changes are likely to be, so that they can plan their programmes ahead. Given that the Welsh Local Government Association cost evaluation is, we understand, ongoing, when would you anticipate being able to make such a statement on what the changes are going to be?

Mae awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru wedi dweud wrthyf bod cydweithredu yn dod i ben a bod rhai cyfuniadau rhwng adrannau yn cael eu terfynu oherwydd yr ansicrwydd a achoswyd gan gynigion comisiwn Williams ar uno. Maen nhw wedi galw arnoch chi, fel Prif Weinidog, i ddatgan pryd y byddwch yn cyhoeddi beth fydd y newidiadau tebygol, fel y gallant flaengynllunio eu rhaglenni. O ystyried bod gwerthusiad cost Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ôl yr hyn a ddeallwn, yn barhaus, pryd fyddech chi'n disgwyl gallu gwneud datganiad o'r fath ar beth fydd y newidiadau?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We will form a view as a Government by the end of next month. That will be a preferred map that we believe should be the template for the future. That cannot be taken forward through legislation. There is a need to discuss the issues further with some other parties in the Chamber, and I understand that. In any event, there is no time to take legislation through before the next Assembly election. It is a matter then for parties to put in their manifestos what they wish to do, but it is important that we as a Government put forward our public view as to what we think should happen, and I would encourage his party to do the same.

Byddwn yn ffurfio safbwynt fel Llywodraeth erbyn diwedd mis nesaf. Bydd hwnnw'n fap a ffafrir yr ydym yn credu y dylid ei ddefnyddio fel templed ar gyfer y dyfodol. Ni ellir bwrw ymlaen â hynny trwy ddeddfwriaeth. Mae angen trafod y materion ymhellach gyda rhai pleidiau eraill yn y Siambr, ac rwy'n deall hynny. Beth bynnag, nid oes unrhyw amser i basio deddfwriaeth cyn etholiad nesaf y Cynulliad. Mae'n fater felly i bleidiau roi yn eu maniffestos yr hyn y maen nhw'n dymuno ei wneud, ond mae'n bwysig ein bod ni fel Llywodraeth yn mynegi ein barn gyhoeddus o ran yr hyn yr ydym ni'n ei gredu y dylai ddigwydd, a byddwn yn annog ei blaid ef i wneud yr un fath.

13:54 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, we are now seeing across Wales the impact of the Tory-Lib Dem £1.7 billion cut as part of their austerity campaign, devastating many of our public services. Many of our communities are fighting back in a constructive way by endeavouring to create co-operatives and community trusts to actually protect their communities and some of these services. Will the Welsh Government be giving consideration to how we might develop a strategy to give support to all these community organisations that are now trying to protect us from the worst ravages of the Tory-Lib Dem austerity?

Brif Weinidog, rydym ni bellach yn gweld ledled Cymru effaith toriad £1.7 biliwn y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn rhan o'u hymgyrch o ddarbodaeth, gan ddinistrio llawer o'n gwasanaethau cyhoeddus. Mae llawer o'n cymunedau yn ymladd yn ôl mewn ffordd adeiladol trwy ymdrechu i greu mentrau cydweithredol ac ymddiriedolaethau cymunedol i amddiffyn eu cymunedau a rhai o'r gwasanaethau hyn. A fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth i sut y gallem ddatblygu strategaeth i roi cefnogaeth i'r holl sefydliadau cymunedol hyn sydd bellach yn ceisio ein hamddiffyn rhag difrod gwaethaf camau darbodaeth y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, a 'poor show'—which, I think, were the words that Byron Davies used, sounding like a 1950s cartoon character—but, nevertheless, there it is. It is right that, as we see the cuts being imposed by the UK Government, new ways of delivering services have to be found, and I acknowledge the fact that community trusts will be important and will play an important role across the whole of Wales, and we will look to see what we can do in order to assist them to provide those services that the Westminster governing parties want to see disappear.

Ie, 'poor show'—yr wyf yn credu oedd y geiriau a ddefnyddiwyd gan Byron Davies, gan swnio fel cymeriad cartŵn o'r 1950au—ond, serch hynny, dyna ni. Mae'n gywir, wrth i ni weld y toriadau sy'n cael eu gorfodi gan Lywodraeth y DU, bod yn rhaid dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, ac rwy'n cydnabod y ffaith y bydd ymddiriedolaethau cymunedol yn bwysig ac yn cyflawni swyddogaeth bwysig ledled Cymru gyfan, a byddwn yn edrych i weld beth y gallwn ni ei wneud er mwyn eu cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaethau hynny y mae pleidiau llywodraethu San Steffan eisiau eu gweld yn diflannu.

13:55 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n falch eich bod yn derbyn cyfrifoldeb ar ran Llywodraeth Cymru fod yn rhaid i'r Llywodraeth osod ger ein bron ni agenda ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. A oes gennych chi amserlen i gyflwyno hynny gerbron y Cynulliad a phobl Cymru?

First Minister, I am pleased that you accept responsibility on behalf of the Welsh Government that the Government should provide us with an agenda for the transformation of public services in Wales. Do you have a timetable to present that to the Assembly and to the people of Wales?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Cyn diwedd yr haf, fel y dywedais i. Bydd barn yn cael ei rhoi gan y Llywodraeth erbyn diwedd mis nesaf, gyda datganiad ar ôl hynny, a bu trafod yn barod â chynrychiolwyr o'r pleidiau eraill. Rhaid cael rhagor o drafodaethau, rwy'n deall hynny, ond mae'n bwysig dros ben ein bod ni fel Llywodraeth ac fel plaid yn mynegi barn yn gyhoeddus. Byddwn yn gofyn i'r pleidiau eraill wneud yr un peth.

Before the end of the summer, as I said. The Government's view will be set out by the end of next month, with a statement following that, and discussions have already taken place with representatives of other parties. There are more discussions to be had, I understand that, but it is extremely important that we as a Government and as a party express our views publicly. We would ask other parties to do likewise.

13:56 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Wales Audit Office's 'Meeting the Financial Challenges Facing Local Government in Wales' details some of the poor financial planning going on in a lot of local authorities. One of the conclusions is that few councils have taken appropriate account of the needs of those services in the short, medium and long term. Given the uncertainty facing local councils in terms of reorganisation, how is your Government focusing the minds of councils on addressing some of the challenges posed by this document, in terms of making sure that they are delivering efficiency and proper services for their constituents?

Mae 'Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru' Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi manylion rhywfaint o'r cynllunio ariannol gwael sy'n digwydd mewn llawer o awdurdodau lleol. Un o'r casgliadau yw mai prin yw'r cynghorau sydd wedi rhoi ystyriaeth briodol i anghenion y gwasanaethau hynny yn y tymor byr, canolig a hir. O ystyried yr ansicrwydd sy'n wynebu cynghorau lleol o ran ad-drefnu, sut mae eich Llywodraeth yn canolbwyntio meddyliau cynghorau ar fynd i'r afael â rhai o'r heriau a ddaw yn sgil y ddogfen hon, o ran gwneud yn siŵr eu bod yn darparu effeithlonrwydd a gwasanaethau priodol i'w hetholwyr?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Collaboration is still important, and it will remain important even after any proposed mergers. However, one of the issues that we are examining is how, for example, a way might be found of helping those who want to merge early, and to ensure that there are incentives in place to allow that to happen. Those are all issues that will be dealt with over the course of the next month or two.

Mae cydweithio yn dal i fod yn bwysig, a bydd yn parhau i fod yn bwysig hyd yn oed ar ôl unrhyw uno arfaethedig. Fodd bynnag, un o'r materion rydym ni'n ei archwilio yw sut, er enghraifft, y gellid dod o hyd i ffordd o helpu'r rheini sydd eisiau uno'n gynnar, a sicrhau bod cymhellion wedi'u sefydlu i ganiatáu i hynny ddigwydd. Mae'r rheini i gyd yn faterion yr ymdrinnir â nhw yn ystod y mis neu ddau nesaf.

## Ymdrechion Adfywio

## Regeneration Efforts

13:57 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion adfywio Llywodraeth Cymru yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1664(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's regeneration efforts in west Wales? OAQ(4)1664(FM)*

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Rydym yn cefnogi pob awdurdod lleol ar draws Cymru i ddatblygu ei flaenoriaethau adfywio.

We are supporting each local authority across Wales to bring forward its regeneration priorities.

13:57 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Ddoe, bûm i'n siarad ag Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau am ei gynllun i wella tref Aberdaugleddau. Nid oedd sir Benfro yn llwyddiannus yn ei chais am arian drwy'r cynllun 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Gan fod cynlluniau positif i adfywio nifer o ardaloedd yn sir Benfro, a allwch chi ddweud wrthym pa gyfleoedd fydd gan sir Benfro i geisio am arian dros y flwyddyn nesaf ac o dan ba gynllun?

Yesterday, I spoke to the Milford Haven Port Authority about its plan to improve the town of Milford Haven. Pembrokeshire was not successful in its bid for funding through the 'Vibrant and Viable Places' scheme. As there are positive plans to regenerate many areas of Pembrokeshire, can you tell us what opportunities will be available for Pembrokeshire to apply for funding over the next year and under which scheme?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae swyddogion y Llywodraeth yn trafod hyn â swyddogion sir Benfro ar hyn o bryd, er mwyn eu helpu i ystyried unrhyw ffynonellau eraill y byddai modd eu defnyddio er mwyn eu helpu i adfywio eu hardal.

Government officials are discussing this with officers in Pembrokeshire at present, in order to assist them to consider any other alternative sources that could be used to regenerate their area.

13:58 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The west Wales enterprise zone provides a centre of gravity for regeneration, and we have recently learned that Genpower is set to create 35 new jobs in the Haven zone, with financial backing from this Government. Would you join me in welcoming that excellent news?

Mae ardal fenter gorllewin Cymru yn darparu canolfan ar gyfer adfywio, ac rydym ni wedi darganfod yn ddiweddar bod Genpower ar fin creu 35 o swyddi newydd yn ardal Haven, gyda chefnogaeth ariannol gan y Llywodraeth hon. A wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r newyddion gwych hynny?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It is very good news, of course. There is much work that still needs to be done in the area, but new jobs are always welcome, and we take a strong interest in the developments at the Murco refinery as well. That is something that I have taken a personal interest in, in terms of examining what is happening there, and, as a Government, we will offer all the help that we can to ensure a successful outcome for the people of that area.

Mae'n newyddion da iawn, wrth gwrs. Mae llawer o waith y mae angen ei wneud yn yr ardal o hyd, ond mae swyddi newydd i'w croesawu bob amser, ac rydym ni'n cymryd diddordeb cryf yn y datblygiadau ym mhurfa Murco hefyd. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi cymryd diddordeb personol ynddo, o ran archwilio'r hyn sy'n digwydd yno, ac, fel Llywodraeth, byddwn yn cynnig yr holl gymorth a allwn i sicrhau canlyniad llwyddiannus i bobl yr ardal honno.

13:59 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bydd angen mwy o adfywio ar sir Benfro os bydd Murco yn cau a'r arian da hwnnw yn cael ei golli i'r economi lleol. Mae newyddion mwy cadarnhaol erbyn hyn fod posibilrwydd y bydd y rheolwyr yn prynu'r gwaith. Ym mha ffordd ydych chi'n gweithio o ran ceisiadau o'r fath? Rwy'n deall bod mwy nag un cais, o bosibl. Ym mha ffordd, felly ,y gall y Llywodraeth weithio i sicrhau bod pob rhwyddineb i rywun brynu'r burfa a pharhau â'r gwaith?

Pembrokeshire will need more than regeneration if Murco is to close and those well-paid jobs are lost to the local economy. There has been some more positive news that there is a possibility of a management buy-out at the plant. How are you working with such bids? I understand that there is more than one bid, possibly. Therefore, how can the Government work to ensure that there is every available scope for someone to buy the refinery and to carry on with the work?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae mwy nag un cais. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r bobl sydd â diddordeb i brynu'r burfa. Mae'n bwysig bod cytundeb gyda'r perchnogion, ac mae'n wir dweud y byddai'n amhosibl sicrhau bod swyddi o'r un nifer a'r un cyflog yn cael eu ffeindio am flynyddoedd yn yr ardal honno, neu mewn unrhyw ardal o Gymru. Gobeithiaf y bydd Aelodau yn maddau i mi gan nad wyf yn gallu dweud popeth wrthynt ar hyn o bryd. Mae hwn yn rhywbeth sydd o ddiddordeb mawr i ni fel Llywodraeth, ac rydym yn chwarae rhan er mwyn, rydym yn gobeithio, sicrhau bod pethau yn symud ymlaen er lles pobl yr ardal.

There is more than one bid. We are working closely with the parties that are interested in acquiring the refinery. It is exceptionally important that there is agreement with the owners, and it is true to say that it would be impossible to ensure that the same number of jobs and the same salary scales would be found for years in that area, or in any other area of Wales. I hope Members will forgive me as I am not able to inform them of everything that is going on at present. This is something that is of great interest to us as a Government, and we are playing our part in order to, hopefully, ensure that things proceed for the benefit of the people of the area.

## Uwchgynhadledd NATO

## The NATO Summit

14:00 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am baratoadau ar gyfer uwchgynhadledd NATO yng Nghasnewydd? OAQ(4)1669(FM)*

*6. Will the First Minister provide an update on preparations for the NATO summit in Newport? OAQ(4)1669(FM)*

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The summit is being organised by the UK Government for NATO, and planning for the event is well under way.

Mae'r uwchgynhadledd yn cael ei threfnu gan Lywodraeth y DU ar gyfer NATO, ac mae cynllunio ar gyfer y digwyddiad yn mynd rhagddo ers peth amser .

14:00 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. You will be aware that senior officials from the Celtic Manor Resort recently gave evidence to the Welsh Affairs Committee regarding the preparations for the NATO summit in Newport, south Wales. They criticised the lack of a marketing campaign by the Welsh Government and said that Wales had done well out of the Ryder Cup at the resort but could have done better. I recognise that many of the arrangements have security implications, but I ask the First Minister what assurance he can give that his Government will maximise the economic opportunities arising from this summit.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod uwch swyddogion o'r Celtic Manor Resort wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig yn ddiweddar ynghylch y paratoadau ar gyfer uwchgynhadledd NATO yng Nghasnewydd, de Cymru. Beirniadwyd y diffyg ymgyrch farchnata gan Lywodraeth Cymru ganddynt a dywedasant fod Cymru wedi gwneud yn dda o Gwpan Ryder yn y gwesty ond y gallai fod wedi gwneud yn well. Rwy'n cydnabod bod gan lawer o'r trefniadau oblygiadau diogelwch, ond gofynnaf i'r Prif Weinidog pa sicrwydd y gall ei roi y bydd ei Lywodraeth yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd economaidd sy'n deillio o'r uwchgynhadledd hon.

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First, there is some dispute as to what was said by those who gave evidence to the committee. I will not go into who said what, but I can say that we have several plans in place to market Wales and to use the event in order to do that. That is an invitation that was given to us by the Prime Minister, incidentally, and one that we will accept with alacrity. However, the event is not yet fully planned, and we can only organise our events around the final timetable. This is not unusual with an event like this. It is a major event, and I make no criticism of the fact that it is not yet fully in place, but, until it is, we cannot finalise our own programme around the main event itself.

Yn gyntaf, mae rhywfaint o anghydfod o ran yr hyn a ddywedwyd gan y rhai a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor. Nid wyf am drafod pwy ddywedodd beth, ond gallaf ddweud bod gennym sawl cynllun ar waith i farchnata Cymru ac i ddefnyddio'r digwyddiad er mwyn gwneud hynny. Mae hwnnw'n wahoddiad a roddwyd i ni gan y Prif Weinidog, gyda llaw, ac yn un y byddwn yn ei dderbyn ar frys. Fodd bynnag, nid yw'r digwyddiad wedi ei gynllunio'n llawn eto, ac ni allwn ond trefnu ein digwyddiadau o gwmpas yr amserlen derfynol. Nid yw hyn yn anarferol gyda digwyddiad fel hwn. Mae'n ddigwyddiad o bwys, ac nid wyf yn gwneud unrhyw feirniadaeth o'r ffaith nad yw wedi ei drefnu'n llawn eto, ond, tan i hynny ddigwydd, ni allwn gwblhau ein rhaglen ein hunain o amgylch y prif ddigwyddiad ei hun.

### Uwchgynhadledd NATO

### NATO Summit

14:02 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu mesurau i sicrhau y gall Cymru fanteisio i'r eithaf ar uwchgynhadledd NATO? OAQ(4)1678(FM)*

*7. Will the First Minister outline measures to ensure Wales is able to maximise benefits from the NATO summit? OAQ(4)1678(FM)*

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I refer the Member to the answer I gave some moments ago.

Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais rai eiliadau yn ôl.

14:02 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the First Minister for his reply. My question to you, First Minister, although I appreciate what you have just said about events, is: how can you be sure that you will be able to maximise the tourism investment opportunities that must be present in Wales for those people attending the NATO conference?

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ateb. Fy nghwestiwn i chi, Brif Weinidog, er fy mod yn gwerthfawrogi'r hyn yr ydych chi newydd ei ddweud am ddigwyddiadau, yw: sut y gallwch chi fod yn sicr y byddwch yn gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd buddsoddiad mewn twristiaeth sydd yn amlwg yn bresennol yng Nghymru i'r bobl hynny sy'n mynychu cynhadledd NATO?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are a number of events that we are looking to organise—some, we hope, will involve the heads of Government, while others will involve those around the periphery of the event, whether delegations or journalists, for example. We have plans for events that would involve those groups of people. However, it is not possible to make concrete plans until we know what the final timetable will look like. Once we know that, everything will fall into place.

Mae nifer o ddigwyddiadau yr hoffem eu trefnu—rhai, rydym ni'n gobeithio, a fydd yn cynnwys penaethiaid Llywodraethau, tra bydd eraill yn cynnwys y rhai ar ymylon y digwyddiad, boed yn gynadleddwyr neu'n newyddiadurwyr, er enghraifft. Mae gennym gynlluniau ar gyfer digwyddiadau a fyddai'n cynnwys y grwpiau hynny o bobl. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl gwneud cynlluniau pendant tan y byddwn ni'n gwybod beth fydd yr amserlen derfynol. Pan fyddwn yn gwybod hynny, bydd popeth yn disgyn i'w le.

14:02 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tra bod, yn amlwg, gyfleoedd economaidd yn deillio o'r uwchgynhadledd ei hunan, a thra bod cyfle i godi proffil Cymru'n gyffredinol, pa ymdrechion sy'n cael eu gwneud i sicrhau bod yr uwchgynhadledd hon yn gosod sylfaen cadarn ar gyfer cynnal cynadleddau eraill tebyg yn y dyfodol?

While it is obvious that economic benefits will emerge from the summit itself, and while there is an opportunity to raise Wales's profile more generally, what efforts are being made to ensure that this summit lays a firm foundation for the staging of similar conferences in the future?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yr hyn sy'n bwysig yw bod hyn yn lwyddiant—rydym i gyd yn deall hynny. Rydym yn ffodus dros ben bod gennym rywle fel y Celtic Manor, sy'n gallu cynnal digwyddiad fel hyn. Y gobaith yw y bydd hwn yn un o gyfres o ddigwyddiadau yn y dyfodol. Roedd y Ryder Cup yn un peth, ond gyda'r lefel o ddiogelwch y mae ei hangen ar gyfer y digwyddiad hwn, rydym am sicrhau bod pobl yn ystyried y Celtic Manor fel lle braf i ddod i gynnal cynhadledd a bod Cymru yn lle da i ymweld â hi. Rydym hefyd am sicrhau bod pob agwedd o Gymru yn cael eu hybu yn ystod yr achlysur.

What is important is that this should be a success—we all understand that point. We are extremely fortunate that we have a venue such as the Celtic Manor than can stage an event such as this summit. Our hope is that this will be one of a series of events in the future. The Ryder Cup was one thing, but, alongside the level of security required for this event, we must ensure that people view the Celtic Manor as a pleasant place to hold a summit and that they see Wales as a pleasant place to visit. We must ensure that every aspect of Wales is promoted during the event itself.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 8, OAQ(4)1668(FM), has been withdrawn.

Tynnwyd Cwestiwn 8, OAQ(4)1668(FM), yn ôl.

Senedd.tv Fideo Video

### Trafnidiaeth Gyhoeddus

### Public Transport

14:04 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)1675(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on the accessibility of public transport in Wales? OAQ(4)1675(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are committed to improving public transport accessibility in Wales. For example, we provide some £300 million per year to support bus and rail services across our nation.

Rydym wedi ymrwymo i wella hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Er enghraifft, rydym yn darparu tua £300 miliwn y flwyddyn i gefnogi gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd ar draws ein cenedl.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you very much for that answer. The deadline for formal legal objections has now passed regarding the cuts to the concessionary fare schemes made by your Government. I understand, following the publication of pre-action letters, that some operators have started legal action against your Government. Will you update the Chamber today with specific details of this serious breakdown in trust between you and bus operators? Will you tell us, specifically, how many operators are taking your Government to court?

Diolch yn fawr iawn am yr ateb yna. Mae'r dyddiad cau ar gyfer gwrthwynebiadau cyfreithiol ffurfiol wedi mynd heibio bellach o ran y toriadau i'r cynlluniau tocynnau rhatach a wnaed gan eich Llywodraeth. Rwy'n deall, ar ôl cyhoeddi llythyrau cyn-gweithredu, bod rhai gweithredwyr wedi dechrau cymryd camau cyfreithiol yn erbyn eich Llywodraeth. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr heddiw gyda manylion penodol ar y methiant difrifol hwn o ran ymddiriedaeth rhyngoch chi a gweithredwyr bysiau? A wnewch chi ddweud wrthym, yn benodol, faint o weithredwyr sy'n mynd â'ch Llywodraeth i'r llys?

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I cannot comment on any potential legal action, as the Member will know. I do observe, however, that a number of local bus companies in Wales are still providing the services as before.

Ni allaf wneud sylwadau ar unrhyw gamau cyfreithiol posibl, fel y bydd yr Aelod yn gwybod. Rwyf yn sylwi, fodd bynnag, bod nifer o gwmnïau bysiau lleol yng Nghymru yn dal i ddarparu'r gwasanaethau fel o'r blaen.

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, those with disabilities who need additional assistance in using public transport are eligible for a pass that enables a companion to travel with them. There is evidence that the criteria is being interpreted differently by different local authorities, with some saying that it is only available to those who need a companion on every journey, which is clearly contrary to the Welsh Government's guidance. I have raised the issue of eligibility with Caerphilly County Borough Council and found that it does not issue companion passes to those with visual impairments, while I know that other councils do. So, what will your Government do to ensure that councils apply the guidance on concessionary passes in the intended way that promotes accessibility for those with disabilities and permits companions when needed?

Brif Weinidog, mae'r rhai ag anableddau sydd angen cymorth ychwanegol wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn gymwys i gael tocyn sy'n galluogi cydymaith i deithio gyda nhw. Ceir tystiolaeth bod y meini prawf yn cael eu dehongli'n wahanol gan wahanol awdurdodau lleol, gyda rhai'n dweud ei fod ar gael dim ond i'r rhai sydd angen cydymaith ar bob taith, sydd yn amlwg yn groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi codi'r mater o gymhwysedd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac wedi canfod nad yw'n rhoi tocynnau cydymaith i'r rhai sydd â nam ar eu golwg, er fy mod yn gwybod bod cynghorau eraill yn gwneud hynny. Felly, beth fydd eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod cynghorau yn defnyddio'r canllawiau ar docynnau rhatach yn y ffordd a fwriadwyd sy'n hyrwyddo hygyrchedd i bobl ag anableddau ac yn caniatáu cymdeithion pan fo'u hangen?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There should be no difference in terms of interpretation. There should be no difference in terms of service provision for those who require companions. I will ask the Minister to write to you with information on what we will do to ensure that there is that level of consistency that people would expect.

Ni ddylai fod unrhyw wahaniaeth o ran dehongliad. Ni ddylai fod unrhyw wahaniaeth o ran y ddarpariaeth o wasanaeth i'r rhai sydd angen cymdeithion. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu atoch gyda gwybodaeth am yr hyn y byddwn yn ei wneud i sicrhau bod lefel y cysondeb yr hyn y byddai pobl yn ei ddisgwyl.

14:06 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, roedd nifer o'r cynigion ynglŷn ag ad-drefnu gwasanaethau iechyd yn y gogledd yn seiliedig ar wella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhwng pentrefi a'r ysbytai. Ers hynny, mae nifer o'r gwasanaethau hyn wedi cael eu tynnu'n ôl. Pa fath o fonitro yr ydych chi'n ei wneud, fel Llywodraeth, o ran y ffordd yr ydych wedi derbyn cynlluniau ad-drefnu, ac, ar ôl hynny, o safbwynt y diffyg gweithredu ar ran y byrddau iechyd o ran gwella trafnidiaeth yn y ffordd yr oeddent yn dweud y byddent yn ei wneud yn y cynlluniau hynny?

First Minister, a number of the proposals regarding the reconfiguration of health services in north Wales were based on improving public transport links between villages and hospitals. Since then, many of these services have been withdrawn. What kind of monitoring are you as a Government undertaking following your acceptance of the reconfiguration plans and the subsequent lack of action on behalf of the health boards in terms of improving transport links in the way they said they would do in those plans?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hyn yn rhywbeth pwysig, a soniais amdano yn y datganiad a wneuthum yr wythnos diwethaf ynglŷn â'r SuRNICC newydd yn Ysbyty Glan Clwyd, sef bod yn rhaid ystyried y sefyllfa ynglŷn â chludiant. Y broblem yw nad oes gan y Cynulliad hwn na hyd yn oed Llywodraeth Cymru unrhyw reolaeth dros reoli bysiau. Mae hwn yn rhywbeth a ddylai newid, yn ein barn ni fel Llywodraeth, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rheoli bysiau i lefel lle mae modd sicrhau gwasanaethau at y dyfodol. Mae hyn yn wendid yn y setliad datganoli presennol.

This is important, and I mentioned this point in my statement last week on the new SuRNICC at Ysbyty Glan Clwyd—we have to take into account the situation as regards transport. The problem is that the Assembly and the Welsh Government have no control over the management of bus services. It is our opinion as a Government that this is something that should change, so that we can manage services to a level where they can be secured for the future. This is a deficiency in the current devolution settlement.

### Triniaeth y Galon yng Ngheredigion

### Heart Treatment in Ceredigion

14:07 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. Beth yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol triniaeth y galon yng Ngheredigion? OAQ(4)1673(FM)*

*10. What is the Welsh Government's vision for the future of heart treatment in Ceredigion? OAQ(4)1673(FM)*

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn disgwyl bod bwrdd iechyd Hywel Dda yn cynnig gwasanaethau cardiaidd hygyrch, diogel a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n gweddu i anghenion penodol y bobl sy'n byw yn ei gymuned.

We expect Hywel Dda health board to provide accessible, high-quality, safe and sustainable cardiac services suited to the specific needs of people living in its community.

14:07 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, ddydd Iau, bydd bwrdd iechyd Hywel Dda yn trafod canoli gwasanaethau ymgynghorol cardioleg yng Nglangwili, o Fronglais. Mae hyn yn cael ei wrthwynebu gan y farn feddygol ym Mronglais. Nid wyf yn disgwyl i chi roi barn fanwl am yr argymhelliad hwn, ond rwyf yn gofyn i chi gydnabod ei bod yn bwysig bod pobl Cymru yn byw o fewn cyrraedd teg i wasanaethau sy'n medru achub eu bywyd, ac, os yw bwrdd iechyd, fel Hywel Dda, yn cymryd penderfyniad mor bellgyrhaeddol â hyn, fod unrhyw benderfyniad fel hyn yn destun ymgynghori llawn gyda chymunedau lleol, a gyda'r rheini yng Ngheredigion, Meirionnydd a Maldwyn yn yr achos hwn.

First Minister, on Thursday, the Hywel Dda health board will discuss the centralisation of consultant cardiology services in Glangwili, which will move from Bronglais. This is opposed by the medical opinion at Bronglais. I do not expect you to give a detailed opinion on this recommendation, but I would ask you to acknowledge that it is important that people in Wales live within a reasonable distance to services that can save their lives, and, if any health board, such as Hywel Dda, should take such a far-reaching decision, that that decision should be subject to full consultation with local communities, and with the communities of Ceredigion, Merioneth and Montgomeryshire in this case.

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n hynod o bwysig. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu darparu mewn ardal. Mae'r adolygiad wedi cael ei groesawu gennym ni fel Llywodraeth, a dylai'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn ymateb i'r adolygiad hwnnw yn fuan. Ni fyddwn yn erfyn unrhyw fath o newid parhaol i ddigwydd heb i'r adolygiad hwnnw gael ei ystyried. Mae'n hanfodol bwysig bod y bwrdd iechyd yn ymgynghori â'r gymuned leol; byddai hynny yn rhywbeth y byddem yn ei erfyn fel Llywodraeth.

That is very important. The health board must consider the safety of the services it provides in any given area. The review has been welcomed by us as a Government, and the health board should ensure that it responds to that review in good time. I would not expect any kind of permanent change to occur without due consideration being given to that review. It is very important that the health board consults with the local community; that would be something that we would expect as a Government.

14:09 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n rhannu pryder yr Aelod dros Geredigion ynglŷn â chanoli'r gwasanaethau hyn, oherwydd bydd hyn yn cael effaith enfawr ar fy etholwyr i hefyd. Mae hyn yn dangos unwaith eto y bydd y bobl yr wyf i yn eu cynrychioli, yn ogystal â phobl Ceredigion, yn gorfod teithio ymhellach am wasanaethau iechyd. A yw hyn yn enghraifft arall o'r modd y mae gwasanaethau iechyd yn diflannu o sir Benfro o dan eich Llywodraeth chi?

I share the concern of the Member for Ceredigion about the centralisation of these services, because this will have a huge impact on my constituents as well. This once again demonstrates that the people I represent, as well as the people of Ceredigion, will have to travel further for health services. Is this another example of how health services are disappearing from Pembrokeshire under your Government?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Roedd y cwestiwn yn ymwneud â thriniaeth y galon yng Ngheredigion. Ein nod fel Llywodraeth yw sicrhau bod gennym wasanaethau sydd yn saff a diogel, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi'i ddweud sawl gwaith yn y Siambr hon. Wrth ddweud hynny, byddwn yn erfyn i unrhyw ymateb i'r adolygiad yng Ngheredigion i ddod oddi wrth y bwrdd iechyd a bod ymgynghoriad llawn yn cymryd lle gyda phobl leol.

The question was about cardiac services in Ceredigion. Our aim as a Government is to ensure that we have services that are safe and sustainable, and that is something that I have said many times in this Chamber. Having said that, I would expect any response to the review in Ceredigion to come from the health board and that there should be a full consultation with local people.

### Terfynau Cyflymder

### Speed Limits

14:09 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am roi canllawiau Llywodraeth Cymru ar osod terfynau cyflymder lleol yng Nghymru ar waith ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1674(FM)*

*11. Will the First Minister make a statement on the implementation in Brecon and Radnorshire of Welsh Government guidance on setting local speed limits in Wales? OAQ(4)1674(FM)*

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The guidance is being implemented across all counties in Wales, and the speed limit reviews are due to be completed by the end of this year.

Mae'r canllawiau yn cael eu rhoi ar waith ym mhob sir yng Nghymru, a disgwylir i'r adolygiadau o derfynau cyflymder gael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn hon.

14:10 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The guidance that was issued by your Government in 2009 stated that the views of local communities should be taken into consideration when speed limits on trunk roads are set. As you have said, the desk exercise is to be concluded by the end of December this year. Could you confirm that Government officials have taken the trouble to ascertain the views of local communities before those reviews are completed? I am aware of at least one community council that has long-standing concerns about trunk road speed limits in its area that has had no communication from your officials regarding this process at all.

Roedd y canllawiau a gyhoeddwyd gan eich Llywodraeth yn 2009 yn nodi y dylai barn cymunedau lleol gael eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu terfynau cyflymder ar gefnffyrdd. Fel yr ydych chi wedi ei ddweud, bydd yr ymarfer desg yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr eleni. A allech chi gadarnhau bod swyddogion y Llywodraeth wedi mynd i’r drafferth i ganfod barn cymunedau lleol cyn cwblhau’r adolygiadau hynny? Rwy’n ymwybodol o un cyngor cymuned o leiaf sydd â phryderon hir-sefydlog ynghylch terfynau cyflymder ar gefnffyrdd yn ei ardal nad yw wedi derbyn unrhyw ohebiaeth o gwbl gan eich swyddogion ynglŷn â'r broses hon.

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I expect there to be a level of consultation, of course. I can say that, in terms of her constituency, a speed limit review has been conducted at Sennybridge and at Llywel. The speed limit reviews at Trecastle and Llanspyddid on the A40 are under way. There will be a further review at the Graig Goch, Pantyscallog and Cellar bends. These are issues that require periodic review. The views of those living locally are important, but, of course, there are other factors such as road safety that need to be taken into account as well.

Rwy’n disgwyl y bydd lefel o ymgynghori, wrth gwrs. Gallaf ddweud, o ran ei hetholaeth hi, bod adolygiad o derfynau cyflymder wedi ei gynnal ym Mhontsenni ac yn Llywel. Mae'r adolygiadau o derfynau cyflymder yn Nhrecastell a Llansbyddyd ar yr A40 yn mynd rhagddynt. Bydd adolygiadau pellach ar droadau Graig Goch, Pantyscallog a Cellar. Mae'r rhain yn faterion y mae angen eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Mae barn y rhai sy'n byw yn lleol yn bwysig, ond, wrth gwrs, ceir ffactorau eraill fel diogelwch ar y ffyrdd y mae angen rhoi ystyriaeth iddynt hefyd.

14:11 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not share the First Minister’s knowledge of Sennybridge, but, as the First Minister has said, the challenges that face Brecon and Radnorshire in implementing Welsh Government guidance on setting of local speed limits are common to all highway authorities across Wales. How is the Welsh Government making sure that local authorities adhere to the guidance on repeater signs for 40 mph and 50 mph roads—the small road signs between the initial 40 mph sign and the national speed limit sign, or whatever sign might be later on? I know that the guidance has changed in terms of 30 mph and 20 mph roads, but according to the guidance for 40 mph and 50 mph roads, these repeater signs should be spaced at regular intervals. However, all too often, particularly in rural areas, they are missing and local authorities do not replace them in a reasonable timespan. Can you tell us what you are doing about this breach of the highway guidance, and your own guidance?

Nid wyf yn rhannu gwybodaeth y Prif Weinidog am Bontsenni, ond, fel y mae'r Prif Weinidog wedi ei ddweud, mae’r heriau sy'n wynebu Brycheiniog a Sir Faesyfed wrth weithredu canllawiau Llywodraeth Cymru ar bennu terfynau cyflymder lleol yn gyffredin i bob awdurdod priffyrdd ledled Cymru. Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â’r canllawiau ar arwyddion ailadrodd ar gyfer ffyrdd 40 mya a 50 mya—yr arwyddion ffyrdd bychain rhwng yr arwydd 40 mya cychwynnol ac arwydd y terfyn cyflymder cenedlaethol, neu beth bynnag fydd yr arwydd yn nes ymlaen? Gwn fod y canllawiau wedi newid o ran ffyrdd 30 mya a ffyrdd 20 mya, ond yn ôl y canllawiau ar gyfer ffyrdd 40 mya a 50 mya, dylai'r arwyddion ailadrodd hyn gael eu lleoli bob hyn a hyn yn rheolaidd. Fodd bynnag, yn rhy aml, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, nid ydynt yno ac nid yw awdurdodau lleol yn gosod rhai newydd o fewn cyfnod rhesymol o amser. A allwch chi ddweud wrthym beth yr ydych chi’n ei wneud am y diffyg cydymffurfiad hwn â’r canllawiau priffyrdd, a’ch canllawiau chi eich hun?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Just to make things clear, we as a Government are responsible for setting speed limits on the motorway and the trunk road network. Local authorities are responsible for determining speed limits on the local road network. The last guidance was published in October 2009. All highway authorities in Wales have been asked to review the speed limits on their A and B roads by the end of this year. That did include the trunk roads as well. As a result of the review that is taking place, we can take a further view as to whether strengthened guidance is required.

Dim ond i wneud pethau'n eglur, rydym ni fel Llywodraeth yn gyfrifol am bennu terfynau cyflymder ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am bennu terfynau cyflymder ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. Cyhoeddwyd y canllawiau diweddaraf ym mis Hydref 2009. Gofynnwyd i'r holl awdurdodau priffyrdd yng Nghymru i adolygu'r terfynau cyflymder ar eu ffyrdd A a B erbyn diwedd y flwyddyn hon. Roedd hynny'n cynnwys y cefnffyrdd hefyd. O ganlyniad i'r adolygiad sy'n cael ei gynnal, gallwn gymryd golwg pellach ynghylch pa un a oes angen canllawiau cryfach.

### Undebau Credyd

### Credit Unions

14:13 **Russell George** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*12. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi undebau credyd yng Nghymru? OAQ(4)1679(FM)*

*12. Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government is supporting credit unions in Wales? OAQ(4)1679(FM)*

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Funding of almost £1.9 million has been committed to support credit unions over the next three years.

Mae cyllid o bron i £1.9 miliwn wedi ei ymrwymo i gefnogi undebau credyd dros y tair blynedd nesaf.

14:13 **Russell George** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, for that response. Regarding that £1.9 million, Hafren Credit Union in my constituency has been told by Welsh Government officials that it is not entitled to any of that money. It tells me that it has had no explanation as to why that decision has been made. The Government talks about growing a sustainable community-based network across Wales, so why is Hafren Credit Union being denied access to this new source of funding?

Diolch i chi, Brif Weinidog, am yr ymateb yna. O ran y £1.9 miliwn hwnnw, mae Undeb Credyd Hafren yn fy etholaeth i wedi cael ei hysbysu gan swyddogion Llywodraeth Cymru nad oes ganddo hawl i ddim o'r arian hwnnw. Mae'n dweud wrthyf nad yw wedi cael unrhyw esboniad pam y gwnaed y penderfyniad hwnnw. Mae'r Llywodraeth yn sôn am dyfu rhwydwaith cymunedol cynaliadwy ledled Cymru, felly pam mae Undeb Credyd Hafren yn cael gwrthod mynediad at y ffynhonnell newydd hon o gyllid?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am not sure that it has been denied access, and I would need further clarification on that. I understand that Hafren was awarded funding from the Welsh Government for the period up until September of this year, but, due to lower-than-predicted growth rates over the past years, it has now requested further funding. I am happy, of course, for the Member to write to me with further information. Then, he will receive a response.

Nid wyf yn siŵr a wrthodwyd mynediad iddo, a byddai angen eglurhad pellach ar hynny. Rwy'n deall y dyfarnwyd cyllid i Hafren gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod hyd at fis Medi eleni, ond, o ganlyniad i gyfraddau twf is na'r hyn a ragwelwyd dros y blynyddoedd diwethaf, mae wedi gofyn am ragor o gyllid erbyn hyn. Rwy'n hapus, wrth gwrs, i'r Aelod ysgrifennu ataf gyda mwy o wybodaeth. Yna, bydd yn derbyn ymateb.

### Addysg Ôl-16 yn Nhorfaen

### Post-16 Education in Torfaen

14:14 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*13. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am addysg ôl 16 yn Nhorfaen? OAQ(4)1681(FM)*

*13. Will the First Minister make a statement on post 16 education in Torfaen? OAQ(4)1681(FM)*

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Discussions are taking place around the best model for the future delivery of post-16 provision in Torfaen. My officials are in consultation with both Coleg Gwent and Torfaen County Borough Council. It is important that an appropriate and affordable option for delivery is agreed between the local authority and the college.

Mae trafodaethau yn cael eu cynnal o amgylch y model gorau ar gyfer cyflwyno darpariaeth ôl-16 yn Nhorfaen yn y dyfodol. Mae fy swyddogion mewn ymgynghoriad â Choleg Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae'n bwysig bod dewis priodol a fforddiadwy ar gyfer darparu yn cael ei gytuno rhwng yr awdurdod lleol a'r coleg.

14:14 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I know that you are aware of the long-standing lack of A-level provision for students in north Torfaen and I am sure you will agree with me that a solution is now well overdue. Along with other key local stakeholders, I have met with the Deputy Minister for Skills and Technology and Welsh Government officials on a number of occasions to try to map out a way forward and I am very grateful for the personal commitment he has demonstrated to finally resolving this issue. With this situation now reaching a very crucial stage, will you do everything you can as First Minister to both influence and encourage all those involved to reach a deal that will finally give all young people in Torfaen access to the twenty-first century education they deserve?

Brif Weinidog, rwy’n gwybod eich bod yn ymwybodol o'r diffyg darpariaeth Safon Uwch hir-sefydlog i fyfyrwyr yng ngogledd Torfaen ac rwy’n siŵr y byddwch yn cytuno â mi ei bod yn hen bryd i ni ddatrys hyn bellach. Ynghyd â rhanddeiliaid lleol allweddol eraill, rwyf wedi cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg a swyddogion Llywodraeth Cymru ar sawl achlysur i geisio mapio ffordd ymlaen ac rwy’n ddiolchgar iawn am yr ymrwymiad personol y mae ef wedi ei ddangos i ddatrys y mater hwn o'r diwedd. Wrth i’r sefyllfa hon gyrraedd cyfnod allweddol iawn erbyn hyn, a wnewch chi bopeth y gallwch fel Prif Weinidog i ddylanwadu ar bawb sy'n ymwneud â’r mater a’u hannog i ddod i gytundeb a fydd o’r diwedd yn rhoi mynediad i holl bobl ifanc Torfaen at yr addysg unfed ganrif ar hugain y maen nhw’n ei haeddu?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course. That commitment is there from the Government, and that commitment can, of course, be given by the Deputy Minister for skills to help find a solution for the post-16 education situation in Torfaen. The final decision is the responsibility of both the local education authority and Coleg Gwent, but, of course, as a Government, we are there and the Deputy Minister is there to look to facilitate an agreement if that is possible.

Gwnaf, wrth gwrs. Mae’r ymrwymiad hwnnw yno gan y Llywodraeth, a gall y Dirprwy Weinidog sgiliau roi’r ymrwymiad hwnnw, wrth gwrs, i helpu i ddod o hyd i ateb i’r sefyllfa addysg ôl-16 yn Nhorfaen. Cyfrifoldeb yr awdurdod addysg lleol a Choleg Gwent yw’r penderfyniad terfynol, ond, wrth gwrs, fel Llywodraeth, rydym ni yno ac mae'r Dirprwy Weinidog yno i geisio hwyluso cytundeb os yw hynny'n bosibl.

14:15 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In a joint letter from Coleg Gwent and Torfaen council in January of this year, concerning post-16 education in Torfaen, they stated the belief that Torfaen has been less than well served in terms of Welsh Government capital investment in post-16 education and broadly asked for this to be reflected with regard to a new build campus at Cwmbran. First Minister, can you indicate when that might actually happen?

Mewn llythyr ar y cyd gan Goleg Gwent a Chyngor Torfaen ym mis Ionawr eleni, yn ymwneud ag addysg ôl-16 yn Nhorfaen, nodwyd y gred ganddynt nad oedd Torfaen wedi cael llai na’i haeddiant o ran buddsoddiad cyfalaf Llywodraeth Cymru mewn addysg ôl-16 a gofynnodd yn fras i hyn gael ei adlewyrchu o ran campws wedi ei adeiladu o’r newydd yng Nghwmbrân. Brif Weinidog, a allwch chi nodi pryd y gallai hynny ddigwydd mewn gwirionedd?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is a matter for a bid to be placed before us as a Government and for that bid to be assessed. There cannot be a bid for capital investment until the final decision is taken as to the structure of post-16 education. Once that is done, bids can then be entertained.

Mae'n fater i gais gael ei roi ger ein bron fel Llywodraeth ac i’r cais hwnnw gael ei asesu. Ni ellir gwneud cais am fuddsoddiad cyfalaf tan y gwneir y penderfyniad terfynol ynghylch strwythur addysg ôl-16. Ar ôl gwneud hynny, gellir ystyried ceisiadau wedyn.

## Datblygu Trefol Cynaliadwy

## Sustainable Urban Development

14:16 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*14. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo datblygu trefol cynaliadwy? OAQ(4)1667(FM)*

*14. What is the Welsh Government doing to promote sustainable urban development? OAQ(4)1667(FM)*

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, our £100 million 'Vibrant and Viable Places' programme is supporting a town-centre approach to regeneration, taking account of key considerations, such as housing and transport, while reinforcing historic, cultural and environmental assets.

Wel, mae ein rhaglen 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid £100 miliwn yn cefnogi dull adfywio canol trefi, gan gymryd ystyriaethau allweddol, fel tai a thrafnidiaeth, i ystyriaeth, ac atgyfnerthu asedau hanesyddol, diwylliannol ac amgylcheddol ar yr un pryd.

14:16 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. I am, of course, delighted that Cardiff has been awarded sustainable food city status, and I am sure that there will be lots of excellent work arising out of that as soon as the co-ordinator takes up her job. What work is being done to ensure that local authorities are aware of the opportunities arising from Europe and co-operation across Europe around achieving better, more sustainable cities? There are lots of cross-territorial initiatives that could be funded that are not necessarily being accessed at the moment.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Rwyf i, wrth gwrs, wrth fy modd bod Caerdydd wedi ennill statws dinas bwyd cynaliadwy, ac rwy'n siŵr y bydd llawer o waith rhagorol yn deillio o hynny cyn gynted ag y bydd y cydgysylltydd yn dechrau yn ei swydd. Pa waith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r cyfleoedd sy'n deillio o Ewrop a chydweithio ar draws Ewrop o ran sicrhau dinasoedd gwell, mwy cynaliadwy? Ceir llawer o fentrau traws-diriogaethol y gellid eu hariannu nad ydynt o reidrwydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have been working with the Welsh Local Government Association and local authorities and have started developing a series of integrated sustainable urban development proposals that bring together a range of infrastructure opportunities in key areas of interest, such as urban and town centres, tourism and natural resources. During the next few months, we will be discussing these with the Welsh European Funding Office with a view to securing funding for their delivery during the course of the current EU programme.

Rydym ni wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol ac maen nhw wedi dechrau datblygu cyfres o gynigion datblygu trefol cynaliadwy integredig sy'n dod ag amrywiaeth o gyfleoedd seilwaith ynghyd mewn meysydd allweddol o ddiddordeb, fel canolfannau trefol a chanol trefi, twristiaeth a chyfoeth naturiol. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn trafod y rhain gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gyda'r bwriad o sicrhau cyllid ar gyfer eu darparu yn ystod rhaglen gyfredol yr UE.

14:17 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, urban development is obviously governed greatly by the planning system. Your Government is proposing to bring a new planning Bill forward. Can you confirm that that Bill is still on target and confirm the date when the Assembly will be considering it?

Brif Weinidog, mae datblygu trefol yn amlwg yn cael ei lywodraethu i raddau helaeth gan y system gynllunio. Mae eich Llywodraeth yn cynnig cyflwyno Bil cynllunio newydd. A allwch chi gadarnhau bod y Bil hwnnw yn dal i fod ar y trywydd iawn a chadarnhau'r dyddiad y bydd y Cynulliad yn ei ystyried?

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, that Bill is on target and will be introduced soon.

Gallaf, mae'r Bil hwnnw ar y trywydd iawn a bydd yn cael ei gyflwyno'n fuan.

### Aeldoaeth y DU o'r UE

### The UK's Membership of the EU

14:18 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*15. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fanteision aelodaeth y DU o'r UE i Gymru? OAQ(4)1677(FM)*

*15. Will the First Minister make a statement on the benefits to Wales of the UK's membership of the EU? OAQ(4)1677(FM)*

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course. It is something that I have said on many, many occasions. The EU benefits Wales in many ways, including structural funds, the common agricultural policy and, of course, unfettered access to the single market. Our economic interests are firmly linked to the UK's membership of the EU, without which we would find ourselves in a perilous economic position.

Wrth gwrs. Mae'n rhywbeth yr wyf wedi ei ddweud lawer iawn o weithiau. Mae'r UE o fudd i Gymru mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cronfeydd strwythurol, y polisi amaethyddol cyffredin ac, wrth gwrs, mynediad dilyffethair at y farchnad sengl. Mae ein buddiannau economaidd wedi eu cysylltu'n gadarn ag aelodaeth y DU o'r UE, a byddem yn canfod ein hunain mewn sefyllfa economaidd beryglus hebddi.

Senedd.tv Fideo Video

14:18 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the First Minister for that response. Would the First Minister agree that, as well as being so important economically, the European Union has been a huge force in ensuring that women have rights in their work and family life? In particular, if you look at the issues of maternity rights, parental leave, rights for agency workers and equal rights for part-time workers, would you not agree that the EU is a great force for good?

Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna. A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno, yn ogystal â bod mor bwysig yn economaidd, bod yr Undeb Ewropeaidd wedi bod yn rym mawr o ran sicrhau bod gan fenywod hawliau yn eu bywyd gwaith a theuluol? Yn arbennig, os edrychwch chi ar faterion hawliau mamolaeth, absenoldeb rhiant, hawliau i weithwyr asiantaeth a hawliau cyfartal i weithwyr rhan-amser, oni fyddech chi'n cytuno bod yr UE yn rym mawr er lles?

Senedd.tv Fideo Video

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely. As the Member does, I come from the same tradition that suggests that workers' rights are paramount and should be, in an ideal world, the same throughout the world. So, the harmony that has been introduced partially if not wholly by the European Union is something that I very much welcome.

Yn sicr. Fel yr Aelod, rwyf innau'n dod o'r un traddodiad sy'n awgrymu bod hawliau gweithwyr yn hollbwysig ac y dylent, mewn byd delfrydol, fod yr un fath ledled y byd. Felly, mae'r cytgord a gyflwynwyd yn rhannol os nad yn gyfan gwbl gan yr Undeb Ewropeaidd yn rhywbeth yr wyf yn ei groesawu'n fawr.

Senedd.tv Fideo Video

14:19 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

First Minister, what is the Welsh Government doing to make sure that the next round of European structural funding is far better spent than funding to Wales has been in the past? Parts of west Wales and the Valleys are once again qualifying and are poorer than parts of Poland. That is not a good legacy, is it? Will you please make sure that future funding is better spent so that those benefits you talk about will be fully realised?

Brif Weinidog, beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod y rownd nesaf o gyllid strwythurol Ewropeaidd yn cael ei wario'n llawer gwell nag y mae cyllid i Gymru wedi cael ei wario yn y gorffennol? Mae rhannau o orllewin Cymru a'r Cymoedd unwaith eto yn gymwys ac maen nhw'n dlotach na rhannau o Wlad Pwyl. Nid yw honno'n etifeddiaeth dda, ydi hi? A wnewch chi sicrhau os gwelwch yn dda bod cyllid yn cael ei wario'n well yn y dyfodol fel y bydd y manteision hynny yr ydych chi'n sôn amdanynt yn cael eu gwireddu'n llawn?

Senedd.tv Fideo Video

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, GDP has improved—we know that—as has gross disposable household income. Look, for example, at the Swansea University campus now being built: that is partially funded by European money. Look at Superfast Cymru: that would not happen without European money. Look, for example, at Jobs Growth Wales. All of these programmes are partially or wholly funded by European money, without which the programmes could not be delivered. I do not accept that money has been spent unwisely. You can go around Wales to see how the money has helped people and helped institutions to deliver for people.

Wel, mae CDG wedi gwella—rydym ni'n gwybod hynny—ac felly hefyd incwm gwario gros cartrefi. Edrychwch, er enghraifft, ar gampws Prifysgol Abertawe sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd: mae hwnnw'n cael ei ariannu'n rhannol gan arian Ewropeaidd. Edrychwch ar Gyflymu Cymru: Ni fyddai hynny'n digwydd heb arian Ewropeaidd. Edrychwch, er enghraifft, ar Dwf Swyddi Cymru. Mae pob un o'r rhaglenni hyn yn cael eu hariannu'n rhannol neu'n gyfan gwbl gan arian Ewropeaidd, ac ni ellid darparu'r rhaglenni heb hynny. Nid wyf yn derbyn bod arian wedi ei wario yn annoeth. Gallwch fynd o gwmpas Cymru i weld sut y mae'r arian wedi helpu pobl ac wedi helpu sefydliadau i gyflawni dros bobl.

Senedd.tv Fideo Video

It is our hope, of course, that we do not qualify for the highest level of structural funds post 2020, but we would want to see transitional funding in place. The worst possible outcome, of course, would be for the UK not to be a member of the EU and therefore for Wales not to be, in which case, the amount of money would be far reduced or even not there at all.

Ein gobaith yw, wrth gwrs, na fyddwn yn gymwys ar gyfer y lefel uchaf o gronfeydd strwythurol ar ôl 2020, ond byddem yn dymuno gweld cyllid pontio ar waith. Y canlyniad gwaethaf posibl, wrth gwrs, fyddai i'r DU beidio â bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, ac felly i Gymru beidio â bod yn aelod, a phe byddai hynny'n digwydd, byddai llawer llai o arian ar gael neu ddim arian o gwbl hyd yn oed.

14:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

## Questions to the Minister for Culture and Sport

### Clybiau Chwaraeon

### Sports Clubs

14:20 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i glybiau chwaraeon yn Islwyn? OAQ(4)0159(CS)*

*1. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for sports clubs in Islwyn? OAQ(4)0159(CS)*

14:20 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

Senedd.tv Fideo Video

Through Sport Wales, the Welsh Government supports a wide range of sports clubs across Wales.

Drwy Chwaraeon Cymru, mae Llywodraeth Cymru'n cynorthwyo ystod eang o glybiau chwaraeon ledled Cymru.

14:20 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. More than 20 gymnasts from the Valleys Gymnastic Academy in Croespenmaen in my constituency have been selected to train at regional and national level. I am sure that the Minister will join me in congratulating them. What action is the Welsh Government taking to support our sporting stars of the future?

Diolch am yr ateb hwnnw. Mae mwy na 20 o gymnastwyr o Academi Gymnasteg y Cymoedd yng Nghroespenmaen yn fy etholaeth i wedi cael eu dewis i hyfforddi ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Rwyf yn siŵr y gwnaiff y Gweinidog ymuno â mi a'u llongyfarch. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gynorthwyo sêr chwaraeon y dyfodol?

14:21 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will very much join Gwyn Price in congratulating those gymnasts. That is a very considerable achievement that is rightly marked here in Plenary today.

Rwyf yn sicr am ymuno â Gwyn Price a llongyfarch y gymnastwyr hynny. Mae hynny'n dipyn o orchest ac mae'n cael ei nodi'n briodol yma yn y Cyfarfod Llawn heddiw.

The Welsh Government fully supports the development of our young people in sport in a grass-roots sense and in terms of elite performance. So, we task Sport Wales with taking forward policy implementation effectively and it supports events such as Gemau Cymru, which offer opportunities to our young athletes to develop and go along that pathway to elite success. Of course, Sport Wales also has an elite strategy in place.

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'n llwyr ddatblygiad ein pobl ifanc ym myd chwaraeon ar lawr gwlad ac o ran perfformiad elît. Felly, rydym yn rhoi i Chwaraeon Cymru y gwaith o fwrw ymlaen â rhoi polisïau ar waith yn effeithiol ac mae'n cefnogi digwyddiadau fel Gemau Cymru, sy'n cynnig cyfleoedd i'n hathletwyr ifanc i ddatblygu a dilyn y llwybr hwnnw at lwyddiant elît. Wrth gwrs, mae gan Chwaraeon Cymru strategaeth elît ar waith hefyd.

Sport governing bodies are also very important in making sure that we are as successful as we need to be, as, of course, are the elite facilities, and, thankfully, we have a network of those elite facilities right across Wales.

Mae cyrff llywodraethu chwaraeon hefyd yn bwysig iawn o ran gwneud yn siŵr ein bod mor llwyddiannus ag y mae angen inni fod, yn yr un modd â'r cyfleusterau elît, wrth gwrs, a, diolch i'r drefn, mae gennym rwydwaith o'r cyfleusterau elît hynny ledled Cymru.

14:22 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Will the Minister give details of how the Olympic legacy has been progressed in Islwyn and how this can be reflected at the Commonwealth Games?

A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynglŷn â sut y mae'r etifeddiaeth Olympaidd wedi ei datblygu yn Islwyn a sut y gellir adlewyrchu hyn yng Ngemau'r Gymanwlad?

Senedd.tv Fideo Video

14:22 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes. I am pleased to be able to say that the Olympic legacy is very strong right across Wales, including Islwyn, and examples of that are indeed in our gymnastics clubs around Wales, where there has been a very substantial increase in participation as a result of that Olympic legacy. The same is true for swimming and cycling, for example.

Gwnaf. Rwyf yn falch o allu dweud bod yr etifeddiaeth Olympaidd yn gryf iawn ledled Cymru, gan gynnwys Islwyn, a bod enghreifftiau o hynny, yn wir, yn ein clybiau gymnasteg o amgylch Cymru, lle bu cynnydd sylweddol iawn o ran cyfranogi yn sgil yr etifeddiaeth Olympaidd honno. Mae'r un peth yn wir am nofio a beicio, er enghraifft.

Senedd.tv Fideo Video

14:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call Lindsay Whittle.

Galwaf Lindsay Whittle.

Senedd.tv Fideo Video

14:22 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

No, thank you.

Dim diolch.

Senedd.tv Fideo Video

14:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Next is question 2—Christine Chapman.

Nesaf y mae cwestiwn 2—Christine Chapman.

Senedd.tv Fideo Video

### Cyfleoedd Chwaraeon

### Sporting Opportunities

14:22 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cyfleoedd chwaraeon yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0154(CS)*

*2. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to improve sporting opportunities in the Cynon Valley? OAQ(4)0154(CS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:22 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Welsh Government strategy is improving sporting opportunities across Wales.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru'n gwella cyfleoedd chwaraeon ledled Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Minister, may I thank you for your recent correspondence regarding Mountain Ash Cricket Club? When I met members of the club, I was impressed by their commitment to enhance sporting opportunities for the local community. However, this case has highlighted for me what I think is an issue around grass-roots sporting clubs accessing the right support and mentoring. How could we make sure that this is available so that clubs can grow and develop and offer improved sporting opportunities to communities in Cynon Valley and beyond?

Weinidog, a gaf fi ddiolch ichi am eich gohebiaeth ddiweddar ynghylch Clwb Criced Aberpennar? Pan gyfarfûm ag aelodau o'r clwb, gwnaeth eu hymroddiad i wella cyfleoedd chwaraeon i'r gymuned leol argraff arnaf. Fodd bynnag, mae'r achos hwn wedi amlygu'r hyn sydd i mi'n ymwneud â gallu clybiau chwaraeon ar lawr gwlad i gael gafael ar y cymorth a'r mentora cywir. Sut y gallem sicrhau bod hyn ar gael fel y gall clybiau dyfu a datblygu a chynnig gwell cyfleoedd chwaraeon i gymunedau yng Nghwm Cynon a thu hwnt?

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

These are vital matters for our grass-roots sports scene in Wales and I very much agree with the sentiments that Christine Chapman has expressed. Again, Sport Wales works very closely with our local authorities and we task Sport Wales, through its remit letter, with developing that partnership with local authorities to understand the needs of the sports clubs in their localities and how they can best be supported. So, that is a very strong part of our effort with regard to these matters. I know that Sport Wales also works closely with Business Wales regional advisers to encourage clubs and governing bodies to take a more business-like approach, which is very important for sustainability. Finally, Sport Wales has its community sport strategy, which I think is highly relevant and valuable.

Mae'r rhain yn faterion allweddol i'n byd chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru, ac rwyf yn cytuno'n llwyr â'r teimladau a fynegodd Christine Chapman. Unwaith eto, mae Chwaraeon Cymru'n gweithio'n agos iawn gyda'n hawdurdodau lleol ac rydym yn rhoi i Chwaraeon Cymru, drwy ei lythyr cylch gwaith, y gwaith o ddatblygu'r bartneriaeth honno gydag awdurdodau lleol er mwyn deall anghenion y clybiau chwaraeon yn eu hardaloedd a'r ffordd orau o'u cefnogi. Felly, mae hynny'n rhan fawr iawn o'n hymdrech o ran y materion hyn. Gwn fod Chwaraeon Cymru hefyd yn gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr rhanbarthol Busnes Cymru i annog clybiau a chyrff llywodraethu i fod â mwy o feddylfryd busnes, sy'n bwysig iawn ar gyfer cynaliadwyedd. Yn olaf, mae gan Chwaraeon Cymru ei strategaeth chwaraeon cymunedol sydd, yn fy marn i, yn berthnasol ac yn werthfawr iawn.

14:24 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Over the next 12 to 18 months, Minister, there will be some big decisions on major events coming to Cardiff, which will affect the whole of South Wales Central, in particular Cynon Valley, and will motivate people to get involved in grass-roots sport, such as the Super Cup in football, UEFA's deliberations on our bid to host some of the European cup games, and also the Rugby World Cup in 18 months' time. How does the Welsh Government interact with all of the governing bodies, and, in particular, some of the commercial backers of these organisations, to put money into grass-roots sports in the localities that host these events that, ultimately, will leave a legacy for grass-roots sports?

Dros y 12 i 18 mis nesaf, Weinidog, gwneir penderfyniadau mawr am ddigwyddiadau mawr a allai ddod i Gaerdydd, a fydd yn effeithio ar Ganol De Cymru gyfan, yn enwedig Cwm Cynon, ac yn sbarduno pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad, megis y Super Cup pêl-droed, trafodaethau UEFA ynghylch ein cais i gynnal rhai o gemau cwpan Ewrop, a Chwpan Rygbi'r Byd hefyd ymhen 18 mis. Sut y mae Llywodraeth Cymru'n rhyngweithio â phob un o'r cyrff llywodraethu, ac, yn benodol, â rhai o gefnogwyr masnachol y sefydliadau hyn, i roi arian i mewn i chwaraeon ar lawr gwlad yn yr ardaloedd sy'n cynnal y digwyddiadau hyn a fydd, yn y pen draw, yn gadael etifeddiaeth i chwaraeon ar lawr gwlad?

14:25 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is very much a cross-Government effort when it comes to major events coming to Wales, so I work very closely with the First Minister and the Minister for the economy to make sure that we join up, so that this series of major events that is so important to Wales and that we have had so much success in attracting, delivers in a number of ways. For me, crucially, that is about grass-roots sport participation and that feeding into elite success. So, I can assure Members that we do have the necessary cross-Government conversations to effectively address these matters.

Mae'n sicr yn ymdrech ar draws y Llywodraeth pan ddaw digwyddiadau mawr i Gymru, felly rwyf yn cydweithio'n agos iawn â'r Prif Weinidog a Gweinidog yr economi i wneud yn siŵr fod ein gwaith yn gydgysylltiedig, fel bod y gyfres hon o ddigwyddiadau mawr sydd mor bwysig i Gymru, ac yr ydym wedi cael cymaint o lwyddiant yn eu denu, yn cyflawni mewn nifer o ffyrdd. I mi, mae hynny, yn allweddol, yn golygu cymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad a sicrhau bod hynny'n cyfrannu at lwyddiant elît. Felly, gallaf sicrhau'r Aelodau ein bod yn cael y sgyrsiau ar draws y Llywodraeth sydd eu hangen i ymdrin â'r materion hyn yn effeithiol.

14:25 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will no doubt be aware of the cuts that have been implemented by Rhondda Cynon Taf council, which is, of course, Labour run. Although some of the leisure centres in Rhondda Cynon Taf have had decisions on their future deferred, it has been decided that 12 of the local authority's paddling pools will be closed, including the one that is adjacent to Abercynon Sports Centre, known as Pontycynon pool. Paddling pools can be the first introduction to water in a pool setting for toddlers, so do you share my concerns and the concerns of many of the residents in Rhondda Cynon Taf about the impact that these cuts will have on the swimming confidence and proficiency of children and young people and, indeed, on the future of sports participation in general?

Weinidog, mae'n siŵr eich bod yn gwybod am y toriadau sydd wedi eu rhoi ar waith gan gyngor Rhondda Cynon Taf, sydd, wrth gwrs, yn cael ei redeg gan Lafur. Er bod penderfyniadau wedi'u gohirio ynglŷn â dyfodol rhai o'r canolfannau hamdden yn Rhondda Cynon Taf, penderfynwyd y bydd 12 o byllau padlo'r awdurdod lleol yn cau, gan gynnwys yr un sy'n gyfagos i Ganolfan Chwaraeon Abercynon, a elwir yn bwll Pontycynon. Gall pyllau padlo fod yn gyflwyniad cyntaf i ddŵr mewn amgylchedd pwll i blant bach, felly a ydych yn rhannu fy mhryderon a phryderon llawer o drigolion Rhondda Cynon Taf am yr effaith a gaiff y toriadau hyn ar hyder a hyfedredd plant a phobl ifanc o ran nofio ac, yn wir, ar ddyfodol cymryd rhan mewn chwaraeon yn gyffredinol?

14:26 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that local authorities right across Wales face very difficult decisions, and I think that all Members will be familiar with that, and, of course, that is true for local authorities of all political colours. We know the situation in terms of UK Government funding cuts and the impact on the Welsh Government and then local authorities and many others. These are very important decisions in terms of prioritisation that local authorities have to make. So, as the relevant Minister in Welsh Government, I work very closely with local authorities. We have had a series of meetings, which will continue. Sport Wales is working very closely with them as well. What I can assure Members is that, in terms of swimming, of course, our flagship free swim policy is very much delivering for Wales, and we are performing very well in the UK in terms of swimming among our young people.

Credaf fod awdurdodau lleol ledled Cymru'n wynebu penderfyniadau anodd iawn, ac rwyf yn meddwl y bydd pob Aelod yn gyfarwydd â hynny, ac, wrth gwrs, mae hynny'n wir am awdurdodau lleol o bob lliw gwleidyddol. Rydym yn gwybod beth yw'r sefyllfa o ran toriadau cyllid Llywodraeth y DU a'r effaith ar Lywodraeth Cymru ac yna ar awdurdodau lleol a llawer o rai eraill. Mae'r rhain yn benderfyniadau pwysig iawn o ran y blaenoriaethu y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud. Felly, gan mai fi yw'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru, rwyf yn gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol. Rydym wedi cael cyfres o gyfarfodydd, a byddant yn parhau. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda hwy. Gallaf sicrhau'r Aelodau, o ran nofio, wrth gwrs, fod ein polisi blaenllaw nofio am ddim yn bendant yn cyflawni dros Gymru, ac rydym yn perfformio'n dda iawn yn y DU o ran nofio ymhlith ein pobl ifanc.

### Cyfleusterau Chwaraeon

### Sporting Facilities

14:27 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o gyfleusterau chwaraeon ar Ynys Môn? OAQ(4)0161(CS)*

*3. Will the Minister make a statement on the provision of sporting facilities in Ynys Môn? OAQ(4)0161(CS)*

14:27 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddarparu cyfleusterau chwaraeon ar draws Cymru.

The Welsh Government works with a range of partners to provide sporting facilities across Wales.

14:27 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn.

Thank you very much.

I am sure that the Minister would agree on the need to build on the firm foundations that we have in Welsh motorsport, and that the Anglesey circuit, which has already received funding from the Welsh Government, is ready to move on to the next stage in its development. Does the Minister agree that attracting a stage of the Wales Rally GB to the circuit and to invest further in the facilities there would be a major boost to motorsport on Anglesey and in the rest of Wales?

Rwyf yn siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno bod angen adeiladu ar y seiliau cadarn sydd gennym ym maes chwaraeon moduro yng Nghymru, a bod cylchffordd Ynys Môn, sydd eisoes wedi cael arian gan Lywodraeth Cymru, yn barod i symud ymlaen i gam nesaf ei datblygiad. A yw'r Gweinidog yn cytuno y byddai denu cymal o Rali Cymru Prydain Fawr i'r gylchffordd a buddsoddi ymhellach yn y cyfleusterau yno'n hwb mawr i chwaraeon modur ar Ynys Môn ac yng ngweddill Cymru?

14:28 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think that what I can say to the Member is that, in the Welsh Government and across departments, we are always looking at attracting major events to Wales, understanding the economic and, indeed, sporting benefits that they bring, so I am sure that these matters will be further discussed and I am sure that the Member will feed into those discussions.

Wel, rwyf yn meddwl mai'r hyn y gallaf ei ddweud wrth yr Aelod yw ein bod, yn Llywodraeth Cymru ac ar draws adrannau, bob amser yn ceisio denu digwyddiadau mawr i Gymru, ac yn deall y buddion economaidd ac, yn wir, y buddion o ran chwaraeon y maent yn esgor arnynt, felly rwyf yn siŵr y caiff y materion hyn eu trafod ymhellach ac rwyf yn siŵr y bydd yr Aelod yn cyfrannu at y trafodaethau hynny.

14:28 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, having just heard that last answer, if you have not visited the Anglesey track, I would urge you to take the opportunity to do so. However, there are many sporting clubs across north Wales that are, in effect, charitable organisations, and I am sure that you will be aware, Minister, that they can only really invest in their facilities through donations and fundraising by their members. Some sporting clubs across my region are looking at business rate demands of 20%, and there is one organisation that is facing a £4,000 rate demand, which is going to substantially affect its future. Will you discuss with the Minister for economy and science whether or not the 20% discretionary rate can be lifted? I know that Anglesey council operates that rate and that Denbighshire does too, so clubs get 80% of their business rates remitted, but will you look at seeing what can be done for clubs where that 20% demand in business rates threatens their viability?

Weinidog, ar ôl clywed yr ateb diwethaf hwnnw, os nad ydych wedi ymweld â thrac Ynys Môn, byddwn yn eich annog i fanteisio ar y cyfle i wneud hynny. Fodd bynnag, mae llawer o glybiau chwaraeon ledled y gogledd sydd, i bob pwrpas, yn sefydliadau elusennol, ac rwyf yn siŵr y byddwch yn gwybod, Weinidog, mai'r unig ffordd y gallant fuddsoddi yn eu cyfleusterau mewn gwirionedd yw drwy gyfrwng rhoddion a gweithgareddau codi arian gan eu haelodau. Mae rhai clybiau chwaraeon ar draws fy rhanbarth i yn wynebu biliau ardrethi busnes o 20%, ac mae un sefydliad sy'n wynebu bil ardrethi o £4,000, a fydd yn effeithio'n sylweddol ar ei ddyfodol. A wnewch chi drafod â Gweinidog yr economi a gwyddoniaeth a ellir diddymu'r gyfradd ddewisol 20% ai peidio? Gwn fod cyngor Ynys Môn yn defnyddio'r gyfradd honno a bod Sir Ddinbych yn gwneud hynny hefyd, fel bod 80% o ardrethi busnes clybiau'n cael eu hepgor, ond a wnewch chi edrych i weld beth y gellir ei wneud dros glybiau lle mae'r bil ardrethi busnes o 20% yn bygwth eu hyfywedd?

14:29 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am always willing and, indeed, eager to have conversations with ministerial colleagues in terms of my responsibilities, and I will certainly address those matters.

Rwyf bob amser yn barod ac, yn wir, yn awyddus i gael sgyrsiau â chyd-Weinidogion am fy nghyfrifoldebau, a byddaf yn sicr yn rhoi sylw i'r materion hynny.

14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 4, OAQ(4)0162(CS), has been withdrawn. Question 5 is from Rhodri Glyn Thomas, Plaid Cymru spokesperson.

Mae cwestiwn 4, OAQ (4) 0162 (CS), wedi'i dynnu'n ôl. Rhodri Glyn Thomas, llefarydd Plaid Cymru, sy'n gofyn cwestiwn 5.

## Ymgysylltiad Cymunedau â Threftadaeth

## Community Engagement with Heritage

14:30 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymgysylltiad cymunedau â threftadaeth Cymru? OAQ(4)0165(CS)*

*5. Will the Minister make a statement on community engagement with Welsh heritage? OAQ(4)0165(CS)*

14:30 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r strategaeth amgylchedd hanesyddol yn gosod ein huchelgais ar gyfer trafodaethau gyda chymunedau ar eu hetifeddiaeth.

The historic environment strategy sets out our ambition for discussions with communities on their heritage.

14:30 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a ymunwch â mi i longyfarch Ysgol Beca, y disgyblion ac aelodau o'r cyhoedd yn yr ardal, am ail-greu digwyddiadau terfysgoedd Beca yn ddiweddar ac ailgyflwyno'r hanes hwnnw, gan ei fod yn 175 o flynyddoedd ers i'r digwyddiadau hynny gymryd lle?

Will you join me in congratulating Ysgol Beca, both the pupils and the members of the public in the area, for recreating the events of the Rebecca riots recently and re-presenting that history, as it is 175 years since those events took place?

14:30 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased to join the Member in those congratulations. I think that the Rebecca riots are obviously a very important part of Welsh history. It is always good to see that history being brought alive by community and young people's involvement. I very much commend that effort, along with the Member.

Rwyf yn falch iawn o ymuno â'r Aelod yn y llongyfarchiadau hynny. Credaf fod terfysgoedd Beca, wrth gwrs, yn rhan bwysig iawn o hanes Cymru. Mae bob amser yn dda gweld cymunedau a phobl ifanc yn dod â hanes yn fyw. Rwyf finnau, fel yr Aelod, yn cymeradwyo'r ymdrech honno'n fawr iawn.

14:31 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n falch iawn bod y Gweinidog yn cymeradwyo gweithredu uniongyrchol yn erbyn yr awdurdodau, oherwydd mae hynny'n rhan bwysig, wrth gwrs, o hanes a threftadaeth Cymru. Rydym yn cyflwyno'n hanes, ein treftadaeth a'n llenyddiaeth mewn ffyrdd gwahanol. A gaf fi'ch cyfeirio chi at weithgaredd cwbl wahanol sef Gŵyl Gerdd Llandeilo Fawr, a gafodd ei gwrthod yn ddiweddar am gymhorthdal gan gyngor y celfyddydau oherwydd nad oedd wedi datblygu ei strategaeth farchnata? Y gwir amdani yw nad yw'r lleoliadau yn Llandeilo yn caniatáu iddi gael cynulleidfaoedd mwy; fodd bynnag, mae angen cefnogaeth arni i gynnal sefydliad a gŵyl sydd o safon aruchel iawn. A wnewch chi drafod y materion hyn gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, os gwelwch chi fod yn dda?

I am very pleased that the Minister commends the direct action against the authorities because, of course, that is a very important part of the history and heritage of Wales. We present our history, our heritage and our literature in different ways. May I refer you to a completely different activity, namely the Llandeilo Fawr Festival of Music, which was recently refused a grant from the arts council because it had not developed its marketing strategy? The truth of the matter is that the locations in Llandeilo do not allow for larger audiences; however, it needs support to sustain an institution and a festival that is of an exceptionally high calibre. Will you please discuss these matters with the Arts Council of Wales?

14:32 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that Members will be familiar with the well-established and important arm's-length principle when it comes to the Arts Council of Wales funding for a variety of organisations and events. I think that that arm's-length principle is in place for a very good reason.

Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â'r egwyddor hyd braich sefydledig a phwysig o ran cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru i amrywiaeth o sefydliadau a digwyddiadau. Credaf fod yr egwyddor hyd braich honno yno am reswm da iawn.

14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call Jenny Rathbone.

Galwaf ar Jenny Rathbone.

14:32 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

An important part of our Welsh heritage, of course, is our fantastic topography, particularly in our three national parks. I was pleased to welcome to the Senedd recently a group of community champions from the Mosaic project, which is about encouraging people from ethnic minorities and from our more deprived communities to be aware of and use our national parks. I wonder whether you could say a little about what you think is its role in ensuring that everyone is aware of and enjoys our national parks.

Rhan bwysig o'n treftadaeth Gymreig, wrth gwrs, yw ein topograffeg wych, yn enwedig yn ein tri pharc cenedlaethol. Roeddwn yn falch o groesawu grŵp o hyrwyddwyr cymunedol o'r prosiect Mosaic i'r Senedd yn ddiweddar; eu gwaith yw annog pobl o leiafrifoedd ethnig ac o'n cymunedau mwy difreintiedig i fod yn ymwybodol o'n parciau cenedlaethol a'u defnyddio. Tybed a allech ddweud ychydig am yr hyn yr ydych yn credu yw eu swyddogaeth o ran sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'n parciau cenedlaethol ac yn eu mwynhau?

14:32 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our national parks are a fantastic asset for Wales. Obviously, we want to ensure that more and more people from Wales engage with them, go along and experience that wonderful environment and everything that they have to offer. The Mosaic project is very important in terms of meeting some of the gaps that exist in terms of that engagement. We do want to see more of our ethnic minorities, for example, visiting our national parks. I am pleased to say that the Mosaic project has had considerable success, and we will continue to monitor that and develop it.

Mae ein parciau cenedlaethol yn ased gwych i Gymru. Wrth gwrs, rydym am sicrhau bod mwy a mwy o bobl o Gymru'n ymgysylltu â hwy, yn mynd iddynt ac yn profi'r amgylchedd gwych hwnnw a phopeth sydd ganddynt i'w gynnig. Mae'r prosiect Mosaic yn bwysig iawn o ran llenwi rhai o'r bylchau yn hynny o beth. Rydym am weld mwy o'n lleiafrifoedd ethnig, er enghraifft, yn ymweld â'n parciau cenedlaethol. Rwyf yn falch o ddweud bod y prosiect Mosaic wedi cael cryn lwyddiant, a byddwn yn parhau i'w fonitro a'i ddatblygu.

14:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the opposition spokesperson, Suzy Davies.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Suzy Davies.

14:33 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, yn eich datganiadau ar y Bil treftadaeth, rydych yn sôn, efallai, am rôl ehangach i gymdeithas sifil yn gyffredinol. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar eich syniadau i helpu i wella arbenigedd a chynaliadwyedd grwpiau annibynnol o'r fath?

Minister, in your statements on the heritage Bill, you mention, perhaps, a stronger role for civic society in general. Can you give us the latest information on your proposals to improve the expertise and sustainability of such independent groups?

14:33 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, we have done a piece of work, which was carried out for us by Hyder Consulting, in terms of how we best support our third sector network, our civic societies and others in Wales, and just what role that network could play. I think that the conclusion is that it should be of a more informal nature than was being suggested by some. As we take the heritage Bill forward we will be very keen to understand these issues and engage with key partners across Wales in terms of what finally emerges.

Wrth gwrs, rydym wedi gwneud darn o waith, a wnaed ar ein cyfer gan Hyder Consulting, ynglŷn â'r ffordd orau inni gynorthwyo ein rhwydwaith trydydd sector, ein cymdeithasau dinesig ac eraill yng Nghymru, a pha ran yn union y gallai'r rhwydwaith hwnnw ei chwarae. Credaf mai'r casgliad yw y dylai fod o natur fwy anffurfiol nag a awgrymwyd gan rai. Wrth inni fwrw ymlaen â'r Bil treftadaeth byddwn yn awyddus iawn i ddeall y materion hyn ac ymgysylltu â phartneriaid allweddol ledled Cymru o ran yr hyn a ddaw ohono yn y pen draw.

14:34 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for that encouraging answer. One of the real strengths of community groups is not only being able to identify issues on the ground, but that they are also more agile in their ability to respond to certain challenges—perhaps more quickly than the Government department. I am just thinking how helpful an army of volunteers might be in Neath Abbey, for example, given the concerns that I have already raised with you. Is it too early to say what level of autonomy you might foresee such a network of civil society groups having in the delivery of heritage policy?

Diolch i'r Gweinidog am yr ateb calonogol hwnnw. Un o gryfderau gwirioneddol grwpiau cymunedol yw eu bod, yn ogystal â gallu adnabod materion ar lawr gwlad, yn fwy hyblyg o ran eu gallu i ymateb i rai heriau—efallai'n gynt nag adran y Llywodraeth. Meddwl yr wyf pa mor ddefnyddiol y gallai byddin o wirfoddolwyr fod ym Mynachlog Nedd, er enghraifft, ac ystyried y pryderon yr wyf eisoes wedi'u codi â chi. A yw'n rhy gynnar i ddweud faint o ymreolaeth yr ydych yn rhagweld y câi rhwydwaith o grwpiau cymdeithas sifil o'r fath o ran cyflwyno polisi treftadaeth?

14:35 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that it would be an independent network; I think that that is what we have always envisaged. It is about supporting that army of volunteers and organisations that are so crucial to our heritage in Wales. We are very lucky to have people and organisations with that sort of commitment. So, we do value them, and we very much want to work with them to understand the best way forward.

Rwyf yn meddwl y byddai'n rhwydwaith annibynnol; rwyf yn meddwl mai dyna'r ydym wedi'i ragweld o'r cychwyn. Mae'n fater o gynorthwyo'r fyddin honno o wirfoddolwyr a'r sefydliadau sydd mor hanfodol i'n treftadaeth yng Nghymru. Rydym yn ffodus iawn o gael pobl a sefydliadau â'r math hwnnw o ymrwymiad. Felly, rydym yn eu gwerthfawrogi, ac yn bendant hoffem weithio gyda hwy i ddeall y ffordd orau ymlaen.

14:35 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I am sure that you will join with me in praising Cardiff University and the community of Ely and Caerau for their long-term collaboration on the CAER Heritage Project. In particular, the team has succeeded in bringing renewed attention to a hugely significant archaeological site, while also giving the local community a real sense of pride in, and a real sense of ownership of, that site. However, what can the Welsh Government do to help other communities learn from this experience of best practice in protecting and celebrating their own local heritage?

Weinidog, rwyf yn siŵr yr ymunwch â mi a chanmol Prifysgol Caerdydd a chymuned Trelái a Chaerau am eu cydweithrediad hirdymor ar y Prosiect Treftadaeth CAER. Yn benodol, mae'r tîm wedi llwyddo i ddod â sylw o'r newydd i safle archeolegol hynod arwyddocaol, ac ar yr un pryd wedi rhoi gwir ymdeimlad o falchder i'r gymuned leol yn y safle hwnnw, a gwir ymdeimlad o berchnogaeth ohono. Fodd bynnag, beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu cymunedau eraill i ddysgu o'r profiad hwn o arfer gorau o ran diogelu a dathlu eu treftadaeth leol eu hunain?

14:36 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that it is very important that we connect our local communities with their heritage, and their archaeological heritage, as strongly as possible. Wherever we have good examples, we need to celebrate them, and make everyone aware of their existence and of how they could emulate those achievements. So, I think that it is really important. Communities have a great passion for archaeology, and archaeological digs, and we need to harness that enthusiasm. So, good examples of that are very welcome.

Rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cysylltu ein cymunedau lleol â'u treftadaeth, ac â'u treftadaeth archeolegol, cyn gryfed ag y bo modd. Lle bynnag y mae gennym enghreifftiau da, mae angen inni eu dathlu, a sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u bodolaeth a sut y gallent efelychu'r llwyddiannau hynny. Felly, rwyf yn meddwl bod hynny'n wirioneddol bwysig. Mae cymunedau'n teimlo angerdd mawr dros archeoleg, a chloddfeydd archeolegol, ac mae angen inni harneisio'r brwdfrydedd hwnnw. Felly, mae enghreifftiau da o hynny i'w croesawu'n fawr.

## Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

## National Park Authorities

14:36

### Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Pa bryd mae'r Gweinidog yn bwriadu ymateb i argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru? OAQ(4)0163(CS)*

*6. When does the Minister intend to respond to the recommendations of the Commission on Public Service Governance and Delivery in relation to National Park Authorities in Wales? OAQ(4)0163(CS)*

14:36

### John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bydd y Prif Weinidog yn darparu ymateb trawslywodraethol i argymhellion y comisiwn cyn toriad yr haf.

The First Minister will provide a cross-government response to the commission's recommendations before the summer recess.

14:36

### Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei ymateb. A gaf fi hefyd ddiolch iddo am ei ymateb yn ystod y ddadl a drefnwyd gan fy nghyd-weithiwr ar y parciau cenedlaethol? Fodd bynnag, a fyddai'r Gweinidog yn fodlon cymeradwyo unrhyw ddatblygiad yn y cyfamser i geisio gwell cydweithrediad rhwng yr ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol—ac rwy'n sôn yn arbennig, yn naturiol, am Ben Llŷn, ond hefyd y gweddill yng Nghymru—a'r parciau cenedlaethol, oherwydd y posibiliadau bellach y gallem gael cyfundrefn newydd o barciau natur a phobl yng Nghymru, yn dilyn yr adolygiad y cyfeiriodd ato yn ystod y ddadl yr wythnos diwethaf?

I thank the Minister for his response. May I also thank him for his response during the debate that was organised on the national parks by my colleague? However, would the Minister be willing to approve any development in the meantime in order to seek better collaboration between the areas of outstanding natural beauty—and, naturally, I am particularly talking about the Llŷn peninsula, but also the rest of those areas in Wales—and the national parks, given the possibilities that now exist that we could have a new regime of parks for nature and people in Wales, following the review that he referred to during the debate last week?

14:37

### John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have important work ongoing, obviously, in terms of the policy statement, and, indeed, the governance review, responding to the Williams commission, as well as in terms of the planning Bill. So, I think that quite a lot is happening in terms of our designated landscapes and national parks. However, we cannot stand still, and we want to see much greater and stronger collaboration from here on, as it were, before we get to any future arrangements.

Mae gennym waith pwysig sy'n parhau, wrth gwrs, o ran y datganiad polisi, ac, yn wir, yr adolygiad llywodraethu, ymateb i gomisiwn Williams, ac o ran y Bil cynllunio. Felly, credaf fod cryn dipyn yn digwydd o ran ein tirweddau dynodedig a'n parciau cenedlaethol. Fodd bynnag, ni allwn aros yn yr unfan, a hoffem weld mwy o gydweithio o lawer a chydweithio cryfach o hyn ymlaen, fel petai, cyn inni gyrraedd unrhyw drefniadau yn y dyfodol.

14:38

### Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As a lover of the outdoors, I am sure that the Minister is aware that a garden that was inspired by the Brecon Beacons national park's dark sky status has just won a silver-gilt medal at this year's RHS Chelsea Flower Show. It is the creation of Kirsty Williams's constituents, Harry and Dave Rich from Brecon. The Brecon Beacons national park is one of only five international dark sky reserves in the world, Minister—a fact that we are very proud of. I am not convinced that the recommendation to merge national park authorities would necessarily protect that innovation that has led to the designation of the dark skies, or, indeed, the designation of the Brecon Beacons as a geo park—that has not happened in the other national park authority areas. Do you agree with me that whatever changes are made—and I agree with you that we cannot stand still—we have to make sure that innovation, and developments such as dark sky status, are preserved, and that that innovation is paramount, whatever we do in changing?

Ac yntau'n hoff iawn o'r awyr agored, rwyf yn siŵr bod y Gweinidog yn gwybod bod gardd a gafodd ei hysbrydoli gan statws awyr dywyll parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog newydd ennill medal arian euraid yn Sioe Flodau Chelsea yr RHS eleni. Cafodd ei chreu gan etholwyr i Kirsty Williams, Harry a Dave Rich o Aberhonddu. Mae parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn un o ddim ond pum gwarchodfa awyr dywyll ryngwladol yn y byd, Weinidog—ffaith yr ydym yn falch iawn ohoni. Nid wyf wedi fy argyhoeddi y byddai'r argymhelliad i uno awdurdodau'r parciau cenedlaethol o reidrwydd yn diogelu'r arloesi sydd wedi arwain at y dynodiad awyr dywyll, nac, yn wir, at ddynodi Bannau Brycheiniog yn geoparc—nid yw hynny wedi digwydd yn ardaloedd awdurdodau'r parciau cenedlaethol eraill. A ydych yn cytuno â mi, pa bynnag newidiadau a wneir—ac rwyf yn cytuno â chi na allwn aros yn ein hunfan—fod yn rhaid inni wneud yn siŵr bod arloesi, a datblygiadau megis statws awyr dywyll, yn cael eu gwarchod, a bod arloesi'n hollbwysig, beth bynnag a wnawn o ran newid?

14:39 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very happy to agree with the Member in terms of the need for innovation for new ideas and new energy. I think that that is absolutely crucial. I am also very happy to celebrate, along with Nick Ramsay, the dark sky designation success for the Brecon Beacons national park. I think that, obviously, we will be having a debate about the future structure in due course, and I am sure that all Members will play a lively part in that debate.

Rwyf yn hapus iawn i gytuno â'r Aelod o ran yr angen am arloesi o ran syniadau newydd ac egni newydd. Rwyf o'r farn bod hynny'n gwbl hanfodol. Rwyf finnau, fel Nick Ramsay, hefyd yn hapus iawn i ddathlu llwyddiant y dynodiad awyr dywyll i barc cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Credaf, wrth gwrs, y byddwn yn cael dadl am y strwythur yn y dyfodol maes o law, ac rwyf yn siŵr y bydd pob Aelod yn chwarae rhan fywiog yn y ddadl honno.

14:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Welsh Liberal Democrats spokesperson, Peter Black.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:39 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the Williams commission report's recommendations on national parks was, in my view, quite conservative, and not particularly far-reaching in terms of what it proposed to do. Do you think that the reorganisation that the Welsh Government is now proposing to take forward, as a result of that report, could see more democratisation of the national park authorities and could give people a greater say in how they are run?

Weinidog, roedd argymhellion adroddiad comisiwn Williams ar barciau cenedlaethol, yn fy marn i, yn eithaf ceidwadol, ac nid oedd yn arbennig o bellgyrhaeddol o ran yr hyn yr oedd yn cynnig ei wneud. A ydych yn credu y gallai'r ad-drefnu y mae Llywodraeth Cymru yn awr yn cynnig bwrw ymlaen ag ef, yn sgil yr adroddiad hwnnw, arwain at ddemocrateiddio mwy o awdurdodau'r parciau cenedlaethol ac y gallai roi mwy o lais i bobl ynghylch y ffordd y cânt eu rhedeg?

14:40 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, Williams refers to the possibility of direct elections and the need for members to cover areas, either wholly or partly, within the national park, in terms of their representation. So, these are matters up there for debate in terms of Williams. Certainly, they will be matters very much for debate in terms of the governance review.

Wrth gwrs, mae Williams yn cyfeirio at bosibilrwydd etholiadau uniongyrchol a'r angen i aelodau ymdrin ag ardaloedd sydd, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, o fewn y parc cenedlaethol, o ran eu cynrychiolaeth. Felly, mae'r rhain yn faterion i'w trafod o ran Williams. Yn sicr, bydd y materion hyn yn destun dadl o ran yr adolygiad llywodraethu.

14:40 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. Do you think that, as part of that review, you will also be looking at the functions of the national park authorities? It seems a bit perverse to have two planning authorities, for example, covering the same area.

Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. A ydych yn meddwl, fel rhan o'r adolygiad hwnnw, y byddwch hefyd yn edrych ar swyddogaethau awdurdodau'r parciau cenedlaethol? Mae'n ymddangos braidd yn afresymol fod dau awdurdod cynllunio, er enghraifft, yn ymdrin â'r un ardal.

14:40 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The functions are absolutely vital. I know that many Members feel that sustainable development responsibilities could be put more to the fore in terms of national parks and what is required of them. It is absolutely right that we have a clear view of their functions before we finally deal with governance.

Mae'r swyddogaethau'n gwbl allweddol. Gwn fod llawer o Aelodau'n teimlo y gellid rhoi mwy o bwys ar gyfrifoldebau datblygu cynaliadwy o ran parciau cenedlaethol a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae'n gwbl briodol ein bod yn edrych yn glir ar eu swyddogaethau cyn inni fynd ati i ymdrin â llywodraethu.

**Darlledu**

**Broadcasting**

14:41 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ddarlledu? OAQ(4)0166(CS)*

*7. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's policy on broadcasting? OAQ(4)0166(CS)*

14:41 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel cenedl sydd â'i hiaith ei hun, ei diwylliant ei hun a'i sefydliadau gwleidyddol ei hun, mae'n hanfodol bod gennym ddiwydiant cyfryngau cryf i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n rhoi gwybodaeth i bobl, yn eu haddysgu a'u hysbrydoli. Bydd Llywodraeth Cymru yn dal i sefyll dros gynnal gwasanaethau llawn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

As a nation with its own language, culture and political institutions, a strong media is essential to provide a comprehensive service that informs, educates and inspires the people of Wales. The Welsh Government will continue to stand up for maintaining full services in the Welsh and English languages.

14:41 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Weinidog, am yr ymateb hwnnw, yn sôn am wlad â'i hiaith a'i diwylliant ei hun, a'r pwysigrwydd o ddiogelu'r pethau hynny. Hoffwn ddychwelyd at y thema yn ymwneud â Beca, trwy ddweud bod Radio Beca ar hyn o bryd yn darlledu yn ne-orllewin Cymru—yn siroedd Ceredigion, Penfro a Chaerfyrddin. Fodd bynnag, mae gwaharddiad ar orsaf radio cymunedol o'r fath rhag hysbysebu a derbyn arian am hysbysebu. Mae Llywodraeth San Steffan ar hyn o bryd yn ymgynghori ar y mater hwn. A wnewch chi gysylltu â'r adran berthnasol yn Llywodraeth San Steffan a phwyso am yr hawl i wneud hynny, er mwyn caniatáu i Radio Beca barhau i wneud yr union beth y sonioch amdano?

Thank you very much, Minister, for that reply, talking about a country with its own language and culture, and the importance of safeguarding those things. I would like to return to the theme of Rebecca, by saying that Radio Beca at present broadcasts in south-west Wales—in the counties of Ceredigion, Pembrokeshire and Carmarthenshire. However, there is a prohibition on such a community radio from advertising and receiving income for advertising. The Westminster Government is at present consulting on this issue. Will you contact the relevant department in Westminster and press for the right to do that, so that Radio Beca can continue to do exactly what you have just mentioned?

14:42 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased to tell the Member that I have made my views known, and to the effect that there should be that relaxation, which would allow a very valuable income stream to reach these radio stations.

Rwyf yn falch iawn o ddweud wrth yr Aelod fy mod wedi lleisio fy marn, ac i'r perwyl y dylid llacio'r rheolau hynny, a fyddai'n caniatáu i ffrwd incwm werthfawr iawn gyrraedd y gorsafoedd radio hyn.

14:42 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is a done deal, then.

Mae'r gwaith wedi'i wneud, felly.

14:42 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, following your meeting with UK Government at the end of January this year, you outlined areas of discussion such as the BBC charter renewal and S4C. One other area of note was how the British Film Institute is engaging with the devolved administrations in order to meet its UK-wide remit. Will you outline to the Chamber today what engagement you have had to date with the British Film Institute, and what you are doing to further that relationship activity here in Wales?

Weinidog, yn dilyn eich cyfarfod â Llywodraeth y DU ddiwedd mis Ionawr eleni, rydych wedi amlinellu meysydd trafod megis adnewyddu siarter y BBC ac S4C. Un maes arall o bwys oedd y ffordd y mae Sefydliad Ffilm Prydain yn ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig er mwyn cyflawni ei gylch gwaith ledled y DU. A wnewch chi amlinellu i'r Siambr heddiw pa gyswllt yr ydych wedi'i gael hyd yma â Sefydliad Ffilm Prydain, a beth yr ydych yn ei wneud i hyrwyddo gweithgarwch y berthynas honno yma yng Nghymru?

14:43 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, well, we have been seeking to work with the UK Government and the British film agency to make sure that closer engagement takes place with the industry here in Wales. We will continue to make those points because we believe that that could and should be strengthened.

Ie, wel, rydym wedi bod yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth y DU ac asiantaeth ffilm Prydain i wneud yn siŵr bod ymgysylltu agosach yn digwydd â'r diwydiant yma yng Nghymru. Byddwn yn parhau i wneud y pwyntiau hynny oherwydd rydym yn credu y gellid, ac y dylid, cryfhau hynny.

**Parciau Cenedlaethol Cymru**

**Wales's National Parks**

14:43 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei ymrwymiad i Barciau Cenedlaethol Cymru? OAQ(4)0164(CS)*

*8. Will the Minister make a statement on his commitment to Wales' National Parks? OAQ(4)0164(CS)*

14:43 **John Griffiths** [Bywgraffiad] [Biography]

The Welsh Government is fully committed to our national parks and ensuring that they are equipped to meet national priorities, statutory purposes and local community interests.

Mae Llywodraeth Cymru'n gwbl ymrwymedig i'n parciau cenedlaethol ac i sicrhau bod ganddynt fodd i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, dibenion statudol a buddiannau cymunedau lleol.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:44 **William Powell** [Bywgraffiad] [Biography]

I would like to thank the Minister very much for his response, and also for such a comprehensive response to the debate that I sponsored last Wednesday here in the Senedd. One point that I think we are unanimous on here in the Chamber is the important role that national parks play in our rural communities. One issue that I raised during the course of the short debate was the importance of issues around the governance review of national parks. In that context, Minister, will you give consideration to introducing fixed terms for local authority representatives sitting on national park authorities? As things presently stand, because of the requirement for political balance, they are often at the mercy of disputatious independence and other issues that can lead to turbulence within the authorities, where political games are being played. In the meantime, the scrutiny function, which is so crucial to their future, is undermined and, indeed, public money is squandered in terms of the unnecessary training requirements that then come into play.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am ei ymateb, a hefyd am roi ymateb mor gynhwysfawr i'r ddadl a noddais ddydd Mercher diwethaf yma yn y Senedd. Un pwynt yr wyf yn meddwl ein bod yn unfrydol arno yma yn y Siambr yw'r rhan bwysig y mae parciau cenedlaethol yn ei chwarae yn ein cymunedau gwledig. Un mater a godais yn ystod y ddadl fer oedd pwysigrwydd materion sy'n ymwneud ag adolygu llywodraethu yn y parciau cenedlaethol. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, a wnewch chi ystyried cyflwyno telerau sefydlog ar gyfer cynrychiolwyr awdurdodau lleol sy'n eistedd ar awdurdodau parciau cenedlaethol? Fel y mae pethau ar hyn o bryd, oherwydd y gofyniad am gydbwysedd gwleidyddol, maent yn aml ar drugaredd annibyniaeth ddadleugar a materion eraill a all arwain at gynnwrf o fewn yr awdurdodau, lle mae gemau gwleidyddol yn cael eu chwarae. Yn y cyfamser, mae'r swyddogaeth graffu, sydd mor hanfodol i'w dyfodol, yn cael ei thanseilio ac, yn wir, mae arian cyhoeddus yn cael ei wastraffu o ran y gofynion hyfforddi diangen sy'n codi wedyn.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:45 **John Griffiths** [Bywgraffiad] [Biography]

I think that, obviously, those are matters that do need to be considered in the governance review and in issues around direct election representation and accountability.

Rwyf yn meddwl, wrth gwrs, fod y rhain yn faterion y mae angen eu hystyried yn yr adolygiad llywodraethu ac mewn materion sy'n ymwneud â chynrychiolaeth etholiadau uniongyrchol ac atebolrwydd.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:45 **Paul Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

Minister, as you know, national parks have an important role to play in maintaining tourism infrastructure and in strengthening the national park brand. Indeed, Pembrokeshire Coast National Park Authority was successful in 2012 with its vintage-style poster campaign to celebrate 60 years of the national park. In the light of this, can you tell us what specific support the Welsh Government offers national parks to strengthen the brand and to promote the parks across the UK and, indeed, further afield?

Weinidog, fel y gwyddoch, mae gan barciau cenedlaethol ran bwysig i'w chwarae o ran cynnal seilwaith twristiaeth a chryfhau brand y parciau cenedlaethol. Yn wir, roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro'n llwyddiannus yn 2012 â'i ymgyrch posteri hen-ffasiwn i ddathlu 60 mlynedd y parc cenedlaethol. Yng ngoleuni hyn, a allwch ddweud wrthym pa gymorth penodol y mae Llywodraeth Cymru'n ei gynnig i barciau cenedlaethol i gryfhau'r brand ac i hyrwyddo'r parciau ledled y DU ac, yn wir, ymhellach i ffwrdd?

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:45 **John Griffiths** [Bywgraffiad] [Biography]

Of course, our tourism strategy, which is, of course, the responsibility of the Minister for economy, understands the great advantages that national parks and designated landscapes bring to Wales and then uses those attributes in the marketing and promotional strategy and activity. So, I am very pleased, and I know that the national parks are very pleased, to work with Visit Wales, the Minister for economy and me in taking those matters forward.

Wrth gwrs, mae ein strategaeth dwristiaeth, sydd, wrth gwrs, yn rhan o gyfrifoldeb Gweinidog yr economi, yn deall manteision mawr y parciau cenedlaethol a thirweddau dynodedig i Gymru ac yna'n defnyddio'r nodweddion hynny yn y strategaethau a'r gweithgareddau marchnata a hyrwyddo. Felly, rwyf yn falch iawn, ac rwyf yn gwybod bod y parciau cenedlaethol yn falch iawn, o weithio gyda Chroeso Cymru, Gweinidog yr economi a mi i fwrw ymlaen â'r materion hynny.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:46 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Mae ein parciau cenedlaethol ni yn drysorau cenedlaethol, ond mae llais lleol yn elfen bwysig mewn unrhyw drefniant llywodraethol, yn fy marn i. Felly, wrth i'r Llywodraeth ystyried opsiynau o safbwynt llywodraethiant yr awdurdodau hynny yn y dyfodol, a fyddwch yn ymrwymo i'r egwyddor o sicrhau bod atebolrwydd yn bodoli i drigolion sy'n byw yn ardaloedd y parciau cenedlaethol?

Our national parks are national treasures, but the local voice is an important element of any governance arrangement, in my view. Therefore, as the Government considers options for the governance of those authorities in future, will you commit to the principle of ensuring that there is accountability for people who live within the national park areas?

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I think that that is absolutely crucial; we do have to get the balance right between the national interest, as it were, in terms of the future structure of our national parks, and the local community interest and how that is factored into any new arrangements. So, that will be a crucial balance to strike, I think, and will be at the very heart of the work that we need to do.

Rwyf o'r farn bod hynny'n gwbl hanfodol; rhaid inni sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng budd y wlad, fel petai, o ran strwythur ein parciau cenedlaethol yn y dyfodol, a budd y gymuned leol a sut y caiff hynny ei ystyried mewn unrhyw drefniadau newydd. Felly, bydd hwnnw'n gydbwysedd hanfodol i'w sicrhau, yn fy marn i, a bydd wrth wraidd y gwaith y mae angen inni ei wneud.

Senedd.tv Fideo Video

### Y Parciau Cenedlaethol

### The National Parks

14:47 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau ynghylch Parciau Cenedlaethol y mae'n bwriadu eu cyflwyno yn 2014? OAQ(4)0153(CS)*

*9. Will the Minister provide an update on policies relating to National Parks that he intends to deliver in 2014? OAQ(4)0153(CS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:47 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

The policy statement for protected landscapes, to be published in June, will set out the Government's vision for Wales's national parks. I am also committed to undertaking a governance review of Wales's designated landscapes.

Mae'r datganiad polisi ar gyfer tirweddau gwarchodedig, a gyhoeddir ym mis Mehefin, yn nodi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer parciau cenedlaethol Cymru. Rwyf hefyd wedi ymrwymo i gynnal adolygiad llywodraethu o dirweddau dynodedig Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:47 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Thank you for that reply, Minister. The Farmers Union of Wales has called for national park authorities to be stripped of their planning powers. It claims that national parks are more concerned with tourism than with the needs of local people and farmers, and that giving planning powers to local authorities would save money and ensure greater consistency in planning decisions. What plans does the Minister have to review the powers of national park authorities with regard to planning applications within their boundaries?

Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi galw am i awdurdodau'r parciau cenedlaethol golli eu pwerau cynllunio. Mae'n honni bod parciau cenedlaethol yn poeni mwy am dwristiaeth nag am anghenion pobl leol a ffermwyr, ac y byddai rhoi pwerau cynllunio i awdurdodau lleol yn arbed arian ac yn sicrhau mwy o gysondeb o ran penderfyniadau cynllunio. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i adolygu pwerau awdurdodau'r parciau cenedlaethol o ran ceisiadau cynllunio o fewn eu ffiniau?

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Well, these matters will be dealt with through the planning Bill.

Wel, ymdrinnir â'r materion hyn drwy'r Bil cynllunio.

Senedd.tv Fideo Video

### Ymddiriedolaethau Cefnogwyr

### Supporters' Trusts

14:48 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl ymddiriedolaethau cefnogwyr mewn pêl-droed? OAQ(4)0158(CS)*

*10. Will the Minister make a statement on the role of supporters' trusts in football? OAQ(4)0158(CS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I support the principle of supporters' trusts in football and believe that they can have a very important role to play in the decision-making process at different sports clubs.

Rwyf o blaid egwyddor ymddiriedolaethau cefnogwyr mewn pêl-droed ac yn credu y gallant chwarae rhan bwysig iawn yn y broses o wneud penderfyniadau mewn gwahanol glybiau chwaraeon.

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I know that the Minister has met recently with the Cardiff City Supporters' Trust. Perhaps he will be familiar with the very clear views expressed by the trust that the club should return to its traditional colour of blue and that the majority shareholder should convert his debt to equity. Do you think that the supporters' trust, which has the clearly overwhelming backing of Cardiff City fans, should be heard by the Cardiff City club and its management?

Gwn fod y Gweinidog wedi cwrdd yn ddiweddar ag Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Caerdydd. Efallai y bydd yn gyfarwydd â barn glir iawn a fynegwyd gan yr ymddiriedolaeth y dylai'r clwb ddychwelyd i'w liw glas traddodiadol ac y dylai'r prif gyfranddaliwr newid ei ddyled yn ecwiti. A ydych yn meddwl y dylai ymddiriedolaeth y cefnogwyr, sydd wedi cael cefnogaeth glir mwyafrif llethol cefnogwyr Dinas Caerdydd, gael ei chlywed gan glwb Dinas Caerdydd a'i reolwyr?

Senedd.tv Fideo Video

14:49 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I very much agree with Leighton Andrews; it is vitally important that the supporters' trusts are heard in these issues at any football club, and, obviously, that very much applies to Cardiff City. I was at the match between Cardiff and Chelsea recently, and I scanned the terraces and stands and, I must say, that I found it very difficult to pick out a red scarf; it was overwhelmingly blue and white—

Cytunaf yn gryf â Leighton Andrews; mae'n hollbwysig bod ymddiriedolaethau'r cefnogwyr yn cael eu clywed yn y materion hyn yn unrhyw glwb pêl-droed, ac, wrth gwrs, mae hynny'n berthnasol iawn i glwb Dinas Caerdydd. Roeddwn yn y gêm rhwng Caerdydd a Chelsea yn ddiweddar, a bûm yn sganio'r terasau a'r eisteddleoedd ac, mae'n rhaid imi ddweud, fe'i cefais hi'n anodd iawn gweld sgarff goch; glas a gwyn oedd y mwyafrif llethol—

Senedd.tv Fideo Video

14:49 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

It was more blue.

Glas yn bennaf.

Senedd.tv Fideo Video

14:49 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

[Continues.]—and, indeed, blue in terms of Chelsea. I think that it is very important that we do deal with these matters; there are real issues here. Supporters are the lifeblood of our football clubs, and we must make sure that they have a greater say, a greater role and greater influence.

[Parhau.]—ac, yn wir, glas o ran Chelsea. Rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn ymdrin â'r materion hyn; mae materion gwirioneddol i'w trafod yma. Cefnogwyr yw enaid ein clybiau pêl-droed, a rhaid inni wneud yn siŵr eu bod yn cael mwy o lais, mwy o ran a mwy o ddylanwad.

Senedd.tv Fideo Video

14:49 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, you might be aware of the event that I am hosting in July about safe standing at football grounds. I appreciate that regulation around this issue is not a devolved issue, but many supporters' trusts across Wales have voiced their support for this project and, in particular, in trying to get a pilot project up so that Wales can lead the way, as it were. Would you lend your voice to support that motion that would support the role of safe standing at our football stadiums? Indeed, I invite you to attend the event that I will be hosting in July.

Weinidog, efallai y byddwch yn gwybod am y digwyddiad yr wyf yn ei gynnal ym mis Gorffennaf ynglŷn â sefyll yn ddiogel mewn meysydd pêl-droed. Rwyf yn deall nad yw rheoleiddio'r mater hwn yn rhywbeth sydd wedi'i ddatganoli, ond mae llawer o ymddiriedolaethau cefnogwyr ledled Cymru wedi lleisio eu cefnogaeth i'r prosiect hwn ac, yn arbennig, i geisio sefydlu prosiect peilot fel y gall Cymru arwain y ffordd, fel petai. A wnewch chi leisio eich cefnogaeth i'r cynnig a fyddai o blaid mannau sefyll diogel yn ein stadiymau pêl-droed? Yn wir, rwyf yn eich gwahodd i fod yn bresennol yn y digwyddiad y byddaf yn ei gynnal ym mis Gorffennaf.

Senedd.tv Fideo Video

14:50 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I will certainly attend that event if I am able to, Presiding Officer. I think that these are issues that we need to discuss and debate. Obviously, the views of the football authorities are very important, but, once again, returning to the original question, the views of the supporters and communities that sustain our clubs are extremely important. I look forward to that event and the debate on the issue.

Byddaf yn sicr yn bresennol yn y digwyddiad hwnnw os gallaf, Lywydd. Credaf fod y rhain yn faterion y mae angen inni eu trafod a dadlau yn eu cylch. Yn amlwg, mae barn yr awdurdodau pêl-droed yn bwysig iawn, ond, unwaith eto, a dychwelyd at y cwestiwn gwreiddiol, mae barn y cefnogwyr a'r cymunedau sy'n cynnal ein clybiau'n hynod bwysig. Edrychaf ymlaen at y digwyddiad hwnnw a'r ddadl ar y mater.

Senedd.tv Fideo Video

14:50 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un clwb sy'n falch iawn o wisgo coch ond sydd hefyd yn falch iawn o rôl ymddiriedolaeth ei gefnogwyr yw Wrecsam. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch y clwb a Phrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam am greu academi pêl-droed? Mae'n ddatblygiad cwbl unigryw ac arloesol a fydd yn cynnig cyfle hyfforddiant i gyn-chwaraewyr neu chwaraewyr sydd wedi cael eu rhyddhau gan glybiau, gan ddarparu, ar yr un pryd, ffynhonnell o chwaraewyr posibl i Glwb Pêl-droed Wrecsam, Mae hyn yn cynrychioli'r gorau, mewn gwirionedd, o sut y mae partneriaeth o'r fath yn gallu bodoli er budd academaidd yr unigolion hynny, er budd Prifysgol Glyndŵr ac, wrth gwrs, er budd y clwb pêl-droed.

One club that is very proud to wear red and is also very proud of the role of its supporters' trust is Wrexham. Will you join me in congratulating the club and Glyndŵr University in Wrexham on the creation of a football academy? It is a totally unique and innovative development that will provide training opportunities to former players or players who have been released by clubs, while simultaneously providing a source of potential players for Wrexham Football Club. This represents the best in terms of how such a partnership can develop for the academic benefit of those individuals, the benefit of Glyndŵr University and, of course, the benefit of the football club.

14:51 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased to applaud the academy at Wrexham football club. I was very pleased to be there recently with Lesley Griffiths, as the local Member. We had a look around the ground with representatives from the club and Glyndŵr University. We went to the training facilities, and it is all very impressive. I was very pleased to learn of their plans for the future, which are equally as impressive.

Rwyf yn falch iawn o ganmol yr academi yng nghlwb pêl-droed Wrecsam. Roeddwn yn falch iawn o fod yno'n ddiweddar gyda Lesley Griffiths, yr Aelod lleol. Cawsom edrych o gwmpas y maes gyda chynrychiolwyr o'r clwb a Phrifysgol Glyndŵr. Aethom i'r cyfleusterau hyfforddi, ac mae'r cyfan yn drawiadol iawn. Roeddwn yn falch iawn o glywed am eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, sydd yr un mor drawiadol.

14:52 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n falch iawn i glywed eich bod wedi bod gyda Lesley Griffiths i weld y trefniadau sydd yn eu lle. Wrth gwrs, mae nifer o achosion lle mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i gefnogi ymdrechion Prifysgol Glyndŵr a'r ymddiriedolwyr, ond a ydych chi wedi trafod unrhyw fath o gymorth ariannol, wrth ystyried bod y Kop wedi bod ar gau ers rhai blynyddoedd? Wrth gwrs, eleni, bydd y clwb yn dathlu 150 o flynyddoedd—y clwb hynaf yng Nghymru.

I am very pleased to hear that you accompanied Lesley Griffiths to see the arrangements that are in place. Of course, there are a number of cases where the Welsh Government has provided funding to support the efforts of Glyndŵr University and the trustees, but have you discussed any kind of financial support, considering that the Kop has now been closed for a number of years? Of course, this year, the club will celebrate 150 years—the oldest club in Wales.

14:52 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am afraid that I cannot offer any easy assurances when it comes to funding. As Members will know, we face very difficult circumstances as far as funding is concerned, and I am afraid that that is likely to be with us for some time. However, I can say that when ideas and bids are put forward, they will always be considered.

Mae arnaf ofn na allaf gynnig sicrwydd hawdd ynglŷn â chyllid. Fel y gŵyr yr Aelodau, rydym yn wynebu amgylchiadau anodd iawn o ran ariannu, ac mae arnaf ofn bod hynny'n debygol o bara am gryn amser. Fodd bynnag, gallaf ddweud, pan gaiff syniadau a chynigion eu cyflwyno, y byddant bob amser yn cael eu hystyried.

14:53 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will stress the importance of supporters' trusts and mention that I am a member of the Swansea City Supporters' Trust. Will the Minister offer his support to the Swansea City model, where the trust is a major shareholder in Wales's only premier division club?

Rwyf am bwysleisio pwysigrwydd ymddiriedolaethau cefnogwyr a dweud fy mod yn aelod o Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Abertawe. A wnaiff y Gweinidog gynnig ei gefnogaeth i fodel Dinas Abertawe, lle mae'r ymddiriedolaeth yn gyfranddaliwr mawr yn unig glwb uwch adran Cymru?

14:53 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are very pleased that Swansea has retained its Premier League status and look forward to Cardiff City rejoining the Premier League as quickly as possible. The Swansea model is very impressive—I have said so before and I am very happy to say so again today. It has that element of sustainability, it has been well thought through and there is an established method of operation on and off the field, which I think is very attractive to supporters and the general community. I am very pleased to pay tribute to that.

Rydym yn falch iawn fod Abertawe wedi cadw ei statws yn yr Uwch Gynghrair ac yn edrych ymlaen at weld Dinas Caerdydd yn ailymuno â'r Uwch Gynghrair cyn gynted ag y bo modd. Mae model Abertawe'n drawiadol iawn—rwyf wedi dweud hynny o'r blaen ac rwyf yn hapus iawn i ddweud hynny eto heddiw. Mae ganddo'r elfen honno o gynaliadwyedd, mae wedi'i gynllunio'n dda ac mae yna ddull sefydledig o weithredu ar y cae ac oddi arno; credaf fod hynny'n ddeniadol iawn i'r cefnogwyr ac i'r gymuned yn gyffredinol. Rwyf yn hapus iawn i dalu teyrnged i hynny.

### Adfywio o dan Arweiniad Treftadaeth

### Heritage-led Regeneration

14:54 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adfywio dan arweiniad treftadaeth yn y gogledd-orllewin? OAQ(4)0160(CS)*

*11. Will the Minister make a statement on heritage-led regeneration in the north-west? OAQ(4)0160(CS)*

14:54 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i fwrw ymlaen gydag adfywio dan arweiniad treftadaeth ar draws Cymru.

Welsh Government works with a range of partners to take forward heritage-led regeneration across Wales.

14:54 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n siŵr y gwnewch chi ymuno â mi wrth longyfarch y gwaith sydd wedi digwydd yng Nghaernarfon a'r gwelliannau ar y morglawdd yn yr ardal a gaiff ei galw'n 'south of France' o flaen muriau'r castell. Bydd hynny'n gyfraniad mawr i'r diwydiant twristiaeth yn y blynyddoedd sydd i ddod. Wrth edrych ymlaen, mewn dwy flynedd, bydd hi'n 150 mlynedd ers i'r Mimosa hwylio i Batagonia ac ers sefydlu'r cysylltiadau hanesyddol rhwng Caernarfon a Phatagonia, trwy Lewis Jones yn bennaf, ond hefyd rhwng Cymru a Phatagonia. A oes gan y Llywodraeth unrhyw gynlluniau i ddathlu hynny ac i ddefnyddio'r dathliad hwnnw i hyrwyddo twristiaeth a'n hymwybyddiaeth ni o'n treftadaeth yng Nghymru?

I am sure you will join me in congratulating those responsible on the work that has been undertaken in Caernarfon and the improvements made to the sea wall in the area known as the 'south of France' under the castle walls. That will be a huge contribution to the tourism industry in the ensuing years. Looking ahead, in two years' time, it will be 150 years since the Mimosa sailed to Patagonia and since the establishment of the historical links between Caernarfon and Patagonia, through Lewis Jones in particular, and also between Wales and Patagonia. Does the Government have any plans to celebrate that and to use that celebration to promote tourism and our awareness of our heritage in Wales?

14:55 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is very much recognised within Welsh Government that those links with Patagonia are a very important part of our past and, indeed, our present and future. We want to mark important anniversaries that are significant to that relationship and history, and, again, I think that we are very open to ideas. I would very much welcome a feeding-in of ideas as to how we can best have that celebration and commemoration.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yn gryf iawn fod y cysylltiadau hynny â Phatagonia'n rhan bwysig iawn o'n gorffennol ac, yn wir, o'n presennol a'n dyfodol. Rydym am nodi dyddiadau pwysig sy'n arwyddocaol o ran y berthynas honno a hanes, ac, unwaith eto, rwyf yn meddwl ein bod yn agored iawn i syniadau. Byddwn yn sicr yn croesawu cyfraniad o syniadau ynghylch y ffordd orau inni gynnal y dathliad a'r coffâd hwnnw.

14:55 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

In the context of heritage-led regeneration in north-west Wales, we sometimes hear about the Roman era, the conquest of the Isle of Druids, Segontium, and, more recently, the Roman villas that were discovered in a settlement on the western shores of modern-day Wales. We hear about the Norman conquest of Wales and north-west Wales, and the castles, which are a major pull, but what consideration have you given to capitalising on that dark bit of history in between, to which so much wonderful heritage relates, and where the true origins of the Arthurian legends lie?

Yng nghyd-destun adfywio a arweinir gan dreftadaeth yn y gogledd-orllewin, rydym weithiau'n clywed am oes y Rhufeiniaid, concwest Ynys y Derwyddon, Segontium, ac, yn fwy diweddar, y filâu Rhufeinig a ddarganfuwyd mewn setliad ar lannau gorllewinol y Gymru fodern. Rydym yn clywed am y goncwest Normanaidd yng Nghymru a'r gogledd-orllewin, a'r cestyll, sy'n atyniad sylweddol, ond pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i fanteisio ar y darn tywyll hwnnw o hanes yn y canol, y mae cymaint o dreftadaeth wych yn ymwneud ag ef, ac y mae chwedlau Arthur yn tarddu ohono mewn gwirionedd?

Senedd.tv Fideo Video

14:56 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I can assure the Member that Welsh Government is committed to celebrating our heritage in general, and all aspects of it. The interpretation that is taking place at the moment, which links our historic sites, is about understanding all important ages of history and making all appropriate links. I am sure that the Member might care to feed in some ideas that can help inform that process.

Gallaf sicrhau'r Aelod fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddathlu ein treftadaeth yn gyffredinol, a phob agwedd arni. Mae'r gwaith dehongli sy'n digwydd ar hyn o bryd, sy'n cysylltu ein safleoedd hanesyddol, yn fater o ddeall pob cyfnod pwysig mewn hanes a gwneud yr holl gysylltiadau priodol. Rwyf yn siŵr y byddai'r Aelod am gyfrannu rhai syniadau a all helpu i lywio'r broses honno.

Senedd.tv Fideo Video

## Ymddiriedolaethau Llyfrgelloedd Cymunedol

## Community Library Trusts

14:56 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

*12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar gymorth i ymddiriedolaethau llyfrgelloedd cymunedol? OAQ(4)0152(CS)*

*12. Will the Minister make a statement on Welsh Government policy on support for community library trusts? OAQ(4)0152(CS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Issues relating to community library trusts are being considered as part of the expert review of public libraries in Wales.

Mae materion yn ymwneud ag ymddiriedolaethau llyfrgelloedd cymunedol yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad arbenigol o lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Minister, in Beddau, Rhydfelen and many other parts of Wales now, communities are coming together to try to save and create community hubs by the creation of community trusts. It is clear that they will play a vital role over the coming years in preserving those facilities. Will you be engaging with some of those trusts in order to give assistance and to gain best practice in order to develop a strategy for the Welsh Government of support for those organisations that will be so vital in the coming years in our communities?

Weinidog, yn y Beddau, Rhydfelen a llawer rhan arall o Gymru yn awr, mae cymunedau'n dod at ei gilydd i geisio achub a chreu canolfannau cymunedol drwy greu ymddiriedolaethau cymunedol. Mae'n amlwg y bydd ganddynt ran hanfodol i'w chwarae yn ystod y blynyddoedd i ddod o ran gwarchod y cyfleusterau hynny. A fyddwch yn ymgysylltu â rhai o'r ymddiriedolaethau hynny er mwyn rhoi cymorth ac i sicrhau arfer gorau er mwyn datblygu strategaeth i Lywodraeth Cymru i roi cymorth i'r sefydliadau hynny a fydd mor hanfodol yn y blynyddoedd i ddod yn ein cymunedau?

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, absolutely. It is a very important role for the review to understand the need to engage volunteers and communities in providing library services while, at the same time, ensuring that the vital professional aspects of our library service are retained and enhanced. That is a crucial balance that has to be struck. We do have important support in place, and organisations like the WCVA, as well as CyMAL officials, do provide advice and assistance. Of course, there is also the community facilities programme, which can offer grant assistance.

Byddaf, yn sicr. Un o swyddogaethau pwysig iawn yr adolygiad yw deall bod angen ymgysylltu â gwirfoddolwyr a chymunedau wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgell a sicrhau, ar yr un pryd, fod yr agweddau proffesiynol hanfodol ar ein gwasanaeth llyfrgelloedd yn cael eu cadw a'u gwella. Mae hwnnw'n gydbwysedd allweddol y mae'n rhaid ei sicrhau. Mae gennym gymorth pwysig ar waith, ac mae sefydliadau megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn ogystal â swyddogion CyMAL, yn darparu cyngor a chymorth. Wrth gwrs, mae'r rhaglen cyfleusterau cymunedol hefyd, sy'n gallu cynnig cymorth grant.

Senedd.tv Fideo Video

14:58 **Russell George** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

It is clear that, over the next few years, as budget pressures continue across local authorities, finding new and innovative ways to deliver library services will have to be explored. What analysis have you undertaken of the transferring of library buildings and their assets to community ownership?

Dros y blynyddoedd nesaf, wrth i'r pwysau ar gyllidebau barhau ar draws awdurdodau lleol, mae'n amlwg y bydd yn rhaid chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau llyfrgell. Pa ddadansoddiad ydych chi wedi'i wneud o drosglwyddo adeiladau llyfrgelloedd a'u hasedau i berchnogaeth gymunedol?

14:58 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We have had a series of events and engagements with local authorities in Wales, facilitated by the WLGA as well as my own officials, to look at the new challenges that face local government. A lot of that in general, including libraries, is about finding new models of delivery, delivering more with less. These are very live issues that we have had considerable discussion about, but, in terms of libraries, I hope that my expert review will very much address these matters.

Bu cyfres o ddigwyddiadau a chyfarfodydd ag awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi'u hwyluso gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ogystal â'm swyddogion i fy hun, i edrych ar yr heriau newydd sy'n wynebu llywodraeth leol. Mae llawer o hynny yn gyffredinol, gan gynnwys llyfrgelloedd, yn ymwneud â dod o hyd i fodelau cyflenwi newydd, er mwyn cyflenwi mwy â llai. Mae'r rhain yn faterion byw iawn yr ydym wedi cael trafodaethau helaeth amdanynt, ond, o ran llyfrgelloedd, rwyf yn gobeithio y bydd fy adolygiad arbenigol yn ymdrin yn iawn â'r materion hyn.

14:59 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, while I very much welcome the way that local communities are now coming together to work and support their local libraries, it is nevertheless the case that, in a sense, this is a back to the future kind of step; it is going back to the days of community libraries such as we had in working men's institutes and miners' institutes, in a way. What we have found from previous experience is the need for professional librarianship to be available to help interrogate that information, to make that information available, and to ensure that it is not lost, in essence. I am concerned that that is being lost, in focus, and that we are concentrating on buildings and books and not how they are used, or how other information is used. So, in your review, what discussions are you having with the librarianship profession in Wales to ensure that that is still available in all parts of Wales, no matter how it is delivered?

Weinidog, er fy mod yn croesawu'n fawr y ffordd y mae cymunedau lleol yn awr yn dod at ei gilydd i weithio a chefnogi eu llyfrgelloedd lleol, er hynny, mewn ffordd, math o gam sy'n mynd yn ôl i'r dyfodol yw hwn; mae'n mynd yn ôl i ddyddiau llyfrgelloedd cymunedol fel y rhai a oedd gennym mewn sefydliadau gweithwyr a sefydliadau glowyr, mewn ffordd. Yr hyn yr ydym wedi'i weld o brofiad blaenorol yw bod angen i lyfrgellyddiaeth broffesiynol fod ar gael i helpu i ddadansoddi'r wybodaeth honno, i sicrhau bod y wybodaeth ar gael, ac i sicrhau nad yw'n cael ei cholli, yn y bôn. Rwyf yn pryderu bod hynny'n cael ei golli, o ran ffocws, a'n bod yn canolbwyntio ar adeiladau a llyfrau ac nid ar sut y cânt eu defnyddio, neu sut y caiff gwybodaeth arall ei defnyddio. Felly, yn eich adolygiad, pa drafodaethau ydych chi'n eu cael â'r proffesiwn llyfrgellyddiaeth yng Nghymru i sicrhau bod hynny'n dal i fod ar gael ym mhob rhan o Gymru, waeth sut y caiff ei ddarparu?

15:00 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I very much understand and agree with the comments that the Member makes. As I said earlier, it is vital that we have that professionalisation of the service, supervision and oversight. It is a statutory service, and I have made that very clear to local authorities. We also have our library standards in place and the framework that shapes them, and they do address these matters of professional oversight. I also know that the review is engaging very closely with our library profession in Wales.

Rwyf yn sicr yn deall ac yn cytuno â'r sylwadau y mae'r Aelod yn eu gwneud. Fel y dywedais yn gynharach, mae'n hollbwysig ein bod yn proffesiynoli'r gwasanaeth, yr oruchwyliaeth a'r trosolwg. Mae'n wasanaeth statudol, ac rwyf wedi gwneud hynny'n glir iawn i awdurdodau lleol. Mae gennym hefyd ein safonau llyfrgelloedd a'r fframwaith sy'n eu llywio, ac maent yn rhoi sylw i'r materion hyn o ran trosolwg proffesiynol. Rwyf hefyd yn gwybod bod yr adolygiad yn ymgysylltu'n agos iawn â'n proffesiwn llyfrgelloedd yng Nghymru.

## Cyfleoedd Chwaraeon

## Sporting Opportunities

15:00 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn gallu cael mynediad i gyfleoedd chwaraeon? OAQ(4)0155(CS)*

*13. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government can ensure children and young people from disadvantaged backgrounds can access sporting opportunities? OAQ(4)0155(CS)*

15:00 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Welsh Government strategy prioritises sporting opportunities for children and young people from disadvantaged backgrounds.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru'n blaenoriaethu cyfleoedd chwaraeon i blant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.

Senedd.tv Fideo Video

15:00 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. You will know that the recent committee report, which we are debating tomorrow, noted evidence that there is some inconsistency between local authorities in the delivery of the free swimming scheme. We know that there are obvious benefits from swimming for children and young people, but is the Welsh Government doing anything to encourage local authorities, for example, to drill down underneath the data to find out why some children and young people may not, and perhaps do not want to, take up the free swimming that is available?

Diolch, Weinidog. Byddwch yn gwybod bod adroddiad diweddar y pwyllgor, y byddwn yn ei drafod yfory, wedi nodi tystiolaeth bod rhywfaint o anghysondeb rhwng awdurdodau lleol o ran darparu'r cynllun nofio am ddim. Rydym yn gwybod bod nofio'n dod â manteision amlwg i blant a phobl ifanc, ond a yw Llywodraeth Cymru'n gwneud rhywbeth i annog awdurdodau lleol, er enghraifft, i ddadansoddi'r data i ddarganfod pam nad yw rhai plant a phobl ifanc yn manteisio ar y nofio am ddim sydd ar gael, ac efallai nad ydynt yn dymuno gwneud hynny?

Senedd.tv Fideo Video

15:01 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

May I say first of all that I think being able to swim is a very important life skill? It is important in very many ways, and, of course, could save someone's life. So, we really do value it, and it is really important in terms of physical literacy. I am pleased that we are doing relatively well in Wales in terms of our young people being able to swim. However, we cannot rest on our laurels in any way, and it is important to marry up our free swimming programme with local authorities' and schools' learn-to-swim activities. So, we do need to co-ordinate and knit together a little better perhaps, and I think it is timely to look at our free swimming programme as we move forward, identify gaps, and seek greater consistency across Wales.

A gaf fi ddweud yn gyntaf fy mod yn meddwl bod gallu nofio'n sgìl bwysig iawn mewn bywyd? Mae'n bwysig mewn llawer iawn o ffyrdd, ac, wrth gwrs, gallai achub bywyd rhywun. Felly, rydym yn gwerthfawrogi hynny'n fawr, ac mae'n bwysig iawn o ran llythrennedd corfforol. Rwyf yn falch ein bod yn gwneud yn gymharol dda yng Nghymru o ran gallu ein pobl ifanc i nofio. Fodd bynnag, ni allwn orffwys ar ein rhwyfau o gwbl, ac mae'n bwysig cydgysylltu ein rhaglen nofio am ddim â gweithgareddau dysgu nofio awdurdodau lleol ac ysgolion. Felly, mae angen inni gyd-drefnu a gwau pethau at ei gilydd ychydig yn well efallai, ac rwyf yn credu ei bod yn amserol inni edrych ar ein rhaglen nofio am ddim wrth inni symud ymlaen, nodi bylchau, a cheisio sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

15:02 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Minister, will you tell us, in terms of your relationship with your fellow Ministers—. Playing fields are obviously very important in giving people the opportunity to participate in sport, particularly young people. However, there are concerns, certainly in my constituency in the Abergele area, that a large playing field may be lost as a result of development taking place as a result of the local development plan. What discussions do you have with your colleagues in the Welsh Government, your fellow Ministers, regarding the planning process and the opportunity that is perhaps presented by the planning Bill to give further protections to such places in the future?

Weinidog, a wnewch chi ddweud wrthym, o ran eich perthynas â'ch cyd-Weinidogion—. Yn amlwg, mae caeau chwarae'n bwysig iawn o ran rhoi cyfle i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig pobl ifanc. Fodd bynnag, mae pryderon, yn sicr yn fy etholaeth i yn ardal Abergele, y gall cae chwarae mawr gael ei golli o ganlyniad i ddatblygiad sy'n digwydd o ganlyniad i'r cynllun datblygu lleol. Pa drafodaethau ydych chi'n eu cael â'ch cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, eich cyd-Weinidogion, ynghylch y broses gynllunio a'r cyfle y gallai'r Bil cynllunio efallai ei gyflwyno i roi amddiffyniadau pellach i leoedd o'r fath yn y dyfodol?

Senedd.tv Fideo Video

15:02 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I am happy to assure the Member that I have had considerable discussions with my colleague Carl Sargeant, in terms of the planning Bill, on a variety of matters, including those that he mentions.

Rwyf yn hapus i sicrhau'r Aelod fy mod wedi cael trafodaethau helaeth â'm cydweithiwr Carl Sargeant, o ran y Bil cynllunio, am amrywiaeth o faterion, gan gynnwys y rhai y soniodd amdanynt.

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Minister, Brecon boxing club was, in part, established to provide opportunities for the young people of St John's ward in Brecon, which is one of the more deprived wards in my constituency. The Welsh Amateur Boxing Association is still trying to take disciplinary action against Brecon boxing club, despite admitting that there are irregularities in its disciplinary procedures. Will the Minister look into the treatment of Brecon boxing club by the WABA as a matter of urgency to ensure that the young people of Brecon have access to what is a very successful club?

Weinidog, cafodd clwb bocsio Aberhonddu ei sefydlu, yn rhannol, i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc ward Sant Ioan yn Aberhonddu, sef un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn fy etholaeth. Mae Cymdeithas Bocsio Amatur Cymru'n dal i geisio i gymryd camau disgyblu yn erbyn clwb bocsio Aberhonddu, er iddo gyfaddef bod afreoleidd-dra yn ei weithdrefnau disgyblu. A wnaiff y Gweinidog edrych ar driniaeth clwb bocsio Aberhonddu gan y Gymdeithas ar fyrder er mwyn sicrhau bod y clwb llwyddiannus iawn hwn ar gael i bobl ifanc Aberhonddu?

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I have been involved in these matters and I know that Sport Wales has taken a keen interest also—it would, of course, in terms of its responsibility for sport and its relationships with governing bodies. I am very happy to seek an update in terms of current developments.

Rwyf wedi bod yn ymwneud â'r materion hyn a gwn fod Chwaraeon Cymru wedi dangos cryn ddiddordeb hefyd—byddai'n gwneud hynny, wrth gwrs, o ran ei gyfrifoldeb dros chwaraeon a'i gysylltiadau â chyrff llywodraethu. Rwyf yn hapus iawn i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau cyfredol.

Senedd.tv Fideo Video

### Llythrennedd Corfforol

### Physical Literacy

15:03 **Russell George** Bywgraffiad Biography

*14. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio llythrennedd corfforol i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc? OAQ(4)0157(CS)*

*14. How is the Welsh Government using physical literacy to increase physical activity levels in children and young people? OAQ(4)0157(CS)*

Senedd.tv Fideo Video

15:04 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

The new physical literacy programme for schools aims to increase physical activity levels.

Nod y rhaglen llythrennedd corfforol newydd ar gyfer ysgolion yw cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol.

Senedd.tv Fideo Video

15:04 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. I know of the agenda being taken forward by your department, on top of what the Minister for education is doing in investing £2 million into the budget for the physical literacy programme for schools. I understand that. However, I would be grateful if you could set out how that investment can benefit people in Powys.

Diolch, Weinidog. Gwn am yr agenda y mae eich adran yn gweithio arni, ar ben yr hyn y mae'r Gweinidog addysg yn ei wneud drwy fuddsoddi £2 filiwn yng nghyllideb y rhaglen llythrennedd corfforol ar gyfer ysgolion. Rwyf yn deall hynny. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi sut y gall y buddsoddiad hwnnw fod o fudd i bobl ym Mhowys.

Senedd.tv Fideo Video

15:04 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Well, I think it will benefit pupils right across Wales, because, if we can ensure greater equality and consistency in terms of the school offer around physical education and physical literacy, with the important core elements in place to ensure that it becomes a more central part of the school experience, and link the schools with the sports world more effectively, then I think that will be a great step forward for schools across Wales, including those in Powys.

Wel, rwyf yn credu y bydd o fudd i ddisgyblion ledled Cymru, oherwydd os gallwn sicrhau mwy o gydraddoldeb a chysondeb o ran yr hyn y mae ysgolion yn ei gynnig ym maes addysg gorfforol a llythrennedd corfforol, gyda'r elfennau craidd pwysig ar waith i sicrhau ei bod yn dod yn rhan fwy canolog o'r profiad ysgol, ac yn cysylltu'r ysgolion â byd chwaraeon yn fwy effeithiol, rwyf yn credu y bydd hynny'n gam mawr ymlaen i ysgolion ledled Cymru, gan gynnwys y rhai ym Mhowys.

Senedd.tv Fideo Video

### Y Celfyddydau a Threftadaeth

### The Arts and Heritage

15:05

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*15. A wnaiff y Gweinidog amlinellu camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella mynediad parhaus i'r celfyddydau a threftadaeth yng Nghymru? OAQ(4)0156(CS)*

*15. Will the Minister outline the Welsh Government's actions to improve sustained access to the arts and heritage in Wales? OAQ(4)0156(CS)*

15:05

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The programme for government outlines our actions to improve sustained access to the arts and heritage in Wales.

Mae'r rhaglen lywodraethu'n amlinellu ein camau gweithredu i wella mynediad parhaus i'r celfyddydau a threftadaeth yng Nghymru.

15:05

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Locws International in my region has been producing striking public art for some years now, and has enjoyed great support from various communities in Swansea. Do you agree with me that we could be learning a lot from organisations such as Locws about how to reach disadvantaged communities, rather than perhaps spending a lot more money on seemingly shorter-shelf-life projects such as the Cauldrons and Furnaces project?

Diolch, Weinidog. Mae Locws Rhyngwladol yn fy rhanbarth i wedi bod yn cynhyrchu celf gyhoeddus drawiadol ers rhai blynyddoedd bellach, ac wedi cael cefnogaeth wych gan wahanol gymunedau yn Abertawe. A ydych yn cytuno â mi y gallem fod yn dysgu llawer oddi wrth sefydliadau megis Locws ynglŷn â sut i gyrraedd cymunedau dan anfantais, yn hytrach efallai na gwario llawer mwy o arian ar brosiectau y mae'n ymddangos y bydd eu hoes yn fyrrach, fel y prosiect Crochanau a Ffwrneisi?

15:05

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am always happy to look at examples of good practice identified by Members in Wales, because, as I have said a number of times already this afternoon, learning about good practice and sharing good practice is crucial, no matter what area of my portfolio or others' portfolios we are discussing. If the Member would write to me and provide details, I would be very happy to have a look at that.

Rwyf bob amser yn hapus i edrych ar enghreifftiau o arfer da a nodwyd gan yr Aelodau yng Nghymru, oherwydd, fel yr wyf wedi'i ddweud sawl gwaith eisoes y prynhawn yma, mae dysgu am arfer da a rhannu arfer da'n hollbwysig, waeth pa faes yn fy mhortffolio i neu ym mhortffolios pobl eraill yr ydym yn ei drafod. Pe bai'r Aelod yn ysgrifennu ataf ac yn rhoi manylion, byddwn yn hapus iawn i gael golwg ar hynny.

15:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:06

# Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

# Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have one change to report to this week's business. The Business Committee has agreed to schedule a motion to elect a Member to a committee immediately after this business statement. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement that can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i drefnu cynnig i ethol Aelod i bwyllgor yn syth ar ôl y datganiad busnes hwn. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes sydd ymhlith papurau'r agenda, sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

15:06 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I would like to make one request, if I may, and that is for the Government to bring forward an oral statement or Government debate on its future support for credit unions in Wales. I am aware that your colleague, the Minister for Communities and Tackling Poverty, issued a written statement on 6 May. However, I, and no doubt other Members in this Chamber, would like an opportunity to properly scrutinise this funding announcement, because there are implications for smaller credit unions across Wales. You may have heard my question to the First Minister regarding Hafren Credit Union, based in Newtown, earlier today. It appears that the Minister is favouring a model whereby smaller credit unions would be merged with larger credit unions, and I would be grateful if we had the opportunity to discuss that and to ask more specific questions on this issue. I hope that you will look favourably on my request.

Weinidog, hoffwn wneud un cais, os caf, a hynny i'r Llywodraeth gyflwyno datganiad llafar neu ddadl Llywodraeth am ei chymorth yn y dyfodol i undebau credyd yng Nghymru. Gwn fod eich cydweithiwr, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar 6 Mai. Fodd bynnag, hoffwn i, ac Aelodau eraill yn y Siambr hon rwyf yn siŵr, gael cyfle i graffu'n briodol ar y cyhoeddiad hwn ynghylch cyllid, oherwydd mae goblygiadau i undebau credyd llai ledled Cymru. Efallai ichi glywed fy nghwestiwn yn gynharach heddiw i'r Prif Weinidog ynglŷn ag Undeb Credyd Hafren, yn y Drenewydd. Mae'n ymddangos bod y Gweinidog yn ffafrio model lle byddai undebau credyd llai yn uno ag undebau credyd mwy, a byddwn yn ddiolchgar pe caem gyfle i drafod hynny ac i ofyn cwestiynau mwy penodol am y mater hwn. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn ystyried fy nghais yn ffafriol.

15:07 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you mentioned, the Minister for Communities and Tackling Poverty made a statement on 6 May. There is no further update on that, but I am sure that, if you write to the Minister directly, he will provide you with the further information that you request.

Fel y soniasoch, gwnaeth y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ddatganiad ar 6 Mai. Nid oes diweddariad pellach ar hynny, ond rwyf yn siŵr, os ysgrifennwch at y Gweinidog yn uniongyrchol, y bydd yn rhoi'r wybodaeth bellach ichi yr ydych yn gofyn amdani.

15:07 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last Friday, I was pleased to attend the thirtieth anniversary of George Thomas Hospice Care, of which I am a vice-president, in the grounds of Whitchurch Hospital. I am sure that the Minister will want to join me in congratulating the chief executive and staff on the care that they have given, and are still giving, in providing care at home for patients who may be nearing the end of their lives. When could we have an update from the Minister for health on plans to increase the number of patients who are able to die at home, according to their wishes?

Ddydd Gwener diwethaf, roeddwn yn falch o fod yn bresennol yn nathliad deng mlynedd ar hugain Gofal Hosbis George Thomas, sefydliad yr wyf yn is-lywydd arno, ar dir Ysbyty'r Eglwys Newydd. Rwyf yn siŵr yr hoffai'r Gweinidog ymuno â mi a llongyfarch y prif weithredwr a'r staff am y gofal y maent wedi'i roi, ac y maent yn dal i'w roi, wrth ddarparu gofal yn y cartref i gleifion a all fod yn agosáu at ddiwedd eu hoes. Pryd y cawn ni'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog iechyd am gynlluniau i gynyddu nifer y cleifion sy'n gallu marw gartref, yn unol â'u dymuniadau?

15:08 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very happy to join the Member for Cardiff North in congratulating the chief executive and staff of George Thomas Hospice Care on its thirtieth anniversary. I attended the hospice in a previous portfolio capacity. The plans are set out in the delivering end-of-life care delivery plan, and all LHBs have set out local delivery plans, which are available on their websites. The Welsh Government will produce an annual report in September 2014, and one of the measures will be the number of people dying in their usual place of residence.

Rwyf yn hapus iawn i ymuno ag Aelod Gogledd Caerdydd a llongyfarch prif weithredwr a staff Gofal Hosbis George Thomas ar gyrraedd y deg ar hugain. Bûm yn yr hosbis yn rhinwedd portffolio blaenorol. Mae'r cynlluniau wedi'u nodi yn y cynllun cyflawni ar gyfer darparu gofal diwedd oes, ac mae pob bwrdd iechyd wedi nodi cynlluniau cyflawni lleol, sydd ar gael ar eu gwefannau. Bydd Llywodraeth Cymru'n llunio adroddiad blynyddol ym mis Medi 2014, ac un o'r mesurau fydd nifer y bobl sy'n marw yn eu man preswylio arferol.

15:08 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, would you arrange for a statement by the Minister for health with regard to stroke services in Wales? Today sees the publication of the sentinel stroke national audit programme. It is 18 months since the Government published its stroke delivery plan, but the audit published today shows poor compliance with what is regarded as the gold standard of stroke care. I would appreciate an opportunity to hear from the Minister about how the implementation of the stroke delivery plan is going and whether that is driving change, as the audit published today would suggest that it is not.

Weinidog, a wnewch chi drefnu datganiad gan y Gweinidog iechyd ynglŷn â gwasanaethau strôc yng Nghymru? Heddiw, caiff y rhaglen archwilio genedlaethol ar gyfer strôc ei chyhoeddi. Mae 18 mis ers i'r Llywodraeth gyhoeddi ei chynllun cyflenwi ar gyfer strôc, ond mae'r archwiliad a gyhoeddwyd heddiw'n dangos cydymffurfiaeth wael â'r hyn a ystyrir yn safon aur gofal strôc. Byddai'n dda gennyf gael cyfle i glywed gan y Gweinidog ynghylch hynt y gwaith o roi'r cynllun cyflenwi strôc ar waith ac a yw hynny'n sbarduno newid, oherwydd mae'r archwiliad a gyhoeddwyd heddiw yn awgrymu nad yw.

15:09 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will ask the Minister for Health and Social Services to furnish Members with a written statement.

Gofynnaf i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi datganiad ysgrifenedig i'r Aelodau.

15:09 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for two statements, the first of which is on substance misuse tier 4 treatment services in Wales. In the last Assembly, a report that had remained hidden was leaked to me and was subsequently debated in the media and in this place. It identified numerous reports of people re-offending in order to be detoxed in prison, of hospital admissions because of the unavailability of in-patient detoxification and residential rehabilitation, and much more. It said that, in some areas, neither in-patient detoxification nor residential rehabilitation was an available treatment option. The Welsh Government subsequently announced a plan for a three-centre model. We know that one of the centres, a third sector centre, has ceased to operate, and we have heard very little from the Welsh Government since on its proposals for tier 4 provision. I would therefore call for a statement updating Members in this Assembly on where we are on this very important matter.

Galwaf am ddau ddatganiad, y cyntaf ynglŷn â gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau haen 4 yng Nghymru. Yn y Cynulliad diwethaf, cefais weld adroddiad a oedd wedi aros yn gudd ac yna cafodd ei drafod yn y cyfryngau ac yn y lle hwn. Roedd yn nodi nifer o adroddiadau am bobl yn aildroseddu er mwyn cael eu dadwenwyno yn y carchar, am dderbyn pobl i'r ysbyty oherwydd nad oedd darpariaeth dadwenwyno cleifion mewnol ac adsefydlu preswyl ar gael, a llawer mwy. Roedd yn dweud nad oedd dadwenwyno cleifion mewnol nac adsefydlu preswyl yn opsiwn a oedd ar gael o ran triniaeth mewn rhai ardaloedd. Wedyn cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun ar gyfer model tair canolfan. Gwyddom nad yw un o'r canolfannau, canolfan y trydydd sector, yn gweithredu mwyach, ac ychydig iawn yr ydym wedi ei glywed gan Lywodraeth Cymru ers hynny am ei chynigion ar gyfer darpariaeth haen 4. Galwaf felly am ddatganiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn y Cynulliad hwn ynghylch ble yr ydym ar y mater pwysig iawn hwn.

Secondly, and finally, I call for a statement on the Llangollen health centre site. You will be aware that the cottage hospital was closed and that a consultation on its demolition is ongoing, with a loss of beds and local services. You will be aware that there is a proposed new primary health centre on the site of a former hotel in town, although there are questions about its viability, given proposals for access to that site and the impact that that might have more widely. You may say that it is a matter purely for the health board, as you frequently do, and therefore I ask this question in the context of the e-mail dated 24 October 2010 from the health department in the Welsh Government to the local health board, saying:

Yn ail, ac yn olaf, galwaf am ddatganiad am safle canolfan iechyd Llangollen. Byddwch yn gwybod bod yr ysbyty bwthyn wedi'i gau a bod ymgynghoriad ynghylch ei ddymchwel yn parhau; mae gwelyau a gwasanaethau lleol wedi'u colli. Byddwch yn gwybod bod canolfan iechyd sylfaenol newydd arfaethedig ar safle hen westy yn y dref, er bod cwestiynau ynghylch ei hyfywedd, ac ystyried y cynigion ar gyfer mynediad i'r safle hwnnw a'r effaith y gallai hynny ei chael yn fwy eang. Efallai y byddwch yn dweud mai mater i'r bwrdd iechyd yn unig yw hwn, fel yr ydych yn aml yn ei wneud, ac felly rwyf yn gofyn y cwestiwn hwn yng nghyd-destun yr e-bost dyddiedig 24 Hydref 2010 oddi wrth adran iechyd Llywodraeth Cymru at y bwrdd iechyd lleol, yn dweud:

'the Minister has also requested an update on the Woodlands hotel'—

'mae'r Gweinidog hefyd wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am westy Woodlands'—

the site—

y safle—

'and the proposed health centre in Llangollen by this Friday. Is there any reason why the current building couldn't be demolished and the new health centre built on the site? We would like to be able to provide a positive brief to the Minister, if that's possible'.

'a'r ganolfan iechyd arfaethedig yn Llangollen erbyn y dydd Gwener yma. A oes unrhyw reswm pam na ellid dymchwel yr adeilad presennol ac adeiladu'r ganolfan iechyd newydd ar y safle? Hoffem allu darparu gwybodaeth gadarnhaol i'r Gweinidog, pe bai hynny'n bosibl'.

That was days before the Welsh Government launched its options appraisal, years before Betsi Cadwaladr University Local Health Board published its proposals for reconfigured health services in Wales, years before the public consultation, and years before the Welsh Government started insisting that these issues were a matter for the health board. Given this evidence, which is now publicly available, that the Welsh Government appeared to trigger the process, could we have a statement from the Welsh Government accordingly?

Roedd hynny rai dyddiau cyn i Lywodraeth Cymru lansio ei harfarniad o'r opsiynau, flynyddoedd cyn i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr gyhoeddi ei gynigion ar gyfer gwasanaethau iechyd wedi'u haildrefnu yng Nghymru, flynyddoedd cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, a flynyddoedd cyn i Lywodraeth Cymru ddechrau mynnu mai mater i'r bwrdd iechyd oedd y materion hyn. Ac ystyried y dystiolaeth hon, sydd bellach ar gael i'r cyhoedd, ei bod yn ymddangos mai Llywodraeth Cymru a sbardunodd y broses, a gawn ni ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â hynny?

15:12 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In relation to your second question, it is indeed a matter for Betsi Cadwaladr University Local Health Board. You referred to correspondence not even from this Government or this Minister for health, and not even the previous Minister for health—it was the one before that and a previous Government. So, it is a matter for the health board.

O ran eich ail gwestiwn, ie, mater i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yw hynny. Cyfeiriasoch at ohebiaeth na ddaeth hyd yn oed oddi wrth y Llywodraeth hon na'r Gweinidog iechyd hwn, na hyd yn oed y Gweinidog iechyd blaenorol—yr un cyn hynny ydoedd, a Llywodraeth flaenorol. Felly, mater i'r bwrdd iechyd ydyw.

In relation to your question regarding substance misuse, a great deal of funding is given by Welsh Government to organisations to run substance misuse services. In relation to the availability of treatment in prisons, that is something on which I am working with the Minister for Health and Social Services to ensure that we provide.

O ran eich cwestiwn ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau, mae Llywodraeth Cymru'n rhoi llawer iawn o arian i sefydliadau i gynnal gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. O ran y driniaeth sydd ar gael mewn carchardai, mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn gweithio arno gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau ein bod yn ei ddarparu.

15:12 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I refer to the letter circulated to Assembly Members yesterday by the Minister for Economy, Science and Transport relating to an announcement by Morganite Electrical Carbon Ltd that it proposes to restructure its business, and, as a result, there could be between 100 and 120 redundancies out of the around 220 employed at the Swansea site. These are very well-paid and highly-skilled jobs, and would be a great loss to the Swansea economy. Therefore, is it possible for the Minister to make a statement to the Chamber so that we can question her on the actions being taken by the Government in terms of trying to alleviate or prevent these job losses, and on what work is being done with those whose jobs are being threatened?

Weinidog, cyfeiriaf at y llythyr a gylchredwyd i Aelodau'r Cynulliad ddoe gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynglŷn â chyhoeddiad gan Morganite Electrical Carbon Ltd eu bod yn bwriadu ailstrwythuro eu busnes, ac, felly, y gallai fod rhwng 100 a 120 o ddiswyddiadau o'r oddeutu 220 a gyflogir ar y safle yn Abertawe. Mae'r rhain yn swyddi sy'n talu'n dda iawn ac sy'n hynod fedrus, a byddent yn golled fawr i economi Abertawe. Felly, a yw'n bosibl i'r Gweinidog wneud datganiad i'r Siambr er mwyn inni allu ei holi am y camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i geisio lliniaru neu atal colli'r swyddi hyn, ac am ba waith sy'n cael ei wneud gyda'r bobl hynny y mae eu swyddi dan fygythiad?

15:13 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister wrote to all Assembly Members yesterday, as you point out, with the latest position regarding Morganite Electrical Carbon Ltd. There is no further update at this time, but the Minister has said that she will keep Members informed as the situation develops. The Minister has oral questions tomorrow in the Chamber, and you could raise any issue with her at that time.

Ysgrifennodd y Gweinidog at holl Aelodau'r Cynulliad ddoe, fel y dywedwch, i roi'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â Morganite Electrical Carbon Ltd. Nid oes gwybodaeth bellach ar hyn o bryd, ond mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Mae gan y Gweinidog gwestiynau llafar yfory yn y Siambr, a gallech godi unrhyw fater gyda hi bryd hynny.

15:14 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wonder whether we could have a statement from the Welsh Government on the support available to those suffering from neurological conditions. I am thinking specifically of motor neurone disease. I recently attended a Motor Neurone Disease Association charity function in Cardiff supporting those suffering from the condition and their families and was struck by the particularly cruel nature of this disease, the need for more research into it, and also the need for better support for the families. So, I would like to hear what the Welsh Government is doing to support what is a small section of neurological diseases, but nonetheless a very concerning one.

Weinidog, tybed a gawn ni ddatganiad gan Lywodraeth Cymru am y cymorth sydd ar gael i bobl sy'n dioddef o gyflyrau niwrolegol. Rwyf yn meddwl yn benodol am glefyd niwronau motor. Yn ddiweddar bûm mewn digwyddiad elusennol a drefnwyd gan y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor yng Nghaerdydd i gefnogi pobl sy'n dioddef o'r cyflwr a'u teuluoedd ac fe'm trawyd gan natur arbennig o greulon y clefyd hwn, yr angen am fwy o ymchwil iddo, a hefyd yr angen am well cymorth i'r teuluoedd. Felly, hoffwn glywed beth y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i gefnogi'r rhan fechan hon o afiechydon niwrolegol, sydd, serch hynny, yn destun gofid mawr.

Secondly, could we hear from the Welsh Government what it is doing to promote voting and the electoral process among young people? Most Assembly Members will agree that there is an amount of apathy or a lack of understanding among many younger people about the voting process. I was recently invited to a school in my constituency to help explain the whole mechanics of voting and the young people there were extremely appreciative. If more Assembly Members engaged with them in that way, I think that it would be very beneficial if some guidance was forthcoming.

Yn ail, a gawn ni glywed gan Lywodraeth Cymru beth y mae'n ei wneud i hyrwyddo pleidleisio a'r broses etholiadol ymhlith pobl ifanc? Bydd y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad yn cytuno bod rhywfaint o ddifaterwch neu ddiffyg dealltwriaeth ymhlith llawer o bobl ifanc am y broses bleidleisio. Cefais wahoddiad yn ddiweddar i ysgol yn fy etholaeth i helpu i egluro holl fecaneg pleidleisio ac roedd y bobl ifanc yno'n hynod werthfawrogol. Pe bai mwy o Aelodau'r Cynulliad yn ymgysylltu â hwy yn y ffordd honno, rwyf yn meddwl y byddai'n fuddiol iawn iddynt gael rhywfaint o arweiniad.

15:15

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You raise a very important point. Certainly, I think that most Assembly Members, if not all of us, will do just what you say about going into schools. I try to get involved in school council elections, because I think that that is a very good way of demonstrating how democracy works. Certainly, as a Government, we promote participation in elections at all times.

Rydych yn codi pwynt pwysig iawn. Yn sicr, rwyf yn meddwl y bydd y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad, os nad pawb ohonom, yn gwneud yn union yr hyn a ddywedwch o ran mynd i mewn i ysgolion. Rwyf yn ceisio ymwneud ag etholiadau cynghorau ysgolion, oherwydd credaf fod hynny'n ffordd dda iawn o ddangos sut y mae democratiaeth yn gweithio. Yn sicr, rydym ni yn y Llywodraeth yn hyrwyddo cyfranogi mewn etholiadau bob amser.

In relation to motor neurone disease, it is a truly cruel disease. I know that the Minister has given written and oral statements on neurological conditions and I will ask him to provide the Member with an update on this specific condition.

O ran clefyd niwronau motor, mae'n glefyd gwirioneddol greulon. Gwn fod y Gweinidog wedi rhoi datganiadau ysgrifenedig a llafar am gyflyrau niwrolegol a byddaf yn gofyn iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelod am y cyflwr penodol hwn.

15:15

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Leader of the house, is it possible to have a statement from the Minister for Natural Resources and Food on the state of the current beef market? There has been a huge decline in beef prices to farmers; some 80p per kilo, which equates to more than £200 per animal. This is particularly pronounced in Wales because there is no competition from abattoirs, because there are very few abattoirs in Wales. Now, we are seeing considerable amounts of cattle travelling into England, because there is greater competition there price-wise. In fact, the price in some English abattoirs is some 20p to 25p ahead of what it is in Wales. I appreciate that the market operates—and as a Conservative I believe in the market—but when there is lack of competition, I would be grateful to understand exactly what the engagement is from the Minister, as this has two effects: it has an effect of depriving Welsh agriculture of income from the stock, but it also deprives Welsh agriculture of the income on the promotional levy that is levied when the animal is processed. If that animal is processed in England, it is the English beef market that benefits from it, rather than the Welsh market. So, I would be grateful if the Minister could bring a statement forward to explain what engagement he and his officials have had with processors here in Wales and what analysis he makes of the overall impact on the current farm-gate price.

Arweinydd y tŷ, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd am gyflwr y farchnad cig eidion ar hyn o bryd? Bu gostyngiad enfawr ym mhrisiau cig eidion i ffermwyr; tua 80c y kilo, sy'n cyfateb i fwy na £200 yr anifail. Mae hyn yn arbennig o amlwg yng Nghymru gan nad oes cystadleuaeth o du'r ladd-dai, gan mai ychydig iawn o ladd-dai sydd yng Nghymru. Yn awr, rydym yn gweld niferoedd sylweddol o wartheg yn teithio i Loegr, oherwydd mae mwy o gystadleuaeth yno o ran prisiau. Yn wir, mae'r pris yn rhai o ladd-dai Lloegr tuag 20c i 25c yn uwch na'r pris yng Nghymru. Rwyf yn deall bod y farchnad yn gweithredu—ac fel Ceidwadwr rwyf yn credu yn y farchnad—ond pan geir diffyg cystadleuaeth, byddai'n dda gennyf gael deall beth yn union y mae'r Gweinidog yn ei wneud, gan fod dwy effaith i hyn: mae'n golygu bod amaethyddiaeth yng Nghymru'n colli incwm o'r stoc, ond mae hefyd yn golygu bod amaethyddiaeth yng Nghymru'n colli incwm ar yr ardoll hyrwyddo sy'n cael ei chodi pan gaiff yr anifail ei brosesu. Os caiff yr anifail ei brosesu yn Lloegr, y farchnad cig eidion yn Lloegr sy'n elwa, yn hytrach na marchnad Cymru. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog gyflwyno datganiad i esbonio pa ymgysylltu a fu rhyngddo ef a'i swyddogion a phroseswyr yma yng Nghymru a sut y mae'n dadansoddi'r effaith gyffredinol ar y pris wrth gât y fferm ar hyn o bryd.

15:17

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will ask the Minister for Natural Resources and Food to make a written statement.

Gofynnaf i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wneud datganiad ysgrifenedig.

15:17

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:17 **Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau** / **Motion to Elect Members to Committees** — Y — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on a member of the Business Committee to move the motion.

Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5510 Rosemary Butler

Motion NDM5510 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Gwyn Price (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle Vaughan Gething (Llafur).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Gwyn Price (Labour) as a member of the Environment and Sustainability Committee in place of Vaughan Gething (Labour).

15:17 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

15:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:17.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:17.*

15:18 **Datganiad: Cyflwyno Bil Addysg Uwch (Cymru)** / **Statement: Introduction of the Higher Education (Wales) Bill** — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Yesterday, I introduced the Higher Education (Wales) Bill, together with an explanatory memorandum, to the National Assembly for Wales. Today, I am pleased to make a statement on the Bill for Members' consideration.

Ddoe, cyflwynais y Bil Addysg Uwch (Cymru), ynghyd â memorandwm esboniadol, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Heddiw, rwyf yn falch o wneud datganiad ar y Bil i'r Aelodau ei ystyried.

The higher education sector has undergone a period of significant change in recent years. We introduced changes to funding, tuition fee and student finance arrangements from September 2012, which have put the sector in a much stronger financial position. Transition to the new arrangements is now largely complete and this legislation marks the culmination of these changes. The new tuition fee arrangements brought about changes to the higher education regulatory landscape. From the 2012-13 academic year, we introduced a statutory tuition fee cap of £9,000. The Higher Education Funding Council for Wales was designated as the body responsible for ensuring that institutions charging fees above £4,000 undertake measures in pursuit of fair access to higher education through commitments made in their fee plans. Significant as these developments have been, further changes are needed to complete the transition from a funding-based system to one where the financial support for higher education largely follows the choices made by students.

Mae'r sector addysg uwch wedi bod trwy gyfnod o newid sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Cyflwynasom newidiadau i gyllid, ffioedd dysgu a threfniadau cyllid myfyrwyr o fis Medi 2012, sydd wedi rhoi'r sector mewn sefyllfa ariannol gryfach o lawer. Mae'r newid i'r trefniadau newydd wedi'i gwblhau i bob pwrpas erbyn hyn ac mae'r ddeddfwriaeth hon yn nodi penllanw'r newidiadau hyn. Mae trefniadau newydd y ffioedd dysgu wedi newid tirwedd rheoleiddio addysg uwch. O flwyddyn academaidd 2012-13, cyflwynasom gap statudol o £9,000 ar ffioedd dysgu. Dynodwyd mai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am sicrhau bod sefydliadau sy'n codi ffioedd mwy na £4,000 yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau mynediad teg at addysg uwch drwy ymrwymiadau a wneir yn eu cynlluniau ffioedd. Er mor arwyddocaol y bu'r datblygiadau hyn, mae angen newidiadau pellach i gwblhau'r newid o system sy'n seiliedig ar gyllido i un lle mae cymorth ariannol ar gyfer addysg uwch i raddau helaeth yn dilyn y dewisiadau a wneir gan fyfyrwyr.

The regulation of higher education in Wales is currently achieved through the terms and conditions that HEFCW attaches to its recurrent funding allocations to institutions. These terms and conditions ensure that the quality of education at funded institutions is assessed, that tuition fee limits can be enforced, that fair access is safeguarded and that institutions are financially sound. In a system underpinned by public funds, these are important checks and balances and they need to continue.

Mae'r gwaith o reoleiddio addysg uwch yng Nghymru'n cael ei wneud ar hyn o bryd drwy'r telerau ac amodau y mae CCAUC yn eu gosod ar ei ddyraniadau cyllid rheolaidd i sefydliadau. Mae'r telerau a'r amodau hyn yn sicrhau bod ansawdd addysg mewn sefydliadau a ariennir yn cael ei asesu, bod modd gorfodi'r terfynau ar ffioedd dysgu, bod mynediad teg yn cael ei ddiogelu a bod sefydliadau'n ariannol gadarn. Mewn system a ariennir ag arian cyhoeddus, mae'r rhain yn gamau pwyso a gwrthbwyso pwysig ac mae angen iddynt barhau.

From September 2014, there will be three cohorts of students studying at Welsh institutions who may be charged tuition fees at a higher level than those permitted under the previous regime. The shift in funding away from HEFCW's institutional grants to income derived from student tuition fees means that the current legislation relating to higher education funding and regulation is no longer fit for purpose. This Bill provides for a revised regulatory system applicable to all institutions in Wales that have a fee and access plan in force, as approved by HEFCW. The Bill will ensure robust and proportionate regulation of institutions in Wales whose courses are supported by Welsh Government-backed higher education grants and loans; safeguard the contribution made to the public good arising from the Welsh Government's significant financial subsidy of higher education; maintain a strong focus on fair access to higher education; and preserve and protect the institutional autonomy and academic freedom of our universities.

O fis Medi 2014, bydd tair carfan o fyfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau yng Nghymru y gellid codi ffioedd dysgu uwch arnynt na'r rhai yr arferid eu caniatáu o dan y drefn flaenorol. Mae'r newid o ran cyllido oddi wrth grantiau sefydliadol CCAUC i incwm sy'n deillio o ffioedd dysgu myfyrwyr yn golygu nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â chyllid a rheoleiddio addysg uwch yn addas at y diben. Mae'r Bil hwn yn darparu ar gyfer system reoleiddio ddiwygiedig sy'n berthnasol i bob sefydliad yng Nghymru sydd â chynllun ffioedd a mynediad, fel y'i cymeradwywyd gan CCAUC. Bydd y Bil yn sicrhau rheoleiddio cadarn a chymesur ar sefydliadau yng Nghymru y mae eu cyrsiau'n cael cymorth grantiau a benthyciadau addysg uwch a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, bydd yn diogelu'r cyfraniad a wneir i les y cyhoedd yn deillio o gymhorthdal ariannol sylweddol Llywodraeth Cymru i addysg uwch, yn cadw pwyslais cryf ar fynediad teg at addysg uwch, ac yn cadw ac yn diogelu annibyniaeth sefydliadol a rhyddid academaidd ein prifysgolion.

The Bill has been designed to enable HEFCW to exercise appropriate and proportionate regulatory controls without reliance on the provision of financial support. In conjunction with the Bill, it is intended that higher education courses that are offered by institutions with fee and access plans in force will be automatically designated for Welsh Government student support. Such institutions will be subject to the regulatory requirements established by the Bill. The improved regulatory controls will better protect the interests of students, taxpayers and Welsh society and help to safeguard the reputation of Welsh higher education institutions on the UK and international stage.

Mae'r Bil wedi ei gynllunio i alluogi CCAUC i arfer rheolaethau rheoleiddio priodol a chymesur heb ddibynnu ar ddarparu cymorth ariannol. Ar y cyd â'r Bil, y bwriad yw y bydd y cyrsiau addysg uwch sy'n cael eu cynnig gan sefydliadau sydd â chynlluniau ffioedd a mynediad mewn grym yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Bydd sefydliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r gofynion rheoleiddio a sefydlir gan y Bil. Bydd y rheolaethau rheoleiddio yn diogelu buddiannau myfyrwyr, trethdalwyr a chymdeithas Cymru yn well ac yn helpu i ddiogelu enw da sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn y DU ac yn rhyngwladol.

The Bill will enable HEFCW to enforce tuition fee limits and fee and access plan requirements; require HEFCW to assess the quality of higher education provision and enable it to take steps in relation to inadequate quality; require HEFCW to prepare and publish a code relating to the organisation and management of the financial affairs of such institutions and enable it to take steps in relation to failure to comply with the new code; and it will provide protection for institutions in the event of any purported failure to comply with the new regulatory requirements via recourse to an independent review of HEFCW's proposed enforcement actions.

Bydd y Bil yn galluogi CCAUC i orfodi terfynau ffioedd dysgu a gofynion cynlluniau ffioedd a mynediad, bydd yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC asesu ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch ac yn ei alluogi i gymryd camau mewn perthynas ag ansawdd annigonol, bydd yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC baratoi a chyhoeddi cod yn ymwneud â threfnu a rheoli materion ariannol sefydliadau o'r fath ac yn ei alluogi i gymryd camau mewn perthynas â methu â chydymffurfio â'r cod newydd, a bydd yn darparu amddiffyniad i sefydliadau os bydd unrhyw fethiant honedig o ran cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio newydd drwy droi at adolygiad annibynnol o gamau gorfodi arfaethedig CCAUC.

This Bill is founded on the principles of continuity and change—continuity in that it builds on current arrangements and places them on a new statutory footing and change in that it amends HEFCW's functions and provides for appropriate regulation and quality assurance in the context of the very different funding regime that now underpins higher education in Wales. Many of the obligations that the Bill will place on institutions that have an approved fee and access plan in force will be similar to those presently imposed by HEFCW and enforced through terms and conditions of funding. The Bill will also strengthen HEFCW's monitoring and enforcement functions relating to equality of opportunity in connection with access to higher education. The proposals in this Bill have been informed by my discussions with key stakeholders and responses received to consultation on our proposals. I would like to take this opportunity to thank all those who have engaged with us for their valuable contribution to the development of the Bill.

Mae'r Bil hwn yn seiliedig ar egwyddorion parhad a newid—parhad am ei fod yn adeiladu ar y trefniadau presennol ac yn rhoi sylfaen statudol newydd iddynt a newid am ei fod yn diwygio swyddogaethau CCAUC ac yn darparu ar gyfer rheoleiddio a sicrhau ansawdd yn briodol yng nghyd-destun y gyfundrefn ariannu wahanol iawn sydd bellach yn sylfaen i addysg uwch yng Nghymru. Bydd llawer o'r rhwymedigaethau y bydd y Bil yn eu gosod ar sefydliadau sydd â chynllun ffioedd a mynediad cymeradwy ar waith yn debyg i'r rhai a osodir ar hyn o bryd gan CCAUC ac sy'n cael eu gorfodi drwy delerau ac amodau ariannu. Bydd y Bil hefyd yn cryfhau swyddogaethau monitro a gorfodi CCAUC sy'n ymwneud â chyfle cyfartal o ran mynediad at addysg uwch. Mae fy nhrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol ac ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar ein cynigion wedi llywio'r cynigion yn y Bil hwn. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi ymgysylltu â ni am eu cyfraniad gwerthfawr i ddatblygu'r Bil.

Not all of HEFCW's functions can be included in the revised regulatory framework and it will not be a direct replacement for the existing funding-based system. The shift in funding and change in role means that HEFCW will need to identify new ways of working in partnership with the higher education sector to influence behaviour and to support the delivery of policy aims. I set out my intentions in this regard in my recent remit letter to HEFCW. I believe that the new regulatory framework will benefit students, the Welsh higher education sector and Welsh society. It will ensure that assessment of the quality of higher education in Wales is robust, that there is a continuing strong focus on fair access to higher education and that HEFCW is equipped with the necessary tools to ensure proportionate regulation of a higher education system underpinned by Welsh Government statutory student support.

Ni ellir cynnwys holl swyddogaethau CCAUC yn y fframwaith rheoleiddio diwygiedig ac ni fydd yn uniongyrchol yn cymryd lle'r system bresennol sy'n seiliedig ar gyllido. Mae'r newid o ran cyllido a'r newid o ran swyddogaeth yn golygu y bydd angen i CCAUC ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio mewn partneriaeth â'r sector addysg uwch i ddylanwadu ar ymddygiad ac i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau polisi. Nodais fy mwriadau yn hyn o beth yn fy llythyr cylch gwaith diweddar i CCAUC. Credaf y bydd y fframwaith rheoleiddio newydd o fudd i fyfyrwyr, sector addysg uwch Cymru a chymdeithas Cymru. Bydd yn sicrhau bod ansawdd addysg uwch yng Nghymru'n cael ei asesu'n gadarn, bod pwyslais cryf a pharhaus ar fynediad teg at addysg uwch a bod gan CCAUC yr offer angenrheidiol i sicrhau rheoleiddio cymesur ar system addysg uwch sy'n cael ei chynnal gan gymorth statudol Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr.

To conclude, the proposals that I have outlined today are paramount to ensuring that the regulation of our higher education system in Wales is fit for purpose in the context of the funding arrangements in place since 2012-13. I look forward to working with Assembly Members and others during the scrutiny of this Bill and commend it to the Chamber.

I gloi, mae'r cynigion yr wyf wedi eu hamlinellu heddiw yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y rheoleiddio ar ein system addysg uwch yng Nghymru yn addas at y diben yng nghyd-destun y trefniadau ariannu a fu ar waith ers 2012-13. Edrychaf ymlaen at weithio gydag Aelodau'r Cynulliad ac eraill wrth inni graffu ar y Bil hwn ac rwyf yn ei gymeradwyo i'r Siambr.

15:25 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for the statement on the Bill and for meeting the other opposition spokesmen—

Diolch ichi, Weinidog, am y datganiad ar y Bil ac am gwrdd â llefarwyr y gwrthbleidiau—

15:25 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Spokespeople.

Llefaryddion.

15:25 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am sorry; you are quite right—'spokespeople'. That acknowledges the current political balance here in the Assembly and the need for Welsh Government to take the Assembly with it, if at all possible. I do not think that there is any need to rehearse the differing opinions on Welsh Government fee subsidies for Welsh students, wherever they choose to study in the UK. However, the statement today effectively accepts that there have been implications for HEFCW—the money available to it and the level of influence that it can exercise via its diminished ability to make the funding allocations to higher education institutions that they previously enjoyed.

Mae'n ddrwg gennyf; rydych yn llygad eich lle —'llefaryddion'. Mae hynny'n cydnabod y cydbwysedd gwleidyddol sydd ar hyn o bryd yma yn y Cynulliad a'r angen i Lywodraeth Cymru i fynd â'r Cynulliad gyda hi, os yw hynny'n bosibl. Nid wyf yn credu bod angen trafod y gwahanol safbwyntiau ar gymorthdaliadau ffioedd Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru, ble bynnag y byddant yn dewis astudio yn y DU. Fodd bynnag, mae'r datganiad heddiw yn derbyn i bob pwrpas y bu goblygiadau i CCAUC—yr arian sydd ar gael iddo a lefel y dylanwad y gall ei arfer drwy fod ganddo lai o allu i wneud y dyraniadau cyllid i sefydliadau addysg uwch yr oeddent yn eu cael o'r blaen.

My first question relates to the Diamond review. That, of course, could have implications on the decision to try to shift the ability to influence from funding with conditions to direct regulation. So, could you tell me, Minister, how you see the Diamond review process and the progress of this Bill fitting together, and how one might inform the other?

Mae fy nghwestiwn cyntaf yn ymwneud ag adolygiad Diamond. Gallai hwnnw, wrth gwrs, beri goblygiadau ran y penderfyniad i geisio symud y gallu i ddylanwadu o gyllid gydag amodau i reoleiddio uniongyrchol. Felly, a allwch ddweud wrthyf, Weinidog, sut yr ydych yn gweld proses adolygu Diamond a hynt y Bil hwn yn cyd-blethu, a sut y gallai'r naill lywio'r llall?

Your statement says that you are looking at this regulation route as a means of maintaining and, I would suggest, probably improving your policy aim of fair access. It is not an aim that I think that anyone could disagree with, but we would want fair access to high-quality higher education institutes, which you were keen to see, as it contributes to the public good, as I think that you said in your statement.

Mae eich datganiad yn dweud eich bod yn edrych ar y llwybr rheoleiddio hwn fel modd o gynnal ac, yn ôl pob tebyg, byddwn yn awgrymu, o wella eich nod polisi o sicrhau mynediad teg. Nid yw'n nod y credaf y gallai neb anghytuno ag ef, ond byddem am gael mynediad teg i sefydliadau addysg uwch o ansawdd uchel, ac roeddech yn awyddus i weld hynny, oherwydd mae'n cyfrannu at les y cyhoedd, fel y credaf ichi ddweud yn eich datganiad.

Regulations need to be dealt with delicately in order not to cross-align, which risks the autonomous and academic freedom that you seek to preserve and which is mentioned in your statement. That is essential for a variety of legal reasons regarding status, so are you able to say, without breach of privilege, what advice you might have received about how best to tread that delicate line, especially with regard to quality control and financial structures?

Mae angen ymdrin yn ofalus â rheoliadau er mwyn peidio â thraws-alinio, sy'n peryglu'r rhyddid ymreolaethol ac academaidd yr ydych yn ceisio'i gadw ac sy'n cael ei grybwyll yn eich datganiad. Mae hynny'n hanfodol am amryw o resymau cyfreithiol ynghylch statws, felly a allwch ddweud, heb dorri braint, pa gyngor y gallech fod wedi'i gael ynghylch y ffordd orau o droedio'r llinell denau honno, yn enwedig o ran rheoli ansawdd a strwythurau ariannol?

This is proposed regulation of institutions whose courses are supported by higher education grants and loans. Is there a possibility at least that, with less money available from Welsh Government and more regulation being introduced by Welsh Government, existing HEIs in Wales might be tempted to try to function without Welsh Government support? I know that that might be unlikely, but if that were to happen, would you be directing your mind to a way that might prevent such higher education institutions from continuing to work in Wales or the establishment of new unsupported HEIs?

Cynnig yw hwn i reoleiddio sefydliadau y mae eu cyrsiau yn cael eu cefnogi gan grantiau a benthyciadau addysg uwch. A oes posibilrwydd o leiaf, gyda llai o arian ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru a mwy o reoleiddio'n cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru, y gallai sefydliadau addysg uwch presennol yng Nghymru gael eu temtio i geisio gweithredu heb gymorth Llywodraeth Cymru? Gwn y gallai hynny fod yn annhebygol, ond pe bai hynny'n digwydd, a fyddech yn cyfeirio eich meddwl at ffordd a allai atal sefydliadau addysg uwch o'r fath rhag parhau i weithio yng Nghymru neu atal sefydlu sefydliadau addysg uwch newydd heb gefnogaeth?

I am very keen to know quite what you have in mind with your code and what would happen in the event of an institution failing to comply with it.

Rwyf yn awyddus iawn i wybod beth yn union sydd gennych mewn golwg gyda'ch cod a beth fyddai'n digwydd pe na bai sefydliad yn cydymffurfio ag ef.

Finally, I must admit that I have only done a quick read across the Bill, however I am mindful of your acknowledgement that lessons have been learnt by Welsh Government about an over-enthusiasm for framework Bills that are all frame and no work. Therefore, are you confident that you have had time to develop policy to the extent that policy intentions are clear on the face of the Bill and that the main mechanisms and actions to achieve those policy intentions are similarly clear?

Yn olaf, mae'n rhaid imi gyfaddef nad wyf ond wedi darllen y Bil yn gyflym iawn, ond rwyf yn ymwybodol ichi gydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi dysgu gwersi am or-frwdfrydedd o ran Biliau fframwaith sy'n ffrâm i gyd a dim gwaith. Felly, a ydych yn ffyddiog eich bod wedi cael amser i ddatblygu polisïau i'r graddau bod y bwriadau polisi'n glir ar wyneb y Bil a bod y prif fecanweithiau a chamau gweithredu i gyflawni'r bwriadau polisi hynny'r un mor glir?

15:28

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Suzy Davies for those constructive and substantial points. She is quite right to say that the implications for HEFCW are significant here. Essentially, we are, through this legislation, creating—. Although we will continue to name the body 'HEFCW', it will be a very different beast in terms of the way that it works and relates to higher education, and that is an acknowledgement of the fact that the realities of the matter have changed. Those levers that were available for HEFCW to pull in terms of influence on quality, the public good and so on have shifted away from grant funding to a large extent towards the funding of the students themselves and the necessity for the legislation.

Diolch i Suzy Davies am y pwyntiau adeiladol a sylweddol hynny. Mae'n hollol iawn i ddweud bod y goblygiadau i CCAUC yn sylweddol yn hyn o beth. Yn y bôn, drwy'r ddeddfwriaeth hon, rydym yn creu—. Er y byddwn yn dal i alw'r corff yn 'CCAUC', bydd yn anifail gwahanol iawn o ran y ffordd y mae'n gweithio ac yn ymwneud ag addysg uwch, ac mae hynny'n cydnabod y ffaith bod realiti'r mater wedi newid. Mae'r ysgogiadau a oedd ar gael i CCAUC eu defnyddio o ran dylanwadu ar ansawdd, lles y cyhoedd ac yn y blaen wedi symud i ffwrdd oddi wrth gyllid grant i raddau helaeth tuag at gyllid y myfyrwyr eu hunain a'r angen am y ddeddfwriaeth.

She is quite right to point out that there are important issues of potential cross-over between this legislation and the Diamond review. However, I do not anticipate that the fundamentals of this legislation need to wait in any way for the Diamond review to report. However, it is important that we allow one process to inform the other, as she quite rightly says, and that would inform that kind of dialogue between Professor Ian Diamond, the institutions, the Welsh Government and others, which will be important as we progress through the next stages of this legislation.

Mae'n hollol iawn i ddweud bod gorgyffwrdd pwysig o bosibl rhwng y ddeddfwriaeth hon ac adolygiad Diamond. Fodd bynnag, nid wyf yn rhagweld bod angen i hanfodion y ddeddfwriaeth hon aros yn unrhyw fodd am adroddiad adolygiad Diamond. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn caniatáu i un broses lywio'r llall, fel y mae hi'n ei ddweud yn gwbl briodol, a byddai hynny'n llywio'r math hwnnw o ddeialog rhwng yr Athro Ian Diamond, y sefydliadau, Llywodraeth Cymru ac eraill, a fydd yn bwysig wrth inni symud ymlaen drwy gamau nesaf y ddeddfwriaeth hon.

She is right, also, to point out that issues of fair access are picked out for particular emphasis in terms of the explanatory memorandum and so on. I believe that that is quite right, the reason being that we have fine examples of fair access initiatives across Wales, but, as we would all, I think, admit, if we took a closer look, the trouble with this agenda thus far in Wales is that it has been a patchy one. It has also been one, to my mind, that has suffered from a lack of sustained effort in each and every institution, each and every academic year, and could benefit, I feel, from a legislative underpinning that means that this becomes a mainstreamed and expected part of the annual and triennial planning of every institution's day-to-day business.

Mae hi'n iawn, hefyd, i nodi bod pwyslais penodol yn cael ei roi ar faterion mynediad teg o ran y memorandwm esboniadol ac yn y blaen. Rwyf yn credu bod hynny'n hollol iawn, a hynny oherwydd bod gennym enghreifftiau gwych o fentrau mynediad teg ledled Cymru, ond, fel y byddem i gyd yn cyfaddef, rwyf yn meddwl, os edrychwn yn fanylach, y drafferth o ran yr agenda hon hyd yma yng Nghymru yw ei bod wedi bod yn un dameidiog. Mae hefyd wedi bod yn un, yn fy marn i, sydd wedi dioddef o ddiffyg ymdrech gyson ym mhob sefydliad, ym mhob blwyddyn academaidd, a gallai elwa, yn fy marn i, o sylfaen ddeddfwriaethol sy'n golygu bod hyn yn dod yn rhan brif ffrwd ddisgwyliedig o'r cynllunio blynyddol a'r cynllunio tair blynedd ar fusnes pob sefydliad o ddydd i ddydd.

In terms of issues like quality control and how all those issues like fair access impact on autonomy, these are not new questions. A great deal of the legislation, guidance and remit letters that have gone before us have always had to tread that line between ensuring the public good, asking the sector to work alongside Government priorities in a coherent way and maintaining good dialogue. That line has been trod for many a year now, and we will have to ensure, as this legislation progresses, that we continue to do so. I am very sensitive to our need to ensure that we do no harm in terms of the respected autonomy of our higher education institutions, of course.

O ran materion megis rheoli ansawdd a'r ffordd y mae'r holl faterion hynny fel mynediad teg yn effeithio ar annibyniaeth, nid yw'r rhain yn gwestiynau newydd. Bu'n rhaid i lawer iawn o'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r llythyrau cylch gwaith sydd wedi bod yn y gorffennol bob amser droedio'r llinell honno rhwng sicrhau lles y cyhoedd, gofyn i'r sector weithio ochr yn ochr â blaenoriaethau'r Llywodraeth mewn ffordd gydlynol a chynnal deialog dda. Mae'r llinell honno'n cael ei throedio ers sawl blwyddyn bellach, a bydd yn rhaid inni sicrhau, fel y bydd y ddeddfwriaeth hon yn mynd rhagddi, ein bod yn parhau i wneud hynny. Rwyf yn ymwybodol iawn fod angen inni sicrhau nad ydym yn gwneud niwed o ran annibyniaeth uchel ei pharch ein sefydliadau addysg uwch, wrth gwrs.

I would find it hard to envisage a situation where existing HEIs might seek to operate without Welsh Government support, given the extent to which the operation of our current HEIs is underpinned by Welsh Government support. It amounts to at least a third of their funding—let us not forget that just because the money is now largely following the student, that does not make it any the less public money. It remains public money; it is Welsh Government support. It would be difficult to envisage, without a radical change of direction, a current HEI that might want to step outside that. However, she is also right to talk about the possibility in the future of new institutions coming along. We have to have a piece of legislation that speaks to that possibility in the future. It is not beyond the realms of possibility, obviously, that new forms of HEI might seek to set up work in Wales, and we would have to make sure that the legislation works with that sort of situation.

Byddwn yn ei chael yn anodd rhagweld sefyllfa lle gallai'r sefydliadau addysg uwch presennol geisio gweithredu heb gymorth Llywodraeth Cymru, ac ystyried y graddau y mae ein sefydliadau addysg uwch ar hyn o bryd yn cael cymorth gan Lywodraeth Cymru i weithredu. Mae'n cyfateb i o leiaf draean o'u cyllid—gadewch inni beidio ag anghofio, yn awr bod yr arian i raddau helaeth yn dilyn y myfyriwr, nad yw hynny'n golygu ei fod yn arian llai cyhoeddus. Mae'n dal i fod yn arian cyhoeddus; cymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru ydyw. Byddai'n anodd rhagweld, heb newid cyfeiriad llwyr, sefydliad addysg uwch presennol a allai fod am gamu y tu allan i hynny. Fodd bynnag, mae hi hefyd yn iawn i siarad am y posibilrwydd yn y dyfodol y gallai sefydliadau newydd ddod i'r amlwg. Mae'n rhaid inni gael darn o ddeddfwriaeth sy'n sôn am y posibilrwydd hwnnw yn y dyfodol. Nid yw y tu hwnt i bob amgyffred, wrth gwrs, y gallai mathau newydd o sefydliadau addysg uwch geisio ymsefydlu yng Nghymru, a byddai'n rhaid inni wneud yn siŵr bod y ddeddfwriaeth yn gweithio gyda'r math hwnnw o sefyllfa.

The legislation also, in terms of failure to comply, introduces new gradations of intervention that HEFCW could undertake, short of the nuclear button of refusing to endorse a fee plan. Those are laid out in the explanatory memorandum and would mean that a much more nuanced series of interventions could be undertaken by HEFCW in relation to an institution—hopefully, almost always in a supportive context—to make sure that everybody gets back on track.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd, o ran methu â chydymffurfio, yn cyflwyno graddiadau newydd o ymyrraeth y gallai CCAUC ei rhoi ar waith, heb droi at fotwm niwclear gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd. Mae'r rheini wedi eu nodi yn y memorandwm esboniadol a byddent yn golygu y gallai CCAUC gynnal cyfres fwy cynnil o lawer o ymyriadau mewn perthynas â sefydliad—bron bob amser mewn cyd-destun cefnogol, gobeithio—i wneud yn siŵr bod pawb yn ôl ar ben y ffordd.

I take the point around policy intentions. Of course, we will work through these issues as the Bill progresses, but I am hearing what opposition parties, in particular, are saying around clarity on policy intentions upfront in terms of what the legislation looks like.

Rwyf yn derbyn y pwynt ynghylch bwriadau polisi. Wrth gwrs, byddwn yn gweithio drwy'r materion hyn wrth i'r Bil fynd rhagddo, ond clywaf yr hyn y mae'r gwrthbleidiau, yn arbennig, yn ei ddweud ynghylch eglurder bwriadau polisi ymlaen llaw o ran y ffordd y mae'r ddeddfwriaeth yn edrych.

15:34

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Simon Thomas.

Galwaf ar Simon Thomas.

15:34

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n wir bod natur cyllido prifysgolion wedi newid yn sylweddol ers cyflwyno ffioedd a ffioedd dysgu ychwanegol. Rwy'n cytuno, felly, â'r Llywodraeth fod angen eglurder yn y maes hwn. Nid ydym felly yn gwrthwynebu'r Bil mewn egwyddor, neu Bil mewn egwyddor, ond mae cwestiynau sylfaenol yr hoffwn eu codi yn awr gyda'r Gweinidog. Rwy'n defnyddio 'prifysgolion' fel llaw fer ar gyfer effaith y Bil ar bob math o sefydliad sy'n darparu addysg o'r fath.

Thank you, Deputy Presiding Officer. It is true to say that the nature of the funding of universities has changed significantly since the introduction of fees and additional tuition fees. Therefore, I agree with the Government that we need clarity in this particular area. We, therefore, do not oppose the Bill in principle, or a Bill in principle, but there are fundamental questions that I would like to raise now with the Minister. I am using the word 'universities' as shorthand for the impact that the Bill will have on all institutions that provide education of this kind.

Yn gyntaf, rwy'n chwilio yn y Bil am yr egwyddor bod rheolaeth gyhoeddus yn dilyn arian cyhoeddus. Mae'n wir bod arian cyhoeddus yn cael ei ddarparu mewn sawl ffordd wahanol erbyn hyn. Mae grant uniongyrchol; mae ffioedd —arian Llywodraeth Cymru tuag at ffioedd; ac fe allech chi ddadlau bod benthyciadau myfyrwyr yn arian cyhoeddus hefyd, oherwydd ei fod mewn cyd-destun o gefnogaeth gyhoeddus. Yn ogystal â hyn, mae cymhorthdal economaidd Ewropeaidd yn arian cyhoeddus hefyd; er y byddai ambell i brifysgol yn hoffi dadlau ei fod yn gwbl breifat, dim ond iddyn nhw, mae cyd-destun cyhoeddus iddo fe.

First, I am looking in the Bill for the principle that public control follows public money. It is true that public funding is provided in many different ways. There are direct grant; fees—the Welsh Government money towards tuition fees; and you could argue that student loans are also public money, because it is in a context of public support. In addition, European economic subsidy is also public funding; although some universities would like to argue that it is entirely private, only for them, it does exist in a public context.

Felly, mae hynny i'w ystyried. Fodd bynnag, mae'n wir dweud hefyd fod ardaloedd llwyd yn y cyd-destun hwn. Mae'n ymddangos i mi bod y Bil yn mynd y tu hwnt i arian cyhoeddus, hyd yn oed yn yr ystyr mwyaf eang, ac yn dechrau ymwneud â rheolaeth dros weithgarwch cwbl annibynnol gan brifysgolion. Felly, mae'n codi'r cwestiwn sydd heb gael ei ateb, dydw i ddim yn meddwl, yn natganiad y Gweinidog, o ymwneud y Bil hwn â chyfraith elsuen, oherwydd rydym yn sôn am brifysgolion sy'n elusennau yn y fan hon, a hefyd ddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ynglŷn â natur y sefydliadau hyn. Fe fuon ni mewn sefyllfa lle gwnaed i golegau addysg bellach un peth, ac yr oedd yn rhaid i ni ddad-wneud hynny oherwydd yr oedd wedi eu gosod nhw mewn dosbarthiad pur wahanol gan yr ONS. Hoffwn, felly, glywed beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf gan y Llywodraeth wrth drafod gyda'r Comisiwn Elusennau, a'r swyddfa ystadegau, ynglŷn â'r dehongliad hwnnw.

Therefore, that is to be considered. However, it is also true to say that there are some grey areas in this context. It seems to me that the Bill goes beyond public money, even in the broadest sense, and starts to deal with control of fully independent activities on behalf of universities. Therefore, it raises the question that has not been answered, I do not think, in the Minister's statement, of this Bill's involvement with charities law, because we are talking about universities that are charities here, and also the ONS distribution in terms of the nature of these institutions. We were in a situation where further education colleges were designated in a certain way, and we had to undo that because it had been designated differently by the ONS. I would like to hear, therefore, an update from the Government on discussions with the Charity Commission and the ONS on that definition.

Mae'r ail gwestiwn sy'n codi yn ymwneud â natur Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei hunan. Mae'r Gweinidog wedi dweud bod angen gweithredu yn y maes hwn gan nad yw'r gyfraith yn addas i'w phwrpas erbyn hyn. Mae eisiau gofyn a yw sefyllfa a natur y cyngor cyllido erbyn hyn yn addas i'w pwrpas. Mae'n dyddio yn ôl dros 20 mlynedd yn y gyfraith erbyn hyn. I bob pwrpas, rhan o'r Llywodraeth yw'r cyngor cyllido—nid yw'n gwbl annibynnol. Mae rhyw egwyddor hyd-braich yno, ond hyd penelin yw e, yn hytrach na hyd braich. Mae angen inni ofyn, os ydym yn mynd i ddodi cymaint mwy o allu a phŵer gyda'r cyngor cyllido, a ddylai fod naill ai yn fwy annibynnol neu hyd yn oed yn fwy agos at y Llywodraeth. Esboniaf wrth symud at y trydydd pwynt pam rwy'n dweud hynny.

The second question that arises concerns the nature of HEFCW itself. The Minister has said that action is needed in this area as the law is not fit for purpose. We need to ask whether the nature of the funding council is now fit for purpose. It now dates back over 20 years in law. In effect, the funding council is an arm of Government—it is not entirely independent. There is an arm's-length principle, but it's up to the elbow rather than entirely arm's length. We need to ask: if we are going to give the funding council so much more capacity and power, should it be either more independent or should it be closer to Government? I will explain why I make that case as I move to my third point.

Mae'r trydydd pwynt ynghylch natur y rheolaeth a fydd gan y Llywodraeth a'r cyngor cyllido yn awr dros brifysgolion yng Nghymru. Rwy'n cydnabod wrth ddechrau fod mwy ar wyneb y Bil hwn nag yr ydym wedi ei weld mewn sawl Bil arall. Yn enwedig ar ddechrau'r Bil, mae sawl cymal sy'n esbonio yr hyn y mae'r Llywodraeth yn dymuno ei wneud o ran polisi, ac mae'n fuddiol i weld hynny. Serch hynny, mae o leiaf—ac nid wyf wedi darllen y Bil fwy nag unwaith—11 o gymalau sy'n rhoi pwerau i wneud rheoliadau. Yn fwy diddorol i ni, rwy'n meddwl—oherwydd rydym wastad yn cael yr ymwneud hwn ynglŷn â rheoliadau cadarnhaol neu negyddol, ac ati, ac fe ddown at hynny mae'n siŵr—mae pwerau yn cael eu rhoi i Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i roi cyfarwyddyd i gyhoeddi canllawiau statudol, ac, wrth gwrs, i gael y cod rheolaeth ariannol. Mae gan y cod rheolaeth ariannol hwn bwerau gorfodi cryf y tu ôl iddo, rhai sy'n mynd mor bell ag anfon rhywun mewn i sefydliad i holi beth sy'n digwydd yn y sefydliad hwnnw.

The third point is about the nature of the control that the Government and the funding council will have over universities in Wales. I acknowledge at the outset that there is more on the face of this Bill than we have seen in many other Bills. Especially at the beginning of the Bill, several clauses explain what the Government wants to do in terms of policy, and it is helpful to see that. I have not read the Bill more than once, but there are at least 11 clauses that grant powers to make regulations. More interesting to us, I think—because we always have this interaction regarding positive or negative procedures et cetera; we will come to that I am sure—are the powers given to the Higher Education Funding Council for Wales to give direction to issue statutory guidance, and, of course, to get the code of financial management. That code of financial management has strong enforcement powers behind it, going so far as to send someone in to an organisation to question what's going on in that institution.

Wrth gwrs, wrth wneud hynny drwy gorff sydd hyd penelin o'r Llywodraeth, nid ydym ni yn y Cynulliad yn cael gweld ffurfio'r canllawiau statudol hyn, y cyfarwyddyd hwn, na'r cod rheolaeth ariannol hwn. Mewn ffordd, byddwn i'n teimlo, yn naturiol, yn hapusach pe bai hyn yn cael ei wneud gan gorff cwbl annibynnol o'r Llywodraeth, neu'n cael ei wneud yn nes at y Llywodraeth, fel ein bod ni fel Aelodau Cynulliad yn gallu dal y Gweinidog i gyfrif yn fwy. Rwy'n meddwl bod hyn yn 'issue' y bydd yn rhaid i ni edrych arno'n ofalus wrth i ni fynd drwy'r Bil hwn.

Of course, in doing that through a body that is at elbow's length of Government, we in the Assembly do not see the drawing up of this statutory guidance, this direction, or this financial management code. In a way, I would feel more comfortable, naturally, if this was done by a body entirely independent of Government, or done closer to the Government, so that we as Assembly Members can hold the Minister to account on this. I think that this is an issue that we will have to look at in detail as we go through this Bill.

Y pedwerydd pwynt—a'r pwynt olaf—yw bod yn rhaid i'r system newydd, beth bynnag yr ydym yn ei benderfynu yn y pen draw ynglŷn â'r Bil hwn, fod yn ddigon hyblyg ar gyfer y dyfodol ac o ran yr hyn sy'n dod yn sgîl Diamond. Mae'r Gweinidog wedi ymateb i'r pwyntiau hyn yn rhannol, felly rwy'n ddiolchgar iddo am hynny. Rwyf ddim ond yn gwneud y pwynt ein bod ni ym Mhlaid Cymru yn meddwl nad yw'r system gyfredol yn gynaliadwy yn y tymor hir, ac rwy'n sylwi bod y Gweinidog, mewn araith i gynhadledd Undeb Prifysgolion a Cholegau ar 1 Mawrth, wedi dweud ei fod yn disgwyl i Lywodraeth Cymru dalu £280 miliwn yn y cyfnod cyllido nesaf, hyd at 2015-16, i brifysgolion y tu allan i Gymru. Mae hwn yn arian, wrth gwrs, sy'n cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru ac nad ydyw'n dilyn unrhyw un o'r rheolau hynny, ac mae'n rhaid inni gadw hynny mewn cof.

The fourth, and final, point is that the new system, whatever we decide ultimately about this Bill, has to be sufficiently flexible for the future and in terms of what comes in the wake of Diamond. The Minister has responded to these points in part, and I am grateful to him for that. I just make the point that we in Plaid Cymru believe that the current system is not sustainable in the long term, and I note that the Minister, in a speech to the UCU conference on 1 March, said that he expects the Welsh Government to pay £280 million in the ensuing funding period to 2015-16, to universities outwith Wales. This is money, of course, paid by the Welsh Government that does not follow any of these rules, and we must bear that in mind.

Mae hefyd yn wir ein bod yn edrych ar Fil o'r fath ar adeg pan mae Lloegr, sy'n cystadlu â ni yn y maes hwn, yn edrych i lacio'r mater o fenthyciadau gan brifysgolion a'r rheolau ariannol. Nid wyf yn dweud fy mod o reidrwydd am i'r Gweinidog fynd lawr y llwybr hwn, ond os yw'n golygu bod gan brifysgolion yn Lloegr gyd-destun benthyca ariannol gwahanol, sy'n eu rhoi mewn sefyllfa lle gallant gystadlu hyd yn oed yn fwy brwd yn erbyn prifysgolion Cymru, rhaid inni fod yn ymwybodol wrth lunio Bil o'r fath o'r effaith y gall hynny ei gael.

It is also true to say that we are looking at such a Bill at a time when England, which is competing with us in this area, is looking to relax the issue of borrowing by universities and the financial rules. I am not saying that I want the Minister to necessarily go down that road, but if that means that universities in England have a different financial borrowing context, which places them in a position where they can compete even more fiercely against Welsh universities, we have to be aware in drawing up such a Bill of the impact that that may have.

I have to say to the Minister that I do think that this Bill goes beyond technical changes. There is no problem with that, but we do therefore need to interrogate the Government and understand better what the Government is trying to achieve here. That is partly answered on the face of the Bill, but not completely. Of course, we do have the committee process to do that. We need a sustainable, long-term funding system that is publicly accountable, reflective of Welsh academic and economic needs, but which respects the autonomy of universities according to the Bologna declaration and principles. In dealing with the relaxation of controls over further education colleges under another Bill, I do note that the Government was keen to tell us that we had a mature sector that could be trusted to come to work with Government and wider society.

Rhaid i mi ddweud wrth y Gweinidog fy mod yn credu bod y Bil hwn yn mynd y tu hwnt i newidiadau technegol. Nid yw hynny'n broblem, ond felly mae angen i ni holi'r Llywodraeth a deall yn well beth y mae'r Llywodraeth yn ceisio ei gyflawni yma. Mae hynny'n cael ei ateb yn rhannol ar wyneb y Bil, ond nid yn gyfan gwbl. Wrth gwrs, mae gennym broses y pwyllgor i wneud hynny. Mae arnom angen system ariannu gynaliadwy, hirdymor sy'n atebol i'r cyhoedd, sy'n adlewyrchu anghenion academaidd ac economaidd Cymru, ond sy'n parchu ymreolaeth prifysgolion yn ôl datganiad ac egwyddorion Bologna. Wrth ddelio â llacio rheolaethau dros golegau addysg bellach o dan Fil arall, rwy'n sylwi bod y Llywodraeth yn awyddus i ddweud wrthym bod gennym sector aeddfed y gellid ymddiried ynddo i ddod i weithio gyda'r Llywodraeth a'r gymdeithas ehangach.

When I look at universities, I do not agree with everything that they do, particularly the wages that they pay to their senior staff. However, I do think that it is a mature sector, and I do think that it can be trusted on the whole to work with us, and I want to see that principle reflected in the Bill that we eventually pass in this Assembly.

Pan fyddaf yn edrych ar brifysgolion, nid wyf yn cytuno â phopeth y maent yn ei wneud, yn arbennig y cyflogau maent yn eu talu i'w staff uwch. Fodd bynnag, rwy'n meddwl ei fod yn sector aeddfed, ac rwy'n meddwl y gellir ymddiried ynddo ar y cyfan i weithio gyda ni, ac rwyf am weld yr egwyddor honno'n cael ei hadlewyrchu yn y Bil yr ydym yn ei basio yn y pen draw yn y Cynulliad hwn.

15:41

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Simon Thomas for those valuable insights into his views on the legislation thus far, and particularly his acceptance in principle of the need for legislation of this type. In terms of his comments surrounding concerns around charitable status and, of course, the ONS, I do not believe that there is anything in these proposals that would threaten the charitable status of Wales's higher education institutions, and the Charity Commission agrees. Obviously, we have consulted with the Charity Commission, and it has given feedback on its view of this legislation. It sees no issue or problem surrounding charitable status issues.

Diolch i Simon Thomas am y cipolwg gwerthfawr hwnnw ar ei farn ar y ddeddfwriaeth hyd yn hyn, ac yn enwedig y ffaith ei fod yn derbyn mewn egwyddor yr angen am ddeddfwriaeth o'r math hwn. O ran ei sylwadau ynghylch pryderon am statws elusennol ac, wrth gwrs, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, nid wyf yn credu bod unrhyw beth yn y cynigion hyn a fyddai'n bygwth statws elusennol sefydliadau addysg uwch Cymru, ac mae'r Comisiwn Elusennau yn cytuno. Yn amlwg, rydym wedi ymgynghori â'r Comisiwn Elusennau, ac mae wedi rhoi adborth ar ei farn am y ddeddfwriaeth hon. Nid yw'n gweld unrhyw fater neu broblem sy'n gysylltiedig â materion statws elusennol.

In terms of the ONS, that is a complex situation, and I will want to ensure—how shall I put this?—that we do not necessarily wish to attract the concentrated interest of the ONS in terms of these changes. I do not believe, really, that we will, but we need to be careful about those issues as the Bill proceeds through its committee stages. I would caution the sector also to have a care as to what it might wish for in terms of potential changes to this legislation in relation to the attitude of the ONS.

O ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae honno'n sefyllfa gymhleth, a byddaf am sicrhau—sut mae geirio hyn?—nad ydym o reidrwydd yn dymuno denu diddordeb dwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol o ran y newidiadau hyn. Nid wyf yn credu y byddwn, mewn gwirionedd, ond mae angen inni fod yn ofalus am y materion hynny wrth i'r Bil symud ymlaen trwy ei gamau pwyllgor. Byddwn yn rhybuddio'r sector hefyd i fod yn ofalus o ran yr hyn y gallai ddymuno amdano o ran newidiadau posibl i'r ddeddfwriaeth hon mewn cysylltiad ag agwedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

The Member is right to say that the nature of the funding council will change. It is going to become a different kind of organisation, using regulatory powers and tools at its disposal that will be new, and a new working arrangement within HEFCW will have to be quickly learned and put into practice. There will be a new relationship between the sector and HEFCW, and between the Welsh Government and HEFCW. However, that arm's-length principle should and must remain. Although, at present, I see no particular issue with continuing with that particular definition of HEFCW as being at arm's length and so on, I would be more than happy to listen to the concerns of Members from across the Chamber, and in committee, about any potential worries they might have in that regard.

Mae'r Aelod yn iawn i ddweud y bydd natur y cyngor cyllido yn newid. Mae'n mynd i fod yn fath gwahanol o sefydliad, gan ddefnyddio pwerau rheoleiddio ac offer newydd a fydd ar gael iddo, a bydd yn rhaid i'r trefniant gweithio newydd o fewn CCAUC gael ei ddysgu'n gyflym a'i roi ar waith. Bydd perthynas newydd rhwng y sector a CCAUC, a rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC. Fodd bynnag, dylai a rhaid i'r egwyddor hyd braich aros. Er na welaf unrhyw broblem benodol ar hyn o bryd gyda pharhau â'r diffiniad penodol o CCAUC fel sefydliad hyd braich ac yn y blaen, byddwn yn fwy na pharod i wrando ar bryderon Aelodau ar draws y Siambr, ac yn y pwyllgor, am unrhyw bryderon posibl a allai fod ganddynt yn y cyswllt hwnnw.

In terms of regulations and subordinate legislation, and so on, these are important matters. Many of them, of course, will be worked through in committee. However, I have stuck to the principles that these powers could be considered to be essential. They need to be there if they prescribe matters of procedural detail and provide for future flexibility with regard to matters that may change from time to time. In other words, they are technical and they provide a capability to deal with changing circumstances over time. Of course, the committee process will give us more than enough opportunity to thrash out those issues. In terms of financial management and the powers that are described to go along with it, my feeling very much is that if we are going to have this kind of safeguard within the system—. Let us not forget that it not only benefits the public and students, but also benefits those institutions themselves, because, essentially, proper financial management safeguards are a guarantee, a safeguard, or a kitemark, that Welsh HEIs can rely upon, in terms of their need to compete across the UK and further afield. My attitude would very much be that, when it comes to those powers, needs must, and we have to have those described within the legislation, and we must have that kind of way of operating.

O ran rheoliadau ac is-ddeddfwriaeth, ac yn y blaen, mae'r rhain yn faterion pwysig. Ymdrinnir â llawer ohonynt, wrth gwrs, yn y pwyllgor. Fodd bynnag, rwyf wedi cadw at yr egwyddorion y gallai'r pwerau hyn gael eu hystyried yn hanfodol. Mae angen iddynt fod yno os ydynt yn rhagnodi materion gweithdrefnol manwl ac yn darparu ar gyfer hyblygrwydd yn y dyfodol mewn cysylltiad â materion a all newid o bryd i'w gilydd. Mewn geiriau eraill, maent yn dechnegol ac yn darparu'r gallu i ymdopi wrth i amgylchiadau newid dros gyfnod o amser. Wrth gwrs, bydd proses y pwyllgor yn rhoi mwy na digon o gyfle inni fynd at wraidd y materion hynny. O ran rheolaeth ariannol a'r pwerau a ddisgrifir i gyd-fynd â hynny, fy nheimlad i yw os ydym yn mynd i gael y math hwn o amddiffyniad o fewn y system—. Gadewch inni beidio ag anghofio ei fod nid yn unig yn fuddiol i'r cyhoedd a myfyrwyr, ond hefyd o fudd i'r sefydliadau hynny eu hunain, oherwydd bod camau diogelu priodol o ran rheoli ariannol, yn y bôn, yn warant, yn ddiogelwch, neu'n nod barcud, y gall sefydliadau addysg uwch Cymru ddibynnu arnynt, o ran eu hangen i gystadlu ar draws y DU ac ymhellach i ffwrdd. Fy agwedd yn bendant fyddai, o ran y pwerau hynny, bod rhaid eu cael, a rhaid inni gael y rhai a ddisgrifir yn y ddeddfwriaeth, a rhaid inni gael y math hwnnw o ffordd o weithredu.

Regarding Simon Thomas's final remarks on the relaxation of the regime, well, I think that it is more like the marketisation of the regime in England. It is very interesting. I thank goodness that we are not following that route, personally. However, he is quite right to say that we need to keep a weather eye on developments in England and how they might impinge upon our policies here in Wales, and remember always that our border is very porous and that our nearest neighbour is very large in comparison with us.

O ran sylwadau terfynol Simon Thomas ar lacio'r gyfundrefn, wel, rwy'n credu ei bod yn debycach i farchnadeiddio'r drefn yn Lloegr. Mae'n ddiddorol iawn. Rwy'n diolch byth nad ydym yn dilyn y llwybr hwnnw, yn bersonol. Fodd bynnag, mae'n hollol iawn i ddweud bod angen i ni gadw llygad barcud ar ddatblygiadau yn Lloegr a sut y gallent effeithio ar ein polisïau ni yma yng Nghymru, a chofio bob amser nad yw ein ffin yn un solet o gwbl a bod ein cymydog agosaf yn fawr iawn o'i gymharu â ni.

15:46 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I thank you for your statement today. I welcome the stated need to ensure that the Welsh people have confidence that all HE across Wales is regulated and quality assured, whether it is delivered within Wales or outside Wales, because that is also an element of the Bill.

Weinidog, rwy'n diolch i chi am eich datganiad heddiw. Rwy'n croesawu'r angen a nodwyd i sicrhau bod pobl Cymru yn hyderus bod pob sefydliad AU ar draws Cymru yn cael ei reoleiddio ac y sicrheir ei ansawdd, p'un a yw'n cael ei ddarparu yng Nghymru neu'r tu allan i Gymru, oherwydd mae hwnnw hefyd yn elfen o'r Bil.

I just want to focus on a simple point, which is on part-time provision. May I ask why the Welsh Government did not take the opportunity to look carefully at part-time funding aspects and to include them in this? The explanatory memorandum indicates that it is there for future use. However, there could have been an opportunity to include it now, so that all provision is covered. As a consequence, it appears to me that there is perhaps going to be some non-regulation of some institutions because they deliver part-time courses only. Therefore, it is not quite clear who will and who will not be regulated, in terms of who delivers HE provision in Wales.

Rwyf eisiau canolbwyntio ar bwynt syml, sef darpariaeth ran-amser. A gaf i ofyn pam na wnaeth Llywodraeth Cymru gymryd y cyfle i edrych yn ofalus ar agweddau sy'n ymwneud ag ariannu darpariaeth ran-amser a'u cynnwys yn hyn? Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi ei fod yno ar gyfer defnydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, gellid bod wedi cael cyfle i'w gynnwys yn awr, fel bod yr holl ddarpariaeth yn cael ei chynnwys. O ganlyniad, mae'n ymddangos i mi efallai na fydd rhai sefydliadau'n cael eu rheoleiddio am eu bod yn darparu cyrsiau rhan-amser yn unig. Felly, nid yw'n hollol glir pwy fydd a phwy na fydd yn cael eu rheoleiddio, o ran pwy sy'n cyflwyno darpariaeth AU yng Nghymru.

I also want to ask about quality assurance. In your statement, Minister, you say that the Bill will:

Rwyf hefyd am ofyn ynglŷn â sicrwydd ansawdd. Yn eich datganiad, Weinidog, rydych yn dweud y bydd y Bil yn:

'require HEFCW to assess the quality of higher education provision and enable it to take steps in relation to inadequate quality.'

'ei gwneud yn ofynnol i CCAUC asesu ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch ac yn ei alluogi i gymryd camau mewn perthynas ag ansawdd annigonol.'

That is not totally true. Again, your explanatory memorandum says:

Nid yw hynny'n hollol wir. Unwaith eto, mae eich memorandwm esboniadol yn dweud:

'There may be a small number of institutions...which only deliver part-time HE courses. Part-time provision delivered by these providers will fall outside the scope of HEFCW's new quality assessment duty.'

'Efallai y bydd nifer fach o sefydliadau...sydd ond yn darparu cyrsiau AU rhan-amser. Bydd darpariaeth ran-amser y darparwyr hyn yn syrthio y tu allan i gwmpas dyletswydd newydd CCAUC i asesu ansawdd.'

It also states, however, that HEFCW will be able to maintain quality assessment arrangements. Again, how are we going to ensure the quality assurance of those courses being delivered by institutions that are part-time providers only? There could be FE institutions in that category that may even be franchisees of English institutions. So, it is important how we assess that.

Mae hefyd yn nodi, fodd bynnag, y bydd CCAUC yn gallu cynnal trefniadau asesu ansawdd. Unwaith eto, sut rydym yn mynd i sicrhau ansawdd y cyrsiau hynny sy'n cael eu cyflwyno gan sefydliadau sy'n ddarparwyr rhan-amser yn unig? Gallai'r categori gynnwys sefydliadau AB hyd yn oed sy'n ddeiliaid masnachfraint sefydliadau yn Lloegr. Felly, mae'n bwysig sut rydym yn asesu hynny.

Could you also indicate why you have not included a case-by-case designation of courses in the Bill? You have gone for overall inclusion, but not case by case. This is an example where case by case may be an aspect of ensuring that regulation can take place for some courses.

A allech hefyd ddangos pam nad ydych wedi dynodi cyrsiau fesul achos yn y Bil? Rydych wedi penderfynu cynnwys ar lefel gyffredinol, ond nid fesul achos. Mae hon yn enghraifft lle y gall dynodi fesul achos fod yn agwedd o sicrhau y gellir rheoleiddio rhai cyrsiau.

Finally, and I will keep this simple, you have indicated to Simon Thomas about the maturity of institutions at FE level. Simon Thomas was talking about FE level with the last Bill. The Bill, to me, indicates the maturity of HEFCW. I personally do not think that the organisation should be called HEFCW afterwards. However, in terms of maturity, you have indicated that it is envisaged that it will use the same measures to assure quality by, basically, employing QAA. There is no requirement in the Bill, however, to report or to ensure that that mechanism is used, thereby ensuring consistency of quality assurance across the Welsh institutions and ensuring that it is the same as in the English institutions. Welsh students go to both, and it is critical that we ensure that standards across the range are equal. Therefore, how will you ensure that the process—. I do not envisage that they will not do it, but how will ensure that the process will be consistent and that they will use the same mechanisms as elsewhere?

Yn olaf, a byddaf yn cadw hyn yn syml, rydych wedi sôn wrth Simon Thomas am aeddfedrwydd sefydliadau ar lefel AB. Roedd Simon Thomas yn sôn am lefel AB gyda'r Bil diwethaf. Mae'r Bil, i mi, yn dangos aeddfedrwydd CCAUC. Nid wyf yn bersonol yn credu y dylai'r sefydliad gael ei alw'n CCAUC wedyn. Fodd bynnag, o ran aeddfedrwydd, rydych wedi nodi y rhagwelir y bydd yn defnyddio'r un mesurau i sicrhau ansawdd trwy, yn y bôn, ddefnyddio ASA. Nid oes unrhyw ofyniad yn y Bil, fodd bynnag, i roi adroddiad neu i sicrhau bod y mecanwaith hwnnw'n cael ei ddefnyddio, a thrwy hynny sicrhau cysondeb o ran sicrwydd ansawdd ar draws sefydliadau Cymru a sicrhau ei fod yr un fath ag yn y sefydliadau yn Lloegr. Mae myfyrwyr o Gymru yn mynd i'r ddau, ac mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod safonau'n gyfartal ar draws y cyfan. Felly, sut byddwch chi'n sicrhau bod y broses—. Nid wyf yn rhagweld na fyddant yn gwneud hynny, ond sut mae sicrhau y bydd y broses yn gyson ac y byddant yn defnyddio'r un dulliau ag mewn mannau eraill?

15:49

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank David Rees for those points. His first question was: why not part-time provision, and why can we not read about this here? There is a very simple reason for that, and it relates to a point that was made earlier. I have specifically tasked Professor Ian Diamond to look at part-time provision and support for it here in Wales, with a view to engendering a protective regime around part-time provision in Wales. I am particularly keen that we do not follow the English example, as pushed through by the coalition Government, of the changes that it has made to the regime around part-time provision, which has led to a catastrophic collapse in the take-up of part-time courses. So, I am very keen that we make sure that we can build in the provision for part-time courses at a later date, but we will need to understand in this instance, clearly, what Professor Ian Diamond has to say about how we can resource and implement that sort of protection.

Diolch i David Rees am y pwyntiau hynny. Ei gwestiwn cyntaf oedd: pam ddim darpariaeth ran-amser, a pham na allwn ddarllen am hynny yma? Mae rheswm syml iawn am hynny, ac mae'n ymwneud â phwynt a wnaed yn gynharach. Rwyf wedi gofyn yn benodol i'r Athro Ian Diamond edrych ar ddarpariaeth ran-amser a chymorth ar ei gyfer yma yng Nghymru, gyda'r bwriad o feithrin trefn amddiffyn o amgylch darpariaeth ran-amser yng Nghymru. Rwy'n arbennig o awyddus nad ydym yn dilyn esiampl Lloegr, a gafodd ei gwthio drwodd gan y Llywodraeth glymblaid, o ran y newidiadau y mae wedi'u gwneud i'r gyfundrefn o gwmpas darpariaeth ran-amser, gan arwain at gwymp trychinebus yn y niferoedd sy'n manteisio ar gyrsiau rhan-amser. Felly, rwy'n awyddus iawn ein bod yn gwneud yn siŵr y gallwn gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer cyrsiau rhan-amser yn nes ymlaen, ond bydd angen inni ddeall yn yr achos hwn, yn amlwg, yr hyn sydd gan yr Athro Ian Diamond i'w ddweud am sut y gallwn ddarparu'r adnoddau a gweithredu'r math hwnnw o ddiogelwch.

Now, those quality issues that David Rees is concerned about are very important and we need to make sure that we hammer them out. There is that crossover between HE and FE, for instance, and the relationship between what Estyn does in FE and what the parent HE institution might be responsible for and how that relates to HEFCW in terms of HE delivered in FE. There are all sorts of categories here that we will have to go through to make sure that everything fits together, but, among all this, I do not anticipate any great change in the way that HEFCW is already used to working with the QAA in terms of those service level agreements that already exist. In terms of the QAA and HEFCW working together, they are used to that form of working. There will now be something of a different role for HEFCW, particularly—well, obviously—within the Welsh context, but those ways of working are pretty well rehearsed, although we will need to make sure that we get the legislation that surrounds them absolutely right and, of course, first of all, do no harm in terms of what we understand from current arrangements, which seem to work largely very well.

Nawr, mae'r materion ansawdd hynny y mae David Rees yn pryderu amdanynt yn bwysig iawn ac mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn cael trefn arnynt. Ceir y gorgyffwrdd hwnnw rhwng AU ac AB, er enghraifft, a'r berthynas rhwng yr hyn y mae Estyn yn ei wneud ym maes Addysg Bellach a'r hyn y gallai'r sefydliad rhiant AU fod yn gyfrifol amdano a sut mae hynny'n berthnasol i CCAUC o ran darparu AU mewn AB. Mae amrywiaeth o gategorïau yma y bydd yn rhaid inni fynd trwyddynt i wneud yn siŵr bod popeth yn cyd-fynd â'i gilydd, ond, ymhlith hyn i gyd, nid wyf yn rhagweld unrhyw newid mawr yn y ffordd y mae CCAUC eisoes wedi arfer gweithio gyda'r ASA o ran y cytundebau lefel gwasanaeth hynny sydd eisoes yn bodoli. O ran yr ASA a'r CCAUC yn gweithio gyda'i gilydd, maent wedi arfer â gweithio yn y ffordd honno. Bellach bydd rhywfaint o rôl wahanol i CCAUC, yn enwedig—wel, yn amlwg—o fewn y cyd-destun Cymreig, ond mae'r ffyrdd hynny o weithio wedi cael eu hymarfer yn eithaf da, er y bydd angen inni wneud yn siŵr ein bod yn cael y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol iddynt yn hollol iawn ac, wrth gwrs, yn gyntaf oll, peidio â gwneud unrhyw niwed o ran yr hyn yr ydym yn ei ddeall o'r trefniadau presennol, sydd i'w gweld yn gweithio'n dda iawn ar y cyfan.

O ran materion fesul achos, ie, byddwn yn darparu ar gyfer hyn o fewn y ddeddfwriaeth. Nid ydym am hepgor y dewis i reoli ansawdd a chofrestru fesul achos ac yn y blaen. Felly, bydd hynny'n cael ei gynnwys fel rhan o'r hyn y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei wneud.

In terms of case-by-case issues, yes, we will cater for this within the legislation. We do not want to leave out the option for case-by-case quality control and registration and so on. So, that will feature as part of what the legislation is intended to do.

15:52

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i hefyd ddiolch i chi am y cyfarfodydd yr wythnos diwethaf ynghylch y Bil? Hefyd, fel siaradwyr eraill, rwy'n cyfaddef bod angen inni ailedrych ar y sefyllfa a'r berthynas rhwng y Llywodraeth a HEFCW yn dilyn y newidiadau i'r ffordd y mae prifysgolion yn cael eu hariannu.

May I also thank you for the meetings last week on the Bill? Also, like other speakers, I admit that there is a need for us to revisit the situation and the relationship between the Government and HEFCW following the changes to the way that universities are funded.

Rwyf hefyd yn derbyn bod mwy o fanylder yn y Bil nag mewn rhai eraill rydym wedi eu hystyried yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Er hynny, mae llawer o drafodaeth ynglŷn â'r defnydd a wneir gan y Llywodraeth o reoliadau yn hytrach nag unrhyw system arall. Fel y dywedodd Simon Thomas, mae mwy nag un esiampl lle mae'r broses negyddol yn cael ei defnyddio unwaith eto. A gaf ofyn i chi felly ynglŷn â'r cod? Mae'r drafodaeth, mae'n debyg, yn mynd i ddigwydd yn y pwyllgor. Mae'r memorandwm esboniadol yn cyfaddef yn yr ymgynghoriad technegol bod mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn credu bod angen i'r Llywodraeth ddod â'r cod drafft gerbron y Cynulliad ar ôl i HEFCW ymgynghori arno, ond nid yw'r Llywodraeth wedi derbyn hynny wrth ddrafftio'r Bil hwn. Felly, pam nad ydych yn fodlon dod â'r cod gerbron, o ystyried ein bod ni fel Cynulliad yn rhoi'r grym i'r Gweinidog, drwy HEFCW yn y sefyllfa honno, ymyrryd mewn prifysgolion, ac a ydych yn barod i gyfaddef bod y grym i ymyrryd uwchlaw materion ariannol yn y prifysgolion? Rwy'n meddwl bod nifer o gwestiynau wedi codi o ran hynny.

I also accept that there is more detail in the Bill than in others that we have seen in the last two years. However, there is much discussion of the use made by the Government of regulations rather than any other system. As Simon Thomas said, there is more than one example of the negative procedure being used again. May I ask you, therefore, about the code? The discussion is probably going to happen in committee. The explanatory memorandum admits in the technical consultation that the majority of those who responded to the consultation believed that the Government needed to bring the draft code before the Assembly following HEFCW's consultation on it, but the Government has not accepted that in drafting this Bill. So, why are you not willing to bring the code before the Assembly, given that the Assembly is giving the Minister the power, through HEFCW in this situation, to intervene in universities, and are you willing to admit that the power to intervene goes over and above financial issues in universities? I think that a number of questions have arisen in terms of that.

Mae Simon Thomas eto wedi sôn am y ffigur sy'n cael ei wario ar brifysgolion ar hyn o bryd. Mae'r memorandwm yn dweud mai'r prif reswm bod angen dod â'r Bil gerbron yw'r ffaith bod rheolaeth ariannol wedi newid. Felly, a ydych yn fodlon bod yr holl gostau sydd ynghlwm wrth y ddeddfwriaeth hon yn gywir ac a ydych wedi cytuno ar y costau hynny gyda'r prifysgolion a'r sector ei hun?

Simon Thomas again talked about the figure currently spent on universities. The memorandum says that the main reason that we need to bring this Bill forward is the fact that financial management has changed. So, are you content that all of the costs involved in this legislation are correct and that you have agreed on those costs with the universities and the sector itself?

Un peth y bydd yn rhaid inni edrych arno yn y pwyllgor yw hyn: i ryw raddau mae'r ffordd yr ydych yn mynd ar ei hyd o ran y prifysgolion yn gwbl groes i'r ffordd sy'n cael ei defnyddio o ran y colegau addysg bellach, lle roedd y grym yn symud i'r colegau addysg bellach o law'r Llywodraeth, ac eto mae tipyn bach o nerfusrwydd o fewn y sector bod y grym yn cael ei dynnu yn ôl i ddwylo'r Gweinidog. Felly, a ydych wedi cael unrhyw fath o drafodaeth â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol neu a oes angen i ni, fel pwyllgor, gynnal trafodaethau â'r ONS er mwyn inni fod yn fodlon nad yw rheolaeth dros y sector yn cael ei greu?

One thing that we will have to look at it in committee is this: to some extent, the route that you are taking on universities is completely contrary to that taken with further education colleges, where power is moving to the further education colleges from the Government, yet there is a little bit of nervousness within the sector that the powers are being pulled back to the Minister's hands. So, have you had any sort of discussion with the ONS or do we, as a committee, need to hold discussions with the ONS in order for us to be content that control over the sector is not being created?

Hoffwn ofyn ddau beth arall. O fewn y memorandwm, mae sôn am 'territorial extent' ac mae'r Llywodraeth yn dweud ei bod am gael Gorchymyn o dan adran 150 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn rheoleiddio'r cyrsiau sy'n cael eu cynnal yn Lloegr gan sefydliadau o Gymru. A ydych wedi cael unrhyw fath o drafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â hynny? Rwy'n credu y gwnaf ei gadael ar hynny.

I would like to ask two more things. In the memorandum, there is talk of ' territorial extent' and the Government says that it wants to have an Order under section 150 of the Government of Wales Act 2006 for the purpose of regulating the courses being held in England by Welsh institutions. Have you had any sort of discussions with the UK Government on that? I think that I will leave it at that.

15:56 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Aled Roberts for those comments and observations. He is quite right to say that there are proposals for the use of the negative procedure in terms of regulations. The explanatory memorandum sets out why I consider that the majority of regulations should be subject to the negative resolution procedure. In short, that procedure is suitable for regulations where the detail is of a technical nature and may change from time to time. As I have said, I am more than willing to justify and to listen to the concerns that Members might have as we proceed with the passage of the Bill. I know that it is a live issue for many Assembly Members.

In terms of the code and bringing it before the Assembly, the code is the tool of HEFCW's intervention. It would be a matter for HEFCW, really, to implement the code. However, again, I am more than happy, if there are concerns from Members, to make sure that concerns are allayed or that we have a proper drilling down into those issues to ensure that there that there are no hostages to fortune within the legislation in that regard. I would reassure the sector, if there are nervous individuals within the sector who are worried about powers being pulled back, that, if you take a step back from this legislation and look at it in the round, essentially, it is largely about continuity. It is about ensuring that those things that defined the relationship between HEFCW, Government and the sector in the past can continue to operate, given that the levers that HEFCW once was able to pull in financial terms—in terms of allocation of money or non-allocation of money—have largely been taken away. So, how do we maintain continuity of relationships given that that has happened? I would say that he is not entirely wrong: there are aspects to this that are new and the one that I am particularly keen to promote and to win friends for is that demand that we have a sustained, coherent and consistent commitment across Wales to access issues that does not necessarily rely on the flaring up of examples of best practice, which are then allowed to die away again, and that we build this into the bricks and mortar of the year-to-year, day-to-day working of each and every institution. In terms of section 150, we have been and are in dialogue with the Wales Office concerning those issues that will need to be hammered out about courses offered by Welsh HEIs that may be happening elsewhere, mainly in England. Those discussions are ongoing, and we will be able to talk about those in much greater detail as legislation develops.

Diolch i Aled Roberts am y sylwadau a'r safbwyntiau hynny. Mae'n hollol iawn i ddweud bod cynigion ar gyfer defnyddio'r weithdrefn negyddol o ran rheoliadau. Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi pam yr wyf o'r farn y dylai'r rhan fwyaf o'r rheoliadau fod yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol. Yn gryno, mae'r weithdrefn honno'n addas ar gyfer rheoliadau lle mae'r manylion yn dechnegol eu natur a lle y gallant newid o bryd i'w gilydd. Fel y dywedais, rwy'n fwy na pharod i gyfiawnhau ac i wrando ar bryderon a allai fod gan Aelodau wrth inni fwrw ymlaen â hynt y Bil. Gwn ei fod yn fater byw i lawer o Aelodau'r Cynulliad.

O ran y cod a dod ag ef gerbron y Cynulliad, y cod yw dull ymyrraeth CCAUC. Mater i CCAUC, mewn gwirionedd, fyddai gweithredu'r cod. Fodd bynnag, unwaith eto, os oes gan Aelodau bryderon, rwy'n fwy na pharod i sicrhau bod pryderon yn cael eu lleddfu neu ein bod yn archwilio'n fanwl ac yn briodol i'r materion hynny er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wystlon ffawd yn y ddeddfwriaeth yn hynny o beth. Byddwn yn tawelu meddwl y sector, os oes unigolion nerfus o fewn y sector sy'n poeni y bydd pwerau'n cael eu tynnu'n ôl, bod y ddeddfwriaeth hon, os byddwch yn cymryd cam yn ôl ac yn edrych arni yn ei chyfanrwydd, yn y bôn, yn ymwneud yn bennaf â pharhad. Mae'n ymwneud â sicrhau bod y pethau hynny a oedd yn diffinio'r berthynas rhwng CCAUC, y Llywodraeth a'r sector yn y gorffennol yn gallu parhau i weithredu, o ystyried bod yr ysgogiadau yr oedd CCAUC yn arfer gallu eu gweithredu o safbwynt ariannol—o ran dyrannu arian neu beidio â dyrannu arian—wedi cael eu cymryd oddi arno i raddau helaeth. Felly, sut rydym ni'n cynnal parhad y berthynas o gofio bod hynny wedi digwydd? Byddwn yn dweud nad yw'n gwbl anghywir: mae yna agweddau ar hyn sy'n newydd a'r un rwy'n arbennig o awyddus i'w hyrwyddo ac i ennill ffrindiau iddi yw'r alwad i sicrhau bod gennym ymrwymiad parhaus, cydlynol a chyson ar draws Cymru i faterion mynediad, heb ddibynnu o reidrwydd ar amlygu enghreifftiau o arfer gorau, gan ganiatáu iddynt gael eu hanghofio wedyn, ac i sicrhau ein bod yn adeiladu hyn i mewn i frics a morter gwaith pob un sefydliad o flwyddyn i flwyddyn ac o ddydd i ddydd. O ran adran 150, rydym wedi bod yn trafod, ac rydym yn dal i drafod gyda Swyddfa Cymru ynghylch y materion hynny y bydd angen cael trefn arnynt o ran cyrsiau a gynigir gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ac a all fod yn cael eu darparu mewn lleoedd eraill, yn bennaf yn Lloegr. Mae'r trafodaethau hynny'n parhau, a byddwn yn gallu siarad am y rhain yn llawer mwy manwl wrth i'r ddeddfwriaeth ddatblygu.

16:00 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not know whether the Minister has yet had the opportunity to read the very weak and conservative response from the vice-chancellors' lobby today. To my mind, it borders on the hysterical. If he has not read it, I would urge him not to waste too much time on it. I think that what is being brought forward is the bear minimum, really, that is necessary to ensure that, in the new fees regime, it is possible to ensure that higher education institutions respond properly to issues of access and other issues related to financial management. There seems to me to be a very significant amount of detail indeed in the explanatory memorandum underpinning the Bill, which should give great clarity to those in the sector as to what is intended. Can I urge the Minister also to give further consideration, if not as this Bill goes through, but subsequently, to some of the outstanding proposals of the McCormick review into governance of higher education in Wales, both at an institutional and a national level? I say to him that I think that he is doing absolutely the right thing in this Bill. It is far less draconian, in fact, than the measures that were brought in by the SNP in Scotland in their Post-16 Education (Scotland) Bill last year. So, I would urge him not to pay too much attention to the murmurings of the vice-chancellors.

Nid wyf yn gwybod a yw'r Gweinidog wedi cael y cyfle eto i ddarllen yr ymateb gwan a cheidwadol iawn gan lobi'r is-gangellorion heddiw. Yn fy marn i, mae'n ymylu ar fod yn hysterig. Os nad yw wedi ei ddarllen, byddwn yn ei annog i beidio â gwastraffu gormod o amser arno. Rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n cael ei ddwyn ymlaen yw'r isafswm lleiaf, mewn gwirionedd, sydd ei angen i sicrhau, yn y drefn ffïoedd newydd, bod modd sicrhau bod sefydliadau addysg uwch yn ymateb yn briodol i faterion mynediad a materion eraill sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol. Ymddengys i mi fod llawer iawn o fanylder yn wir yn y memorandwm esboniadol sy'n sail i'r Bil, a dylai wneud pethau'n eglur iawn i'r rheiny yn y sector o ran yr hyn a fwriedir. A gaf i annog y Gweinidog hefyd i roi rhagor o ystyriaeth, ar ôl i'r Bil hwn fynd drwyddo os nad wrth iddo fynd trwyddo, i rai o gynigion adolygiad McCormick o drefniadau llywodraethu addysg uwch yng Nghymru, ar lefel sefydliad ac yn genedlaethol? Rwy'n dweud wrtho fy mod yn meddwl ei fod yn bendant yn gwneud y peth iawn yn y Bil hwn. Mae'n llawer llai llym, mewn gwirionedd, na'r mesurau a gyflwynwyd gan Blaid Genedlaethol yr Alban yn yr Alban yn eu Bil Addysg Ôl-16 (yr Alban) y llynedd. Felly, byddwn yn ei annog wrtho i beidio â rhoi gormod o sylw i rwgnach yr is-gangellorion.

16:02 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the Rhondda for those insights and comments. Yes, I have read the response of Higher Education Wales, which followed rapidly upon its receipt of today's news, and I have to say that I was—well, it is almost a euphemism to say that I was disappointed in terms of the tone and the content, especially when you consider that, since the White Paper was published back in 2012, numerous conversations have been held between officials, Ministers and the sector itself. This response today is not worthy of the subject matter, and I would appeal to it to rapidly raise its game in terms of the level of input that we would expect, and that the public would expect. We really need constructive dialogue and engagement in order to get these issues progressed. In many points that HEW made today, it almost seemed to have disregarded all conversations that had gone before, and has suddenly woken up to the situation as it is. We know that it has had a great deal of time to think about this, and we need it, as an active and intelligent partner in the development of this legislation. Let us hope that this particular press release today does not signal the level of engagement that we might be able to expect from HEW.

Rwy'n diolch i'r Aelod dros y Rhondda am y syniadau a'r sylwadau hynny. Ydw, rwyf wedi darllen ymateb Addysg Uwch Cymru, a gyhoeddwyd yn gyflym ar ôl iddo dderbyn newyddion heddiw, ac mae'n rhaid i mi ddweud fy mod—wel, mae bron yn fwythair i ddweud fy mod yn siomedig o ran y tôn a'r cynnwys, yn enwedig pan fyddwch yn ystyried bod nifer o sgyrsiau wedi'u cynnal, ers i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi yn ôl yn 2012, rhwng swyddogion, Gweinidogion a'r sector ei hun. Nid yw'r ymateb hwn heddiw yn deilwng o'r pwnc, a byddwn yn apelio iddo gynyddu ei ymdrechion yn gyflym o ran lefel y cyfraniad y byddem yn ei ddisgwyl, ac y byddai'r cyhoedd yn ei ddisgwyl. Mae gwir angen deialog ac ymgysylltu adeiladol er mwyn symud y materion hyn ymlaen. Mewn llawer o bwyntiau a wnaeth AUC heddiw, mae bron fel petai wedi diystyru pob sgwrs a gafwyd yn flaenorol, a newydd ddeffro'n sydyn a sylweddoli beth yw'r sefyllfa. Rydym yn gwybod ei fod wedi cael llawer iawn o amser i feddwl am hyn, ac mae ei angen arnom, fel partner gweithredol a deallus yn y broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon. Gadewch inni obeithio nad yw'r datganiad penodol hwn i'r wasg heddiw yn arwydd o lefel yr ymgysylltu y gallem ei ddisgwyl gan Addysg Uwch Cymru.

I would say—and I may disappoint the Member for the Rhondda in terms of my response to the second part of his question—that this Bill is really not about HE governance. He will recall the McCormick report and the issues that arose as regards the Office for National Statistics reclassification and so on. At least in terms of the passage of this legislation, I would not wish to muddy the waters in terms of those particular issues. This legislation has a specific and very important purpose, and it does not necessarily relate to the ground covered by McCormick.

Byddwn yn dweud—ac efallai y byddaf yn siomi'r Aelod dros y Rhondda o ran fy ymateb i ail ran ei gwestiwn—nad yw'r Bil hwn mewn gwirionedd yn ymwneud â llywodraethu AU. Bydd yn cofio adroddiad McCormick a'r materion a gododd o ran ailddosbarthu a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac yn y blaen. O leiaf o ran hynt y ddeddfwriaeth hon, ni fyddwn yn dymuno achosi dryswch o ran y materion penodol hynny. Mae gan y ddeddfwriaeth hon bwrpas penodol a phwysig iawn, ac nid yw o reidrwydd yn ymwneud â'r hyn yr oedd McCormick yn ei gwmpasu.

16:04 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the Minister for his statement today. As Chair of the Children, Young People and Education Committee I thought that I was looking forward to scrutinising the Bill, but I am having second thoughts now, having heard some of the comments from Members. However, the Bill seemed to be the next logical step, and I think that you mentioned the fact that the funding landscape in Wales has changed, with more funding reaching universities through the pockets of the students, and that means that less money is being channelled through the funding body, HEFCW. So, I believe that the Bill will give HEFCW or the funding body the statutory teeth that it would need to ensure quality and fair access to all our HE institutions.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg roeddwn yn meddwl fy mod yn edrych ymlaen at graffu ar y Bil, ond rwy'n dechrau ailfeddwl yn awr, ar ôl clywed rhai o'r sylwadau gan yr Aelodau. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos mai'r Bil oedd y cam rhesymegol nesaf, a chredaf eich bod wedi cyfeirio at y ffaith bod y sefyllfa wedi newid yng Nghymru o ran cyllid, gyda mwy o arian yn cyrraedd prifysgolion drwy bocedi'r myfyrwyr, ac mae hynny'n golygu bod llai o arian yn cael ei sianelu drwy'r corff cyllido, CCAUC. Felly, rwy'n credu y bydd y Bil yn rhoi'r dannedd statudol i CCAUC neu'r corff ariannu y byddai arno'u hangen i sicrhau ansawdd a mynediad teg i bob un o'n sefydliadau AU.

The Finance Committee's report into higher education funding has now been published, and through that we heard of the investment that the Government has put into it: more than £800 million in tuition fee grant support, more than £750 million in maintenance grants and around £1.8 billion in tuition fees and maintenance loan support, and that is over the lifetime of this Government. So, I think that that needs to be remembered. That has ensured that Wales has a robust and sustainable system of funding Welsh higher education. It has enabled students here in Wales to access the best student finance regime available across the UK, and I am glad to see that 'The Guardian' newspaper also thought that in a recent article.

Mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllid addysg uwch wedi cael ei gyhoeddi, a thrwy hynny clywsom am yr arian y mae'r Llywodraeth wedi'i fuddsoddi ynddo: mwy nag £800 miliwn mewn cymorth grant ar gyfer ffïoedd dysgu, mwy na £750 miliwn mewn grantiau cynhaliaeth ac o gwmpas £1.8 biliwn mewn cymorth ar gyfer ffïoedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth, ac mae hynny dros oes y Llywodraeth hon. Felly, credaf fod angen cofio hynny. Mae hynny wedi sicrhau bod gan Gymru system gadarn a chynaliadwy o gyllido addysg uwch Cymru. Mae wedi galluogi myfyrwyr yma yng Nghymru i fanteisio ar y gyfundrefn cyllid myfyrwyr orau sydd ar gael ar draws y DU, ac rwy'n falch o weld bod papur newydd 'The Guardian' hefyd yn meddwl hynny mewn erthygl ddiweddar.

So, Minister, would you agree that if the Welsh HE institutions and the courses that they provide are to be beneficial to developing and marketing Welsh HE as world leading, we need to get this framework Bill right? I hope that the scrutiny of our committee will assist you to do that.

Felly, Weinidog, a fyddech yn cytuno bod angen inni gael y Bil fframwaith hwn yn iawn, er mwyn i sefydliadau AU Cymru a'r cyrsiau y maent yn eu darparu fod o fudd i ddatblygu a marchnata AU Cymru fel sector sy'n arwain y byd? Rwy'n gobeithio y bydd gwaith craffu ein pwyllgor yn eich helpu i wneud hynny.

16:06 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Ann Jones for those comments. I share her view entirely—and I think that this is a cross-party feeling that I am picking up on here in the Chamber this afternoon—that there is an obvious need for this legislation. Working together to mould it correctly is the job of work that is in front of us, and the need for the legislation is not the question at issue.

Diolch i Ann Jones am y sylwadau hynny. Rwy'n rhannu ei barn yn gyfan gwbl—a chredaf fod hwn yn deimlad trawsbleidiol yr wyf yn ei synhwyro yma yn y Siambr brynhawn heddiw—fod angen amlwg am y ddeddfwriaeth hon. Gweithio gyda'n gilydd i'w mowldio'n gywir yw'r gwaith sydd o'n blaen, ac nid yr angen am ddeddfwriaeth yw'r cwestiwn dan sylw.

We should recall the commitment of the Welsh public and Welsh taxpayer to the higher education sector. Almost solely alone in the public realm, HE institutions in Wales can look forward to resource increases from the public purse well above inflation from now until at least 2020. There are sectors of the public realm that would look with very envious eyes at the support being offered by the Welsh public to the HE sector in Wales. That is backed up, of course, by what I believe is the fairest and most generous student support structure anywhere in the United Kingdom. With that in mind, the Welsh public deserves, and should expect, a structured conversation about what constitutes the public good in return for that social investment in HEIs.

Dylem gofio ymrwymiad y cyhoedd yng Nghymru a threthdalwyr Cymru i'r sector addysg uwch. Sefydliadau AU yng Nghymru yw'r unig rai bron yn y sector cyhoeddus sy'n gallu edrych ymlaen at dderbyn mwy o adnoddau o'r pwrs cyhoeddus llawer uwch na chwyddiant o hyn tan o leiaf 2020. Mae rhannau o'r sector cyhoeddus a fyddai'n edrych â llygaid cenfigennus iawn ar y cymorth sy'n cael ei gynnig gan y cyhoedd yng Nghymru i'r sector AU yng Nghymru. Mae hwnnw'n cael ei gefnogi, wrth gwrs, gan y strwythur cymorth tecaf a mwyaf hael i fyfyrwyr unrhyw le yn y Deyrnas Unedig, yn fy marn i. Gyda hynny mewn golwg, mae'r cyhoedd yng Nghymru yn haeddu, a dylent ddisgwyl, sgwrs strwythuredig ynghylch beth yw lles y cyhoedd yn gyfnewid am y buddsoddiad cymdeithasol hwnnw mewn sefydliadau addysg uwch.

The correct shaping of this legislation will give us a structure around those issues to enable partners to work together to ensure that, given the autonomy of the institutions, we still have a lively and profitable conversation about what constitutes the best for Welsh society, the Welsh economy and for Welsh learners.

Trwy lunio'r ddeddfwriaeth hon yn gywir, bydd gennym strwythur o amgylch y materion hynny i alluogi partneriaid i weithio gyda'i gilydd i sicrhau ein bod yn dal i gael sgwrs fywiog a phroffidiol ynghylch beth sydd orau ar gyfer cymdeithas Cymru, economi Cymru ac ar gyfer dysgwyr Cymru, gan ystyried ymreolaeth y sefydliadau,.

16:08

# Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014

# The Rating Lists (Postponement of Compilation) (Wales) Order 2014

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to move the motion—Edwina Hart

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gynnig y cynnig—Edwina Hart

Cynnig NDM5508 Lesley Griffiths

Motion NDM5508 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ebrill 2014.

Approves that the draft The Rating Lists (Postponement of Compilation) (Wales) Order 2014 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 15 April 2014.

16:09

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

16:09

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I realise that we are almost too late in objecting. I accept that, Minister, but I regret that we did not make more of a complaint before. The Welsh Conservatives have long held the view that we wish to help small businesses in Wales. I know that the Minister is sympathetic to that. However, we feel that if this revaluation were to be carried out in 2015, there would have been a substantial reduction in rateable value right across Wales, as rents have gone down since 2010. This is not the case, and it will not now take place until 2017 anyway. However, we shall abstain from the vote.

Rwy'n sylweddoli ein bod yn bron yn rhy hwyr yn gwrthwynebu. Rwy'n derbyn hynny, Weinidog, ond rwy'n gresynu na wnaethom gwyno mwy o'r blaen. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi bod o'r farn ers amser ein bod yn dymuno helpu busnesau bach yng Nghymru. Gwn fod y Gweinidog yn cydymdeimlo â hynny. Fodd bynnag, rydym yn teimlo pe byddai'r ailbrisio hwn yn cael ei gynnal yn 2015, byddai gostyngiad sylweddol wedi bod yn y gwerth ardrethol ar draws Cymru, gan fod rhenti wedi gostwng ers 2010. Nid felly mae hi, ac ni fydd yn awr yn digwydd tan 2017 beth bynnag. Fodd bynnag, byddwn yn ymatal rhag pleidleisio.

16:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ateb.

16:09 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Senedd.tv Fideo Video

I did announce last year my intention to postpone the revaluation exercise until 2017, in line with England and Scotland. I was disappointed by the UK Government's decision to do this. At the same time, I did have cross-party consensus that I would follow the same line that had been taken in England and Scotland. You will be aware that there are technical and economic reasons for Wales to implement the revaluation at the same time as England and Scotland, of course, because of the cross-border interrelationship between businesses here and in England. Therefore, I did this on the recommendations that came from my group. I accept that there are some issues in relation to this, and that is why we have been doing some work to support businesses in the interim.

Fe wnes i gyhoeddi fy mwriad y llynedd i ohirio'r ymarfer ailbrisio tan 2017, yn unol â Lloegr a'r Alban. Cefais fy siomi gan benderfyniad Llywodraeth y DU i wneud hyn. Ar yr un pryd, cefais gonsensws trawsbleidiol y byddwn yn dilyn yr un llwybr â'r un a gymerwyd yn Lloegr a'r Alban. Byddwch yn ymwybodol bod rhesymau technegol ac economaidd dros weithredu'r ymarfer ailbrisio yng Nghymru yr un pryd ag y Lloegr a'r Alban, wrth gwrs, oherwydd y rhyngberthynas draws-ffiniol rhwng busnesau yma ac yn Lloegr. Felly, gwneuthum hyn ar yr argymhellion a ddaeth o'm grŵp. Rwy'n derbyn bod rhai problemau mewn cysylltiad â hyn, a dyna pam yr ydym wedi bod yn gwneud rhywfaint o waith i gefnogi busnesau yn y cyfamser.

16:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection. Therefore, I defer voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Felly, rwy'n gohirio'r bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb—Fframwaith Gweithredu

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, and amendment 3 in the name of Paul Davies.*

## Tackling Hate Crimes and Incidents—A Framework for Action

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 3 yn enw Paul Davies.*

16:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig—Jeff Cuthbert.

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Jeff Cuthbert.

Cynnig NDM5507 Lesley Griffiths

Motion NDM5507 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' a'r Cynllun Cyflawni ategol, a lansiwyd ar 12 Mai 2014.

Notes 'Tackling Hate Crimes and Incidents: A Framework for Action' and the supporting Delivery Plan, launched on 12 May 2014.

16:10 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I thank Members for the opportunity to debate 'Tackling Hate Crimes and Incidents: A Framework for Action'. I was delighted to launch the framework on 12 May at the Millennium Stadium in Cardiff, where we had a fantastic representation from approximately 300 people and organisations from across Wales. A written statement was issued to Members ahead of the launch.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am y cyfle i drafod 'Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu'. Roeddwn yn falch iawn o lansio'r fframwaith ar 12 Mai yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd, lle cawsom gynrychiolaeth wych o tua 300 o bobl a sefydliadau o bob rhan o Gymru. Rhoddwyd datganiad ysgrifenedig i Aelodau cyn y lansiad.

'Tackling Hate Crimes and Incidents: A Framework for Action' forms a key part of this Government's commitment to promote equality and fairness, and this runs through the core of the programme for government. This also includes a high-level objective to tackle the incidence of hate crimes. Our commitment to address the most deep-rooted inequalities across Wales is set out in our strategic equality plan, and 'Tackling Hate Crimes and Incidents' forms a part of the key delivery objective.

Mae 'Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' yn rhan allweddol o ymrwymiad y Llywodraeth hon i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch, ac mae hyn yn rhedeg drwy galon y rhaglen lywodraethu. Mae hyn hefyd yn cynnwys amcan lefel uchel i fynd i'r afael â nifer yr achosion o droseddau casineb. Mae ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mwyaf dwfn ar draws Cymru wedi ei nodi yn ein cynllun cydraddoldeb strategol, ac mae 'Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb' yn rhan o'r amcan cyflawni allweddol.

Many of you will be aware of the groundbreaking research that has been developed through the all-Wales hate crime research project by Cardiff University and Race Equality First. This has ensured that victims' views and experiences have been listened to and the framework has been developed from a robust evidence base. There have been some shocking findings in this research of victims' experiences. These have included people feeling disempowered, with strong feelings of loneliness, depression and isolation. Victims also tell us that they are still not reporting incidents and are scared to come forward. They accept hostility and prejudice as an everyday occurrence. The framework aims to challenge this behaviour and drive real change.

Bydd llawer ohonoch yn ymwybodol o'r gwaith ymchwil arloesol a ddatblygwyd trwy'r prosiect ymchwil trwy Gymru gyfan i drosedd casineb gan Brifysgol Caerdydd a Race Equality First. Mae hyn wedi sicrhau y gwrandawyd ar farn a phrofiadau dioddefwyr a bod y fframwaith wedi cael ei ddatblygu ar sail tystiolaeth gadarn. Bu rhai canfyddiadau syfrdanol yn yr ymchwil hwn ynglŷn â phrofiadau dioddefwyr. Mae'r rhain wedi cynnwys pobl sy'n teimlo'n ddi-rym, gyda theimladau cryf o unigrwydd, iselder ac o fod wedi'u hynysu. Mae dioddefwyr hefyd yn dweud wrthym eu bod yn dal i beidio â hysbysu am ddigwyddiadau ac yn ofni dod ymlaen. Maent yn derbyn gelyniaeth a rhagfarn fel digwyddiad bob dydd. Nod y fframwaith yw herio'r ymddygiad hwn a sbarduno newid gwirioneddol.

The framework has been developed through comprehensive consultation, through a task and finish group, focus groups and an online survey. There was further extensive participation in the consultation process, and we estimate that over 400 people took part. We were able to gather views and evidence from across Wales and across the protected characteristics.

Mae'r fframwaith wedi cael ei ddatblygu trwy ymgynghori cynhwysfawr, drwy grŵp gorchwyl a gorffen, grwpiau ffocws ac arolwg ar-lein. Cafwyd cyfranogiad helaeth pellach yn y broses ymgynghori, ac rydym yn amcangyfrif bod dros 400 o bobl wedi cymryd rhan. Llwyddwyd i gasglu barn a thystiolaeth o bob cwr o Gymru ac ar draws y nodweddion gwarchodedig.

We have not included all of the protected characteristics under the Equality Act 2010, but we have focused on those that the police use to record hate crime. These are: race, religion, disability, sexual orientation and gender identity. We have also included the protected characteristic of age as a result of the consultation. We heard powerful arguments for including it on the basis of the hate crime incidents experienced by both older and younger people. The framework also includes a commitment to tackle mate crime, cyber bullying and far-right hate.

Nid ydym wedi cynnwys pob un o'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ond rydym wedi canolbwyntio ar y rhai y mae'r heddlu yn eu defnyddio i gofnodi troseddau casineb. Y rhain yw: hil, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd. Rydym hefyd wedi cynnwys nodwedd warchodedig oedran o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Clywsom ddadleuon pwerus dros ei chynnwys ar sail y troseddau casineb y mae pobl hŷn ac iau yn eu profi. Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys ymrwymiad i fynd i'r afael â throseddau cyfeillio, seiberfwlio a chasineb asgell dde.

The framework has been developed across three strategic objectives, including prevention, supporting victims and improving the multi-agency response. These three objectives are supported by a delivery plan, which will be updated annually and highlights the broad range of Welsh Government policy and practice areas. I will also set up an independent advisory group, which will consist of community and third sector organisations, to provide advice and information to me on implementation.

Mae'r fframwaith wedi cael ei ddatblygu ar draws tri amcan strategol, gan gynnwys atal digwyddiadau, cefnogi dioddefwyr a gwella ymateb amlasiantaeth. Mae'r tri amcan yn cael eu cefnogi gan gynllun cyflawni, a fydd yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol ac sy'n amlygu ystod eang o feysydd polisi ac ymarfer Llywodraeth Cymru. Byddaf hefyd yn sefydlu grŵp cynghori annibynnol, a fydd yn cynnwys sefydliadau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector, i ddarparu cyngor a gwybodaeth imi ar ddulliau gweithredu.

There are many challenges ahead to deliver the framework and to ensure that the strategic objectives can be met. What we want to achieve through the framework is to create a longer-term cultural shift where there is diversity in the form of people from different backgrounds being appreciated and welcomed across Wales. The framework has a major role to play in order to tackle negative attitudes and stereotypes, and this is all about changing hearts and minds. This needs to take place within our schools, within further and higher education settings, and within our communities.

Mae llawer o heriau o'n blaenau er mwyn gweithredu'r fframwaith a sicrhau y gellir bodloni'r amcanion strategol. Yr hyn yr ydym am ei gyflawni trwy'r fframwaith yw creu newid diwylliannol yn y tymor hwy lle mae amrywiaeth ar ffurf pobl o wahanol gefndiroedd yn cael eu gwerthfawrogi a'u croesawu ledled Cymru. Mae gan y fframwaith rôl bwysig i'w chwarae er mwyn mynd i'r afael ag agweddau a stereoteipiau negyddol, ac mae hyn yn ymwneud â newid calonnau a meddyliau. Mae angen i hyn ddigwydd o fewn ein hysgolion, o fewn lleoliadau addysg bellach ac uwch, ac o fewn ein cymunedau.

The framework rightly reflects the significant challenges within our schools and hate-related bullying is a key area where progress needs to be made. I am pleased that some new and innovative projects are being developed to work with children and young people. For example, Taking Flight Theatre Company will be running a production in schools across Wales to challenge negative portrayals of disabled people. In addition, we have also funded further projects to work with our children and young people through Youth Cymru and Save the Children, all of which will have a positive impact to increase support and challenge hate crime across gender identity and Gypsy and Traveller communities.

Mae'r fframwaith, yn briodol, yn adlewyrchu'r heriau sylweddol o fewn ein hysgolion ac mae bwlio sy'n gysylltiedig â chasineb yn faes allweddol lle mae angen cymryd camau. Rwy'n falch bod rhai prosiectau newydd ac arloesol yn cael eu datblygu i weithio gyda phlant a phobl ifanc. Er enghraifft, bydd Cwmni Theatr Taking Flight yn cynnal cynhyrchiad mewn ysgolion ledled Cymru i herio portreadau negyddol o bobl anabl. Yn ogystal, rydym hefyd wedi ariannu prosiectau ychwanegol i weithio gyda'n plant a'n pobl ifanc trwy Youth Cymru ac Achub y Plant, a bydd pob un ohonynt yn cael effaith gadarnhaol i gynyddu cefnogaeth a herio troseddau casineb ar draws hunaniaeth o ran rhywedd a chymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

My portfolio area will also make a significant contribution. Communities First and Families First programmes will include enhanced support to challenge hate crimes. Children and young people's services, including Meic Cymru, and support for youth workers will make an important contribution. Challenging attitudes within community settings is essential, and areas such as sport, art, media and culture play a role in challenging negative attitudes and in promoting positive messages.

Bydd fy maes portffolio hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol. Bydd rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys cymorth ychwanegol i herio troseddau casineb. Bydd gwasanaethau plant a phobl ifanc, gan gynnwys Meic Cymru, a chymorth ar gyfer gweithwyr ieuenctid yn gwneud cyfraniad pwysig. Mae'n hanfodol herio agweddau o fewn lleoliadau cymunedol, ac mae meysydd megis chwaraeon, celf, y cyfryngau a diwylliant yn chwarae rhan wrth herio agweddau negyddol a hyrwyddo negeseuon cadarnhaol.

We have also funded projects through Stonewall Cymru and the Welsh Refugee Council, who will work to increase reporting of hate crime in communities and will also aim to break down negative stereotypes. We will work with public sector authorities through their strategic equality plans to tackle hate crimes. Enhancing consistent training and strong national messages to identify and report hate crimes will be a key outcome. People have told me that still not enough information about hate crime is known, and that better awareness is required across Wales.

Rydym hefyd wedi ariannu prosiectau trwy Stonewall Cymru a Chyngor Ffoaduriaid Cymru, a fydd yn gweithio i annog mwy o bobl i hysbysu am ar droseddau casineb mewn cymunedau. Byddant hefyd yn ceisio chwalu stereoteipiau negyddol. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau sector cyhoeddus trwy eu cynlluniau cydraddoldeb strategol i fynd i'r afael â throseddau casineb. Un canlyniad allweddol fydd gwella hyfforddiant cyson a sicrhau negeseuon cenedlaethol cadarn i nodi a hysbysu am droseddau casineb. Mae pobl wedi dweud wrthyf nad oes digon o wybodaeth o hyd am droseddau casineb, a bod angen gwell ymwybyddiaeth ar draws Cymru.

There are promising first steps that I will be putting in place, such as the establishment of an all-Wales hate crime reporting centre, delivered by Victim Support and which has been funded from the equality and inclusion grant. This will provide a unified reporting system across Wales that will, in turn, provide a flexible reporting mechanism and comprehensive support for victims. This will include enhanced advice and support from caseworkers and volunteers across Wales.

Byddaf yn rhoi camau cyntaf addawol ar waith, megis sefydlu canolfan hysbysu am droseddau casineb trwy Gymru gyfan. Bydd yn cael ei darparu gan Gymorth i Ddioddefwyr a chaiff ei hariannu gan y grant cydraddoldeb a chynhwysiant. Bydd hyn yn darparu system hysbysu unedig ar draws Cymru a fydd, yn ei thro, yn darparu mecanwaith hysbysu hyblyg a chymorth cynhwysfawr i ddioddefwyr. Bydd hyn yn cynnwys gwell cyngor a chefnogaeth gan weithwyr achos a gwirfoddolwyr ledled Cymru.

Ensuring that greater support is in place for victims is an important first step. A first indicator of success will be an increase in the reporting of hate crimes in the short term. We know from research that hate crimes are significantly under-reported across Wales. Although there were 1,810 crimes reported in the last reporting year, this is still the tip of the iceberg. The framework will aim to work proactively at a community level to promote better confidence for victims to come forward, and to get the support that they need.

Mae sicrhau bod mwy o gymorth ar gael ar gyfer dioddefwyr yn gam cyntaf pwysig. Dangosydd cyntaf o lwyddiant fydd y ffaith bod mwy o bobl yn rhoi gwybod am droseddau casineb yn y tymor byr. Rydym yn gwybod o ganlyniad i waith ymchwil bod llawer iawn o droseddau casineb na hysbysir yn eu cylch ar draws Cymru. Er yr hysbyswyd am 1,810 o droseddau yn y flwyddyn hysbysu ddiwethaf, canran fach o'r cyfanswm yw hyn o hyd. Nod y fframwaith fydd gweithio'n rhagweithiol ar lefel gymunedol i roi mwy hyder i ddioddefwyr ddod ymlaen, a chael y cymorth sydd ei angen arnynt.

I have been pleased to announce a further two years' funding for community cohesion co-ordinators across Wales until 2016 who are based within local authorities. They will have a significant role to play to deliver the framework on a local and regional basis, and to establish better partnerships to tackle hate crimes. We also have some excellent national groups set up, such as the disability hate crime action group and the race forum, who also aim to tackle hate crime in partnership across third sector organisations.

Rwyf wedi bod yn falch o gyhoeddi cyllid dwy flynedd arall ar gyfer cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol ar draws Cymru tan 2016. Byddant wedi eu lleoli o fewn awdurdodau lleol. Bydd ganddynt rôl bwysig i'w chwarae i roi'r fframwaith ar waith yn lleol a rhanbarthol, ac i sefydlu partneriaethau gwell i fynd i'r afael â throseddau casineb. Mae gennym hefyd rai grwpiau cenedlaethol rhagorol, fel y grŵp gweithredu ar droseddau casineb anabledd a'r fforwm hil, sydd hefyd yn ceisio mynd i'r afael â throseddau casineb mewn partneriaeth ar draws sefydliadau trydydd sector.

Working with criminal justice agencies is essential. Although it is a non-devolved area, we have put in place important links to create strong partnerships. This has included setting up an all-Wales hate crime criminal justice board, which will aim to work together to provide a more consistent and joined-up approach to support victims of hate crimes across Wales. We have also funded a post with all four Welsh police force areas to explore enhanced multi-agency support for high-risk victims. This is an important step so that agencies are identifying a joint approach to safeguarding victims.

Mae'n hanfodol gweithio gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol. Er ei fod yn faes heb ei ddatganoli, rydym wedi sefydlu cysylltiadau pwysig i greu partneriaethau cryf. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu bwrdd cyfiawnder troseddol i Gymru gyfan ar drosedd casineb, a'r nod fydd gweithio gyda'i gilydd i ddarparu dull mwy cyson a chydgysylltiedig o gefnogi dioddefwyr troseddau casineb ar draws Cymru. Rydym hefyd wedi ariannu swydd gyda phob un o'r pedair ardal heddlu yng Nghymru i edrych ar well cefnogaeth amlasiantaeth ar gyfer dioddefwyr risg uchel. Mae hwn yn gam pwysig fel bod asiantaethau yn nodi dull o ddiogelu dioddefwyr ar y cyd.

We will also be working through the board to explore ways to work with offenders, including through restorative approaches. The key partners and agencies that will need to play a key role in delivering the framework include local health boards, social services, transport providers and social and private landlords. Welsh Government intends to provide strong leadership to ensure that this happens, and I will be working closely with relevant portfolio Ministers.

Byddwn hefyd yn gweithio trwy'r bwrdd i archwilio ffyrdd o weithio gyda throseddwyr, gan gynnwys drwy ddulliau adferol. Bydd angen i nifer o bartneriaid ac asiantaethau allweddol chwarae rôl allweddol o ran cyflawni'r fframwaith, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, gwasanaethau cymdeithasol, darparwyr trafnidiaeth a landlordiaid cymdeithasol a phreifat. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi arweiniad cryf i sicrhau bod hyn yn digwydd, a byddaf yn gweithio'n agos gyda Gweinidogion â'r portffolios perthnasol.

To conclude, I recognise and welcome cross-party support for taking this important commitment moving forward. I am proud that Wales is taking the lead in this area and I am keen that we are driving new and innovative ways across our communities to challenge hostility and prejudice. I have heard some horrific stories from victims and experiences of feeling unsafe and of being scared to live within their own homes and communities. This will not be tolerated. Our framework is an important step forward in tackling it.

I gloi, rwy'n cydnabod ac yn croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer gwneud yr ymrwymiad pwysig hwn wrth symud ymlaen. Rwy'n falch bod Cymru'n arwain y ffordd yn y maes hwn ac rwy'n awyddus ein bod yn sbarduno ffyrdd newydd ac arloesol ar draws ein cymunedau i herio gelyniaeth a rhagfarn. Rwyf wedi clywed rhai storïau erchyll gan ddioddefwyr a phrofiadau o deimlo'n anniogel ac o ofni byw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Ni fydd hyn yn cael ei oddef. Mae ein fframwaith yn gam pwysig ymlaen wrth fynd i'r afael â hyn.

16:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the three amendments to the motion. I call on Peter Black to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi'r pryder a fynegwyd gan y Cyngor Cydraddoldeb Hiliol yng Nghyfarfod Fforwm Hil Cymru ar 13 Mawrth 2014 bod materion yn ymwneud â hil yn isel ar yr agenda i Lywodraeth Cymru.*

*Notes the concern expressed by the Race Equality Council at the Wales Race Forum Meeting on 13 March 2014 that 'race issues are low on the agenda' for the Welsh Government.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu cofnodi a chyhoeddi troseddau casineb yn briodol am y tro cyntaf.*

*Welcomes that the UK Government has instituted the proper recording and publishing of hate crimes for the first time.*

16:20 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

I will start by welcoming this framework and delivery plan. Having looked through it, it is a very comprehensive one and it is very difficult to find any fault with it, so I am not going to try to find fault with it. I think it is a good start in terms of how we should be tackling hate crimes and incidents around Wales.

Rwyf am ddechrau trwy groesawu fframwaith hwn a'r cynllun cyflawni. Ar ôl edrych drwyddo, mae'n un cynhwysfawr iawn ac mae'n anodd iawn dod o hyd i unrhyw fai ynddo, felly nid wyf yn mynd i geisio dod o hyd i fai ynddo. Rwy'n credu ei fod yn ddechrau da o ran sut y dylem fod yn mynd i'r afael â throseddau a digwyddiadau casineb ledled Cymru.

The Minister has already referred to the inquiry that the Communities, Equality and Local Government Committee held a couple of years ago into disability-related hate crime. One of the recommendations of that report related to data sharing. Clearly, there are actions within this delivery plan around how we can better share data, but, nevertheless, the point being made by that report in terms of the sharing of data between various agencies—not just Welsh Government agencies, but local government, health boards, et cetera—is that it is crucial in terms of tackling hate crime effectively. It is the case that, in many cases, hate crime against an individual is carried out by the same individual on a number of instances. Having effective information and being able to share that information with various agencies is absolutely crucial in terms of making sure that vulnerable adults and other vulnerable people are better protected. So, I think it would be useful if the Minister could outline in some more detail how this action plan is going to be dealing with that particular aspect, to make sure that everyone is aware of what the problem is and how it can be tackled.

Mae'r Gweinidog eisoes wedi cyfeirio at yr ymchwiliad a gynhaliodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gwpl o flynyddoedd yn ôl i droseddau casineb cysylltiedig ag anabledd. Roedd un o argymhellion yr adroddiad hwnnw'n ymwneud â rhannu data. Yn amlwg, mae'r cynllun cyflawni hwn yn cynnwys camau gweithredu ynglŷn â sut y gallwn rannu data'n well, ond, serch hynny, y pwynt sy'n cael ei wneud gan yr adroddiad hwnnw o ran rhannu data rhwng gwahanol asiantaethau—nid asiantaethau Llywodraeth Cymru yn unig, ond llywodraeth leol, byrddau iechyd, ac ati—yw ei fod yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â throseddau casineb yn effeithiol. Mae'n wir, mewn llawer o achosion, bod troseddau casineb yn erbyn unigolyn yn cael eu cyflawni gan yr un unigolyn ar nifer o achosion. Mae'n gwbl hanfodol cael gwybodaeth effeithiol a gallu rhannu'r wybodaeth gydag asiantaethau amrywiol er mwyn gwneud yn siŵr bod oedolion a phobl eraill sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn yn well. Felly, rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Gweinidog roi ychydig mwy o fanylion ynglŷn â sut y mae'r cynllun gweithredu hwn yn mynd i fod yn ymdrin â'r agwedd benodol honno, er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o beth yw'r broblem a sut y gellir mynd i'r afael â hi.

Our amendment 1 refers to the minutes of the Wales race forum from 13 March 2014. This is the Welsh equality group representing the five race equality councils. The forum is recalled in those minutes as saying that race issues are low on the Welsh Labour Government’s agenda. I raised this issue with the Minister in oral Assembly questions on 7 May, and the Minister replied that he was not aware of that particular aspect, though he was present at that meeting as the minutes indicate. The Welsh Government equality and inclusion grant has now been awarded to organisations, which will be used to tackle hate crime. As I said in the oral Assembly question, no race equality council won that award, despite the fact that they were encouraged to bid for it. In fact, only one BME organisation, the Welsh Refugee Council, won that award, and that was only to fund its director. The race equality councils are quite dissatisfied about this, particularly as the organisation that won the award had actually come to them for advice. They are concerned that the Welsh Government is losing focus in relation to race, in particular hate crime that is racially based. I would be looking for the Minister’s assurance that that is not the case and that the concerns that were raised in that minute are being addressed by him and by his officials, to try to deal with the concerns that the race equality councils in Wales have raised at that particular meeting.

Mae ein gwelliant 1 yn cyfeirio at gofnodion fforwm hil Cymru o 13 Mawrth, 2014. Dyma grŵp cydraddoldeb Cymru sy’n cynrychioli'r pum cyngor cydraddoldeb hiliol. Cofir bod y fforwm yn y cofnodion hynny wedi dweud bod materion hil yn isel ar agenda Llywodraeth Lafur Cymru. Codais y mater hwn gyda'r Gweinidog yng nghwestiynau llafar y Cynulliad ar 7 Mai, ac atebodd y Gweinidog nad oedd yn ymwybodol o'r agwedd benodol honno, er ei fod yn bresennol yn y cyfarfod fel yr oedd y cofnodion yn dangos. Mae grant cydraddoldeb a chynhwysiant Llywodraeth Cymru bellach wedi cael ei ddyfarnu i sefydliadau, a bydd yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â throseddau casineb. Fel y dywedais yng nghwestiwn llafar y Cynulliad, ni wnaeth yr un cyngor cydraddoldeb hiliol ennill y dyfarniad hwnnw, er iddynt gael eu hannog i wneud cais amdano. Yn wir, dim ond un sefydliad Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, a enillodd y dyfarniad, a hynny dim ond i ariannu ei gyfarwyddwr. Mae'r cynghorau cydraddoldeb hiliol yn eithaf anfodlon ynghylch hyn, yn enwedig gan fod y sefydliad a enillodd y dyfarniad wedi dod atynt am gyngor. Maent yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn colli ffocws mewn cysylltiad â hil, yn arbennig troseddau casineb sy'n seiliedig ar hil. Byddwn yn ceisio sicrwydd gan y Gweinidog nad yw hynny'n wir a bod y pryderon a godwyd yn y cofnod yn cael sylw ganddo ef a’i swyddogion, i geisio ymdrin â'r pryderon y mae’r cynghorau cydraddoldeb hiliol yng Nghymru wedi eu codi yn y cyfarfod arbennig hwnnw.

The Swansea Bay Regional Equality Council in my own region, for example, has established an excellent hate crime initiative called Voices Have Spoken, which the Minister has agreed to launch in Swansea on 3 June. I think that that needs to be incorporated as part of the hate crime framework across Wales. This initiative calls on all of us to use our voices if we have witnessed a hate crime. It says that it is the responsibility of us all to help stamp out hate crime, even when it is not happening to us directly. That is absolutely reflected in terms of the action plan and right across the Chamber in terms of the consensus that, no doubt, will exist on this particular issue.

Mae'r Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe yn fy rhanbarth i, er enghraifft, wedi sefydlu menter troseddau casineb ragorol o'r enw Voices Have Spoken. Mae'r Gweinidog wedi cytuno i’w lansio yn Abertawe ar 3 Mehefin. Credaf fod angen cynnwys honno yn y fframwaith troseddau casineb ar draws Cymru. Mae'r fenter hon yn galw ar bob un ohonom i ddefnyddio ein lleisiau os ydym wedi bod yn dyst i drosedd casineb. Mae'n dweud ei bod yn gyfrifoldeb ar bob un ohonom i helpu i gael gwared ar droseddau casineb, hyd yn oed pan nad yw'n digwydd i ni yn uniongyrchol. Mae hynny'n cael ei adlewyrchu’n llwyr o ran y cynllun gweithredu ac ar draws y Siambr o ran y consensws a fydd, yn ddiau, yn bodoli ar y mater penodol hwn.

I am pleased to see that the UK Government has introduced the proper recording and publishing of hate crimes. I think that is absolutely crucial in terms of ensuring that we are able to identify the problem and direct resources against it. Also, I think we need to talk to the schools about what their policies are in relation to this. I do not think that all schools will have up-to-date policies in terms of homophobia and equality and other related crimes. Clearly, it needs be ensured that that is up to date. I am pleased that Estyn is undertaking research into that and I look forward to its report this summer. One suggestion is to involve pupil mentors to provide support for those experiencing hate crimes and to act as a deterrent to those who may become perpetrators. I worry that the framework and delivery plan seem to be missing out colleges and universities, particularly when they have so many international students involved who could be utilised to visit local schools, and I hope that the Minister is able to address that in his response as well.

Rwy’n falch o weld bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno trefn o gofnodi a chyhoeddi troseddau casineb yn briodol. Credaf fod hynny'n gwbl hanfodol o ran sicrhau ein bod yn gallu adnabod y broblem a chyfeirio adnoddau yn ei herbyn. Hefyd, rwy’n credu bod angen inni siarad â'r ysgolion ynghylch beth yw eu polisïau yn hyn o beth. Nid wyf yn credu y bydd gan bob ysgol bolisïau cyfredol o ran homoffobia a chydraddoldeb a throseddau cysylltiedig eraill. Yn amlwg, mae angen sicrhau bod hynny'n gyfredol. Rwy’n falch bod Estyn yn cynnal ymchwil i hynny ac edrychaf ymlaen at ei adroddiad yr haf hwn. Un awgrym yw cynnwys disgyblion fel mentoriaid i roi cefnogaeth i'r rhai sy'n dioddef troseddau casineb ac i weithredu fel rhwystr i'r rhai a allai ei gyflawni. Rwy’n poeni ei bod yn ymddangos nad yw’r fframwaith a'r cynllun cyflawni yn cynnwys colegau a phrifysgolion, yn enwedig pan fydd ganddynt gymaint o fyfyrwyr rhyngwladol y gellid eu defnyddio i ymweld ag ysgolion lleol, ac rwy’n gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu ymdrin â hynny yn ei ymateb yn ogystal.

16:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan gynghorau ysgol a llywodraethwyr ysgol, yn ogystal ag athrawon, teuluoedd a'r gymdeithas ehangach, rôl i'w chwarae i atal bwlio.*

I call Suzy Davies to move amendment 3 tabled in the name of Paul Davies.

*Amendment 3—Paul Davies*

*Add new point at the end of the motion:*

*Welcomes the Welsh Government's recognition that school councils and school governors have a role, as well as teachers, families and wider society, in preventing bullying.*

16:25 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Llywydd. I move amendment 3. I thank you, Minister, for bringing this to the Chamber today and for your funding announcement, although, of course, I note what Peter Black said, by way of observation, on funding just a few moments ago. It is clear from the framework document itself and your opening statement that there is a wealth of research and evidence out there, along with a wealth of advisory and statutory responses and, of course, a wealth of extremely good work. While a considerable amount of policy implementation is tied up in UK legislation and beyond your direct control, I do welcome this concerted attempt to consolidate what you can within a framework with clear aims and what you call 'delivery areas' in order to contribute to the cultural shift that you also referred to in your opening remarks. What is less clear, as ever, is the means by which you will measure success. I appreciate that it is difficult to explain at this stage, especially as the ultimate measure of success in this case would be to eradicate hate crime altogether. I appreciate also that prevention is difficult to measure. So, I look forward to the annual update report to see what indicators you will be adopting to be used by the independent advisory group. I hope that its monitoring work will give you a helpful picture of how effective your ministerial colleagues have been in using their lead responsibilities, which you have given them, within the various delivery areas. I hope also that the report will not simply report on actions but explain the reasons for those actions and the results of those actions and, where relevant, the contribution that the delivery unit has made to those results.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliant 3. Rwy'n diolch ichi, Weinidog, am ddod â hyn gerbron y Siambr heddiw ac am eich cyhoeddiad ynglŷn ag ariannu er fy mod, wrth gwrs, yn nodi'r hyn a ddywedodd Peter Black, yn ei sylwadau, am ariannu ddim ond ychydig funudau yn ôl. Mae'n amlwg o'r ddogfen fframwaith ei hun a'ch datganiad agoriadol bod cyfoeth o ymchwil a thystiolaeth ar gael, ynghyd â chyfoeth o ymatebion ymgynghorol a statudol ac, wrth gwrs, cyfoeth o waith eithriadol o dda. Er bod deddfwriaeth y DU yn llywio cryn dipyn ar weithrediad polisïau, a bod hynny tu hwnt i'ch rheolaeth uniongyrchol, rwy'n croesawu'r ymgais pendant hwn i ddod â'r hyn a allwch at ei gilydd o fewn fframwaith ag amcanion clir a'r hyn yr ydych yn ei alw'n 'feysydd cyflawni' er mwyn cyfrannu at y newid diwylliannol y gwnaethoch gyfeirio ato hefyd yn eich sylwadau agoriadol. Yr hyn sy'n llai clir, fel bob amser, yw'r ffordd y byddwch yn mesur llwyddiant. Rwy'n sylweddoli ei bod yn anodd esbonio ar hyn o bryd, yn enwedig gan mai'r mesur o lwyddiant yn y pen draw yn yr achos hwn fyddai dileu troseddau casineb yn gyfan gwbl. Rwy'n gwerthfawrogi hefyd bod gwaith ataliol yn anodd ei fesur. Felly, rwy'n edrych ymlaen at yr adroddiad diweddaru blynyddol i weld pa ddangosyddion y byddwch yn eu mabwysiadu i'w defnyddio gan y grŵp cynghori annibynnol. Rwy'n gobeithio y bydd ei waith monitro yn rhoi darlun defnyddiol o ba mor effeithiol y mae eich cyd-Weinidogion wedi bod wrth ddefnyddio'r cyfrifoldebau arweiniol yr ydych wedi'u rhoi iddynt, o fewn y gwahanol feysydd cyflawni. Rwy'n gobeithio hefyd nad rhoi gwybod am weithredoedd y bydd yr adroddiad yn unig, ond y bydd yn esbonio'r rhesymau am y gweithredoedd hynny a chanlyniadau'r gweithredoedd hynny a, lle y bo'n berthnasol, y cyfraniad y mae'r uned gyflawni wedi'i wneud i'r canlyniadau hynny.

Young people continue to encounter the kind of attitude that has been making the news this week—certain e-mails and a certain LBC radio interview—and it is easy to call these trivial when compared with another story dominating the news, namely the kidnap and threatened sale of schoolgirls in Africa. That, of course, is an extreme example of gender discrimination and a clear case of hate crime but, of course, the perpetrators would not accept that. I almost want to flip this on its head for a minute because you know that there will be some in this country who will look at those actions as an affirmation of their own negative views about a particular race and a particular religion. Justified outrage at this particular event, for some, just validates a vague distaste for a skin colour that evidences a racial history they do not understand or a religious culture about which they know little if anything.

Mae pobl ifanc yn parhau i ddod ar draws y math o agwedd sydd wedi bod yn y newyddion yr wythnos hon—rhai negeseuon e-bost penodol a chyfweliad penodol ar radio LBC—ac mae'n hawdd galw'r rhain yn ddibwys o'u cymharu â stori arall sy'n cael lle blaenllaw ar y newyddion, sef herwgipio merched ysgol yn Affrica a bygwth eu gwerthu. Mae hynny, wrth gwrs, yn enghraifft eithafol o wahaniaethu ar sail rhyw ac yn achos clir o drosedd casineb, ond, wrth gwrs, ni fyddai'r troseddwyr yn derbyn hynny. Rwyf bron eisiau troi hyn ar ei ben am funud oherwydd eich bod yn gwybod y bydd rhai yn y wlad hon a fydd yn edrych ar y gweithredoedd hynny fel cadarnhad o'u barn negyddol eu hunain am hil a chrefydd benodol. Mae dicter cyfiawn tuag at y digwyddiad arbennig hwn, i rai, yn dilysu atgasedd amwys at liw croen sy'n tystio i hanes hiliol nad ydynt yn ei ddeall neu ddiwylliant crefyddol nad ydynt yn gwybod fawr ddim amdano, os o gwbl.

As long as we cherish freedom of thought and freedom of speech, our children will grow up in a culture that allows, even if it does not endorse, the sort of casual discrimination demonstrated by Richard Scudamore or Nigel Farage or the casual prejudice arising from ignorance of the foreign context we have heard about recently. Regardless of the benevolent and respectful influences to which a young person may have been exposed, they will still have to negotiate their way through that, not just in the public and third sectors, incidentally, Minister, but in the private sector as well, because it will be a brave young person who goes to school or, perhaps, more importantly now, the workplace who decides to challenge an established group expression of disrespect for others. It is an even braver young person who challenges an assertive parent who routinely expresses disrespect for others or, indeed, that young person themselves. That is why I am so pleased to see that this framework draws attention to the point that 16 to 19-year-olds are likely to be the most deeply affected by being the object of victimisation. It talks about the numbers bullied as a result of one or more protected characteristics. However, there is also the cumulative, drip-drip bullying that may be about something entirely different but which aggravates hate incidents.

Cyn belled â'n bod yn coleddu rhyddid meddwl a rhyddid i lefaru, bydd ein plant yn tyfu mewn diwylliant sy'n caniatáu'r math o wahaniaethu difeddwl, hyd yn oed os nad yw'n ei gefnogi, a ddangoswyd gan Richard Scudamore neu Nigel Farage neu ragfarn ddifeddwl yn deillio o anwybodaeth o'r cyd-destun tramor yr ydym wedi clywed amdano'n ddiweddar. Hyd yn oed os yw person ifanc wedi bod yn agored i ddylanwadau llesiannol a pharchus, bydd yn rhaid iddynt ddod o hyd i'w ffordd drwy hynny, nid yn unig yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gyda llaw, Weinidog, ond yn y sector preifat yn ogystal, gan y byddai'n rhaid i berson ifanc fod yn ddewr i fynd i'r ysgol neu, efallai, yn bwysicach nawr, i'r gweithle a phenderfynu herio mynegiant grŵp sydd wedi'i hen sefydlu o ddiffyg parch at eraill. Byddai angen person ifanc dewrach fyth i herio rhiant pendant sy'n mynegi diffyg parch at eraill fel mater o drefn neu, yn wir, at y person ifanc ei hun. Dyna pam yr wyf mor falch o weld bod y fframwaith hwn yn tynnu sylw at y pwynt mai pobl ifanc 16 i 19 mlwydd oed sy'n fwyaf tebygol o ddioddef erledigaeth. Mae'n sôn am y nifer sy'n cael eu bwlio o ganlyniad i un neu fwy o nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, ceir hefyd y bwlio cronnus, drip-drip a allai fod am rywbeth hollol wahanol ond sy'n gwaethygu digwyddiadau casineb.

Schools will have anti-bullying policies. I appreciate what Peter Black said about the fact that they may not always be used, and I think that I can say that I have come across a couple of occasions where they seem to be sitting on a shelf, but every primary school head will know his or her duty to create a respectful environment and to teach children the value of fairness, respect, dignity and so on—although, perhaps, I should say 'reinforce' rather than 'teach'. However, how many find time to introduce that, let alone mainstream the Respecting Others guidance, for example? Estyn may report on school ethos, but 28% of 11 to 16-year-olds have still been cyber bullied. As we heard in the Children, Young People and Education Committee visit last week, some school leadership is far more alert to the mental health effects of bullying than others. I was struck by one teenager who had moved schools and the difference that switched-on staff had made to her confidence and her ability to learn, contrasted with the experience of another young carer whose claims of sexual harassment by another pupil had prompted no action at all by her school.

Bydd gan ysgolion bolisïau gwrth-fwlio. Rwy'n gwerthfawrogi'r hyn a ddywedodd Peter Black am y ffaith nad ydynt bob amser yn cael eu defnyddio, ac rwy'n meddwl y gallaf ddweud fy mod wedi dod ar draws un neu ddau o achlysuron pan mae'n ymddangos eu bod yn eistedd ar silff, ond bydd pob pennaeth ysgol gynradd yn gwybod bod ganddo ef neu hi ddyletswydd i greu amgylchedd parchus ac i ddysgu gwerth tegwch, parch, urddas ac yn y blaen i blant—er, efallai y dylwn ddweud 'atgyfnerthu' yn hytrach nag 'addysgu'. Fodd bynnag, sawl un sy'n canfod yr amser i gyflwyno hynny, heb sôn am brif ffrydio canllawiau Parchu Eraill, er enghraifft? Gall Estyn hysbysu am ethos yr ysgol, ond mae 28% o blant 11 i 16 oed yn dal i fod wedi cael eu seiberfwlio. Fel y clywsom yn ymweliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yr wythnos diwethaf, mae arweinwyr rhai ysgolion yn llawer mwy effro nag eraill i effeithiau bwlio ar iechyd meddwl. Cefais fy nharo gan un ferch yn ei harddegau a oedd wedi symud ysgolion a'r gwahaniaeth yr oedd staff sy'n gwybod beth yw beth wedi ei wneud i'w hyder a'i gallu i ddysgu. Mae hyn yn cyferbynnu â phrofiad gofalwr ifanc arall na chymerodd ei hysgol unrhyw gamau o gwbl mewn ymateb i'w honiadau bod disgybl arall yn aflonyddu'n rhywiol arni.

Here is where school governors and school councils can take a significant lead in recognising that young people themselves are very well placed to educate and persuade their peers about the effects of bullying. I think that I have mentioned Pontarddulais Comprehensive School in my own region as a successful example of that.

Dyma lle y gall llywodraethwyr ysgol a chynghorau ysgol gymryd yr awenau'n i raddau helaeth wrth gydnabod bod pobl ifanc eu hunain mewn sefyllfa dda iawn i addysgu a darbwyllo eu cyfoedion ynglŷn ag effeithiau bwlio. Rwy'n meddwl fy mod wedi crybwyll Ysgol Gyfun Pontarddulais yn fy rhanbarth fy hun fel enghraifft lwyddiannus o hynny.

16:30 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I was very pleased indeed to see the inclusion of mate crime in the framework, which I know came about as a direct result of the consultation process, which I think is very positive. As Assembly Members, we frequently deal with subjects that are distressing, but I have come across few more horrible things than the befriending of vulnerable people for the purposes of taking advantage of them, exploiting them or abusing them.

Roeddwn yn falch iawn o weld troseddau cyfeillio yn cael eu cynnwys yn y fframwaith. Rwy'n gwybod bod hynny wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r broses ymgynghori, sy'n beth cadarnhaol iawn yn fy marn i. Fel Aelodau Cynulliad, rydym yn aml yn delio â phynciau sy'n peri gofid, ond nid wyf wedi dod ar draws fawr o ddim mwy erchyll na chyfeillio pobl agored i niwed er mwyn cymryd mantais arnynt, gan eu hecsbloetio neu eu cam-drin.

We know that people with learning disabilities, mental health conditions and those with communication problems are particularly targeted by perpetrators. There are strong parallels with elder abuse and the issues also resonate strongly with domestic violence, so we should start to look closely at what we can learn from the good work that is already taking place in those fields.

Rydym yn gwybod bod pobl ag anableddau dysgu, cyflyrau iechyd meddwl a'r rhai sydd â phroblemau cyfathrebu yn cael eu targedu'n benodol. Mae tebygrwydd pendant i gam-drin yr henoed ac mae'r materion hefyd yn atseinio'n gryf â thrais domestig, felly dylem ddechrau edrych yn ofalus ar yr hyn y gallwn ei ddysgu oddi wrth y gwaith da sydd eisoes yn digwydd yn y meysydd hynny.

We also know that social isolation usually provides the backdrop for mate crime. Often, people with learning disabilities, communication disorders or mental ill health living independently become socially isolated. They yearn for friendship, sometimes with abusive, even fatal, results and I know that we will all be aware of some awful cases where the sheer brutality has shocked us all.

Rydym hefyd yn gwybod bod ynysu cymdeithasol fel arfer yn darparu'r cefndir ar gyfer troseddau cyfeillio. Yn aml, mae pobl ag anableddau dysgu, anhwylderau cyfathrebu neu afiechyd meddwl sy'n byw'n annibynnol yn cael eu hynysu'n gymdeithasol. Maent yn dyheu am gyfeillgarwch, weithiau gyda chanlyniadau sarhaus, neu hyd yn oed angheuol, ac rwy'n gwybod y byddwn i gyd yn ymwybodol o rai achosion ofnadwy lle mae'r creulondeb pur wedi'n dychryn ni i gyd.

Vulnerable people living in rural communities are understood to be particularly at risk from mate crime, because of their isolation. I am very proud of what the Welsh Labour Government has done in committing to supporting and promoting independent living and I absolutely fully share that vision. However, we need to ensure that, in creating a situation where people can live independently, we are not inadvertently leaving the door open to exploitation or abuse, particularly because mate crime is very rarely seen as a crime by the people who are the victims, and they are often reluctant to report it for many reasons, including fear.

Deellir bod pobl sy'n agored i niwed ac sy'n byw mewn cymunedau gwledig mewn perygl arbennig o droseddau cyfeillio, oherwydd eu bod ar eu pen eu hunain. Rwy'n falch iawn o'r hyn y mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi ei wneud trwy ymrwymo i gefnogi a chynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol ac rwy'n rhannu'n llawn y weledigaeth honno'n llwyr. Fodd bynnag, mae angen inni sicrhau, wrth greu sefyllfa lle y gall pobl fyw'n annibynnol, nad ydym yn anfwriadol yn gadael y drws yn agored i gamfanteisio neu gam-drin, yn enwedig oherwydd mai yn anaml iawn y mae pobl sydd wedi dioddef troseddau cyfeillio yn eu hystyried yn drosedd, ac maent yn aml yn amharod i roi gwybod amdanynt am nifer o resymau, gan gynnwys ofn.

The framework that we are debating today acknowledges that when victims do try to get help, agencies often fail to act. There are things that we can do, however, to improve the matter and provide a level of safeguarding. There is sometimes a temptation for families and well-meaning professionals to think that any friend is better than no friend so, there needs to be greater awareness of the serious dangers of mate crime and the way to spot the signs. One sign, for example, might be a change in finances. During my reading ahead of this debate, I came across a group of young people with Asperger's syndrome who talked to a reporter about their 'Tuesday friends'. They saw their Tuesday friends every Tuesday, without fail, but, coincidentally, Tuesday was the day that they had their benefits paid to them. Their friends were a great help: they would help them to the cash point, help them to the pub, and help them to spend all of their money, and then they would say goodbye until the next Tuesday.

Mae'r fframwaith yr ydym yn ei drafod heddiw yn cydnabod nad yw asiantaethau yn aml yn gweithredu pan fydd dioddefwyr yn ceisio cael cymorth. Mae pethau y gallwn eu gwneud, fodd bynnag, i wella'r mater a darparu lefel o ddiogelu. Mae temtasiwn weithiau i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol llawn bwriadau da feddwl bod unrhyw ffrind yn well na dim ffrind, felly mae angen bod yn fwy ymwybodol o beryglon difrifol troseddau cyfeillio a'r ffordd i adnabod yr arwyddion. Un arwydd posibl, er enghraifft, fydd newid mewn sefyllfa ariannol. Wrth ddarllen ymlaen llaw cyn y ddadl hon, deuthum ar draws grŵp o bobl ifanc â syndrom Asperger oedd yn siarad â gohebydd am eu 'cyfeillion dydd Mawrth'. Maent yn gweld eu ffrindiau dydd Mawrth bob dydd Mawrth, yn ddi-ffael, ond, trwy gyd-ddigwyddiad, dydd Mawrth oedd y diwrnod pan oedd eu budd-daliadau yn cael eu talu iddynt. Roedd eu ffrindiau yn help mawr: byddent yn eu helpu i'r twll yn y wal, yn eu helpu i'r dafarn, ac yn eu helpu i wario eu harian i gyd, ac yna byddent yn dweud hwyl fawr tan y dydd Mawrth nesaf.

This framework acknowledges that the answer lies in a multi-agency approach, so I would like to see mate crime discussed between the Welsh Government and the police, perhaps in the new board that the Minister has spoken of, to try to gain a greater understanding of the motivations behind mate crime. One way would be to profile perpetrators—we know that this is not happening at the moment—so that we could better understand who they are, explore their motivations, and identify danger signs earlier.

Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod bod yr ateb mewn dull gwaith amlasiantaethol, felly hoffwn i weld troseddau cyfeillio yn cael eu trafod rhwng Llywodraeth Cymru a'r heddlu, efallai yn y bwrdd newydd y mae'r Gweinidog wedi siarad amdano, er mwyn ceisio cael gwell dealltwriaeth o'r cymhellion y tu ôl i droseddu cyfeillio. Un ffordd fyddai proffilio troseddwyr—rydym yn gwybod nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd—er mwyn inni ddeall yn well pwy ydyn nhw, archwilio eu cymhellion, a nodi arwyddion o berygl yn gynharach.

It disturbs me that many cases involve women as the instigators, so I would like to understand that better. As far as I am aware, there is no offending behaviour programme for disability hate crime offenders as there is for those who are convicted of racial or sexual violence. So, I was very pleased to hear the Minister talk about perpetrator programmes in his opening remarks.

Mae'n fy anesmwytho mai menywod yw'r symbylwyr mewn llawer o achosion, felly hoffwn ddeall hynny'n well. Cyn belled ag y gwn i, nid oes rhaglen ymddygiad troseddol ar gyfer pobl sy'n cyflawni troseddau casineb anabledd fel sydd ar gyfer pobl sy'n cael eu dyfarnu'n euog o drais hiliol neu rywiol. Felly, rwy'n falch iawn o glywed y Gweinidog yn sôn am raglenni i dramgwyddwyr yn ei sylwadau agoriadol.

A common theme in mate crime is false accusations of sexual misconduct, which are often used by perpetrators to justify an escalation in violence. This is particularly present in many of the most severe cases that have gone on to end in torture and murder. So, I would particularly like to see all police forces and adult social services teams have their awareness raised of this.

Un thema gyffredin mewn troseddau cyfeillio yw cyhuddiadau ffug o gamymddwyn rhywiol, a ddefnyddir yn aml gan droseddwyr i gyfiawnhau cynnydd mewn trais. Mae hyn yn arbennig o bresennol mewn nifer o'r achosion mwyaf difrifol sydd wedi arwain yn y pen draw at artaith a llofruddiaeth. Felly, yn benodol, hoffwn i weld pob heddlu a thîm gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn dod yn fwy ymwybodol o hyn.

Finally, I know that Mencap has been doing some really good work to make people with learning disabilities aware of disability hate crime generally and that, of course, includes mate crime. I would like to see the Welsh Government consider how people with communication problems, such as Asperger's syndrome, or those with mental ill health, can benefit from this kind of awareness raising, especially because we know that many victims of mate crime often have needs that do not require intensive support, so are often not in contact with support networks or professionals. So, I reiterate how pleased I am that mate crime is finally being recognised and tackled and I hope that the framework and the delivery plan provide the opportunity to identify it, prevent it, prosecute it and support the victims.

Yn olaf, rwy'n gwybod bod Mencap wedi bod yn gwneud gwaith da iawn i wneud pobl ag anableddau dysgu yn ymwybodol o droseddau casineb anabledd yn gyffredinol ac, wrth gwrs, mae hynny'n cynnwys troseddau cyfeillio. Hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn ystyried sut mae pobl sydd â phroblemau cyfathrebu, megis syndrom Asperger, neu bobl sydd â salwch meddwl, yn gallu elwa o'r math hwn o godi ymwybyddiaeth, yn enwedig gan ein bod yn gwybod nad oes angen cefnogaeth ddwys yn aml ar gyfer anghenion llawer o bobl sy'n dioddef troseddau cyfeillio, felly yn aml nid ydynt mewn cysylltiad â rhwydweithiau cefnogi neu weithwyr proffesiynol. Felly, rwy'n ailadrodd pa mor falch yr wyf fod troseddau cyfeillio'n cael eu cydnabod o'r diwedd ac rwy'n gobeithio y bydd y fframwaith a'r cynllun cyflawni yn rhoi cyfle i'w adnabod, ei atal, ei erlyn a chefnogi'r dioddefwyr.

16:35 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I want to say that the report 'Tackling Hate Crimes and Incidents: A Framework for Action' is an extremely important document that, certainly, we on this side fully endorse, but, from the debate so far, I can say that also of all sides of the Chamber. I think that that is really positive for this Assembly.

Yn gyntaf oll, rwyf am ddweud bod yr adroddiad 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' yn ddogfen eithriadol o bwysig. Yn sicr, rydym ni ar yr ochr hon yn ei chymeradwyo'n llawn, ond, o'r ddadl hyd yn hyn, gallaf ddweud hynny hefyd am bob ochr i'r Siambr. Rwy'n meddwl bod hynny'n gadarnhaol iawn i'r Cynulliad hwn.

All hate crime is despicable, and we know that the main offences relate primarily to people's race, sexual orientation and disability, but that is not an exhaustive list, obviously. I would, at this point, like to pay tribute to a man whom I know only through the media called Simon Green, who is a disability rights campaigner in Bridgend, who, I think, has highlighted some of the issues extremely well indeed.

Mae pob trosedd casineb yn warthus, ac rydym yn gwybod bod y prif droseddau'n ymwneud yn bennaf â hil, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd pobl, ond nid yw honno'n rhestr gynhwysfawr, yn amlwg. Byddwn, ar yr adeg hon, yn hoffi talu teyrnged i ddyn nad wyf ond yn ei adnabod drwy'r cyfryngau o'r enw Simon Green, sy'n ymgyrchydd hawliau anabledd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Rwy'n meddwl ei fod wedi tynnu sylw at rai o'r materion yn eithriadol o dda.

However, I want to focus on two particular issues referred to in the report and maybe one or two that are not. First of all, cyber bullying, which I think, dare I say it, is the future, although I hate to think that that is the future that we have to look forward to, is a crime perpetrated by cowardly young people, by and large, who use social media to try to humiliate others of their age group. We know that, in a number of tragic cases, this has led to young people, often girls and young women, self-harming and even committing suicide, all because of image. Also, I have highlighted in this Chamber homophobic bullying in schools, which has also led to the suicides of all too many young men. This is, of course, a tragic waste of life in all cases and, therefore, really deserves our attention.

Fodd bynnag, hoffwn ganolbwyntio ar ddau fater penodol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad ac efallai un neu ddau na chyfeirir atynt. Yn gyntaf oll, seiberfwlio yw'r dyfodol rwy'n meddwl, os meiddiaf ddweud hynny, er bod yn gas gennyf feddwl mai dyna'r dyfodol sydd gennym i edrych ymlaen ato, ac mae'n drosedd a gyflawnir gan bobl ifanc lwfr, ar y cyfan, sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol i geisio bychanu eraill o'r un grŵp oedran. Rydym yn gwybod bod hyn, mewn nifer o achosion trasig, wedi achosi i bobl ifanc, merched a menywod ifanc yn aml, hunan-niweidio a hyd yn oed gyflawni hunanladdiad, i gyd oherwydd delwedd. Hefyd, rwyf wedi tynnu sylw yn y Siambr at fwlio homoffobaidd mewn ysgolion, sydd hefyd wedi achosi i ormod o ddynion ifanc gyflawni hunanladdiad. Mae hyn, wrth gwrs, yn wastraff trasig o fywyd ym mhob achos ac, felly, mae wir yn haeddu ein sylw.

The framework for action quite rightly draws attention to the important role that schools could and should be playing in trying to prevent this kind of abuse. What I would like to see is a Welsh Government action plan to support an ongoing programme in which police officers visit schools to point out that cyber bullying is the work of cowards who can be easily traced and, indeed, punished. Social media is not just used by youngsters to send vile messages. We know from recent events that older people also tweet highly offensive comments about tragic events, such as the murder of a well-respected teacher recently.

Mae'r fframwaith ar gyfer gweithredu yn hollol briodol yn tynnu sylw at y rôl bwysig y gallai ac y dylai ysgolion ei chwarae wrth geisio atal y math hwn o gam-drin. Yr hyn yr hoffwn ei weld yw cynllun gweithredu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi rhaglen barhaus lle mae swyddogion yr heddlu yn ymweld ag ysgolion i nodi mai gwaith llwfrgwn yw seiberfwlio ac y gellir eu holrhain yn hawdd ac, yn wir, eu cosbi. Nid yw cyfryngau cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio yn unig gan bobl ifanc i anfon negeseuon ffiaidd. Rydym yn gwybod o ddigwyddiadau diweddar bod pobl hŷn hefyd yn trydar sylwadau sarhaus iawn am ddigwyddiadau trasig, megis llofruddiaeth athro uchel ei pharch yn ddiweddar.

This leads me to the second issue that I want to raise, and that is the potential for restorative justice, which is mentioned in the framework. A recent programme on television showed that, in some cases, face-to-face meetings between offenders and victims can be a way of shaming the offender, by showing the impact the offence has had on the victim and, indeed, their family. On a wider scale, I think that it would be a good idea for schools, community centres, third sector organisations and even television companies to bring together those who abuse people on the grounds of race, sexual orientation or disability with the victims, so that they can, hopefully, stamp out the negative stereotypes. However, of course, that would have to be agreed by all parties.

Mae hyn yn fy arwain at yr ail fater yr wyf am ei godi, sef y potensial ar gyfer cyfiawnder adferol, sy'n cael ei grybwyll yn y fframwaith. Dangosodd rhaglen ddiweddar ar y teledu y gall cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng troseddwyr a dioddefwyr mewn rhai achosion, fod yn ffordd o gywilyddio'r troseddwr, trwy ddangos yr effaith y mae'r drosedd wedi'i chael ar y dioddefwr ac, yn wir, ar eu teulu. Ar raddfa ehangach, rwy'n meddwl y byddai'n syniad da i ysgolion, canolfannau cymuned, sefydliadau'r trydydd sector a hyd yn oed gwmnïau teledu ddod â'r rhai sy'n cam-drin pobl ar sail hil, tueddfryd rhywiol neu anabledd ynghyd gyda'r dioddefwyr, fel y gallant, gobeithio, gael gwared ar stereoteipiau negyddol. Wrth gwrs, byddai'n rhaid i hyn gael ei gytuno gan bob parti.

So, what I would like to see in the framework as well are some statistics on the main areas in Wales where such hate crime occurs, because we know that it is not just in the cities of Wales or in the Valleys, but that it also occurs in rural Wales. I would like to see exactly where the hotspots are.

Felly, yr hyn yr hoffwn ei weld yn y fframwaith hefyd yw rhai ystadegau ar y prif ardaloedd yng Nghymru lle mae troseddau casineb o'r fath yn digwydd, oherwydd ein bod yn gwybod nad dim ond yn ninasoedd Cymru neu yn y Cymoedd y mae'n digwydd, ond ei fod hefyd yn digwydd yng nghefn gwlad Cymru. Hoffwn i weld yn union ble mae'r ardaloedd â phroblem.

Another point that needs to be mentioned and addressed is the deliberate abuse of elderly residents and people with learning disabilities who live in care homes. Rebecca Evans touched on this in her contribution. To set out to treat these vulnerable people with contempt and sometimes physical abuse by staff who are actually labelled, rather ironically, as 'carers', in my opinion is clearly a prime example of hate crime. The framework needs to put in place a strategy to eliminate this kind of appalling and totally unacceptable behaviour as well.

Pwynt arall y mae angen ei grybwyll a mynd i'r afael ag o yw cam-drin bwriadol ar drigolion oedrannus a phobl ag anableddau dysgu sy'n byw mewn cartrefi gofal. Soniodd Rebecca Evans am hyn yn gryno yn ei chyfraniad. Mae staff sydd wedi'u labelu, braidd yn eironig, yn 'ofalwyr' ac sy'n mynd ati i drin y bobl agored i niwed hyn â dirmyg ac weithiau eu cam-drin yn gorfforol, yn fy marn i yn amlwg yn enghraifft wych o drosedd casineb. Mae angen i'r fframwaith sefydlu strategaeth i ddileu'r math hwn o ymddygiad ofnadwy a hollol annerbyniol hefyd.

We are all singing from the same hymn sheet and almost singing exactly the same tune, which, as I said in my opening remarks, I think is excellent for this Assembly. I look forward to the day when hate crimes in Wales are relegated to the gutter, where they rightly belong, and I hope that this framework for action goes a long way to ensuring that it happens. However, it is not just the purview of the Welsh Government, with respect, or, indeed, all the political parties in this Chamber and outside of this Chamber. In my opinion, it is the duty of every citizen who lives in Wales to ensure that we live in a land where hate crime simply does not exist.

Rydym i gyd yn canu o'r un llyfr emynau a bron yn canu yn union yr un dôn, ac rwy'n meddwl bod hynny, fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, yn ardderchog ar gyfer y Cynulliad hwn. Edrychaf ymlaen at y diwrnod pan fydd troseddau casineb yng Nghymru'n cael eu gadael yn y gwter, lle maent yn perthyn, ac rwy'n gobeithio y bydd y fframwaith gweithredu hwn yn mynd ffordd bell at sicrhau bod hynny'n digwydd. Fodd bynnag, nid dim ond cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw hwn, gyda pharch, nac, yn wir, cyfrifoldeb pob un o'r pleidiau gwleidyddol yn y Siambr hon a'r tu allan i'r Siambr hon. Yn fy marn i, mae'n ddyletswydd ar bob dinesydd sy'n byw yng Nghymru i sicrhau ein bod yn byw mewn gwlad lle nad yw troseddau casineb yn bodoli o gwbl.

16:40

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I echo the sentiments of Lindsay Whittle that we are all singing from the same hymn sheet in this Assembly, and I hope that it stays that way, although it may not if the opinion polls are right. I am very proud to represent Cardiff Central, which is one of the most diverse communities in Wales, and to celebrate the contribution that newly arrived communities make to our culture and to enriching everything about our community.

Rwy'n adleisio teimladau Lindsay Whittle ein bod i gyd yn canu o'r un llyfr emynau yn y Cynulliad hwn, ac rwy'n gobeithio y bydd yn aros felly, er efallai na fydd os yw'r polau piniwn yn iawn. Rwy'n falch iawn o gynrychioli Canol Caerdydd, sydd yn un o'r cymunedau mwyaf amrywiol yng Nghymru, ac i ddathlu'r cyfraniad y mae'r cymunedau sydd newydd gyrraedd yn ei wneud i'n diwylliant ac i gyfoethogi popeth ynglŷn â'n cymuned.

The European elections and the involvement of overtly or covertly racist groups do have the capacity to set back the good work that has been done by many people and many organisations working in partnership. Happily, we do not have the toxic levels of racism and prejudice of some other European countries, but we need to keep it that way. I am proud that some of the people arriving here from other European countries who have been the victims of racism and prejudice are able to find a haven of safety in this country. I want to make sure that we go on working in partnership together to ensure that that continues to be the case.

Mae gan yr etholiadau Ewropeaidd a chyfranogiad grwpiau hiliol agored neu gudd y gallu i wyrdroi'r gwaith da sydd wedi cael ei wneud gan lawer o bobl a llawer o sefydliadau yn gweithio mewn partneriaeth. Yn ffodus, nid oes gennym y lefelau gwenwynig o hiliaeth a rhagfarn sydd i'w gweld mewn rhai gwledydd Ewropeaidd eraill, ond mae angen inni sicrhau bod hynny'n parhau. Rwy'n falch bod rhai o'r bobl yn cyrraedd yma o wledydd Ewropeaidd eraill sydd wedi dioddef hiliaeth a rhagfarn yn gallu dod o hyd i hafan o ddiogelwch yn y wlad hon. Rwyf yn awyddus i sicrhau ein bod yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'n gilydd i sicrhau bod hynny'n parhau i fod yn wir.

It is particularly important that we accord Islam the same respect that we accord to other religions and none. Many people do not express any faith, and we need to give them the same respect as every religion. There is a particularly important role for schools in this regard, and I welcome very much the young person's summary of the Minister's action plan, which I think is a really good place to start. My own view is that there will be no lasting peace in Northern Ireland until most of the schools in Northern Ireland are integrated schools and that is the norm. Although we do not have any free schools in Wales—happily, in my view—I fear that the mood music in our country can be affected by some of the remarks going on in relation to free schools, and other schools, in other parts of Britain. I am particularly concerned about the remarks being made about schools in the Birmingham area that have a predominantly Muslim pupil intake and are being criticised simply because they make it possible for pupils to have access to a prayer centre if they so wish. We do not accord the same sort of critique to many of our Christian schools, some of which are teaching a creationist approach to the world, and yet we do not have that sort of level of critique and concern expressed in relation to that. We hear accusations about the segregation of girls and boys in schools that are predominantly made up of pupils of a Muslim faith, and yet there is no call for thousands of exclusively male or exclusively female schools to be dismantled and to be integrated. So, when Gove talks about religious conservatism, the subtext is nearly always around Islamic schools, not creationist ones. I just want to highlight that as a cause for concern, which may impact on the way that we look at things in Wales.

Mae'n arbennig o bwysig ein bod yn rhoi'r un parch i Islam ag a roddwn i grefyddau eraill a dim crefydd o gwbl. Mae llawer o bobl nad ydynt yn mynegi unrhyw ffydd, ac mae angen inni roi'r un parch â phob crefydd iddynt. Mae gan ysgolion swyddogaeth arbennig o bwysig yn hyn o beth, ac rwy'n croesawu'n fawr grynhoad y person ifanc o gynllun gweithredu'r Gweinidog, sy'n lle da iawn i ddechrau mi gredaf. Fy marn i yw na fydd unrhyw heddwch parhaol yng Ngogledd Iwerddon tan fydd y rhan fwyaf o'r ysgolion yng Ngogledd Iwerddon yn ysgolion integredig ac mai dyna yw'r norm. Er nad oes gennym unrhyw ysgolion rhad yng Nghymru—yn ffodus, yn fy marn i—rwy'n ofni y gall y farn gyffredinol yn ein gwlad gael ei heffeithio gan rai o'r sylwadau a wneir ynglŷn ag ysgolion rhad, ac ysgolion eraill, mewn rhannau eraill o Brydain. Rwy'n arbennig o bryderus ynghylch y sylwadau a wneir am ysgolion yn yr ardal o Firmingham sydd â chymeriant disgyblion Mwslimaidd yn bennaf ac sy'n cael eu beirniadu dim ond oherwydd eu bod yn ei gwneud yn bosibl i ddisgyblion gael mynediad i ganolfan weddïo, os ydynt yn dymuno. Nid ydym yn rhoi'r un math o feirniadaeth i lawer o'n hysgolion Cristnogol, rhai ohonynt yn addysgu agwedd at y byd sy'n seiliedig ar greadaeth, ac eto nid yw'r math hwnnw o lefel o feirniadaeth a phryder yn cael ei fynegi ynglŷn â hynny. Rydym yn clywed cyhuddiadau am wahanu merched a bechgyn mewn ysgolion sy'n cynnwys disgyblion o ffydd Fwslimaidd yn bennaf, ac eto nid oes galw am i filoedd o ysgolion ar gyfer bechgyn neu ferched yn unig gael eu datgymalu a chael eu hintegreiddio. Felly, pan fo Gove yn siarad am geidwadaeth grefyddol, mae'r is-destun bron bob tro yn ymwneud ag ysgolion Islamaidd, nid rhai sy'n addysgu creadaeth. Rwyf eisiau tynnu sylw at hynny fel achos o bryder, a allai effeithio ar y ffordd yr ydym yn edrych ar bethau yng Nghymru.

I note that 1,700 hate crime offences have been recorded by the police in Wales in the last recorded period. Prevention, supporting victims, and improving the multi-agency response are things that I think are fantastically important. I particularly want to highlight the importance of ensuring that the conflicts that force people to seek asylum in this country are not revisited in this country. A constituent of mine recently went to a place of worship where he was subject to the same prejudice that had brought him to this country in the first place. He was actually the subject of death threats against himself and his family, in broad daylight outside the place of worship, even with the assistance of a translator, who colluded in the intimidation. That, unfortunately, led to the firebombing of this individual's family residence, and the need to rehouse the family. It is very important that we ensure that our faith community leaders are taking this issue as seriously as everybody else, and are really engaging with and encouraging their communities to engage with the police when these sorts of things happen.

Nodaf fod 1,700 o droseddau casineb wedi eu cofnodi gan yr heddlu yng Nghymru yn y cyfnod diweddaraf i'w gofnodi. Mae atal troseddau, cefnogi dioddefwyr, a gwella'r ymateb amlasiantaethol yn bethau sy'n hynod bwysig yn fy marn i. Rwyf am dynnu sylw'n arbennig at bwysigrwydd sicrhau nad yw'r gwrthdaro sy'n gorfodi pobl i geisio lloches yn y wlad hon yn cael eu hailadrodd yn y wlad hon. Aeth un o fy etholwyr i le addoli yn ddiweddar lle'r oedd yn destun yr un rhagfarn ag a oedd wedi dod ag ef i'r wlad hon yn y lle cyntaf. Yr oedd mewn gwirionedd yn destun bygythiadau o ladd ef ei hun a'i deulu, yng ngolau dydd y tu allan i'r man addoli, hyd yn oed gyda chymorth cyfieithydd, a oedd yn cydgynllwynio yn y bygythiadau. Mae hynny, yn anffodus, wedi arwain at osod bom tân yng nghartref teulu'r unigolyn hwn, a'r angen i ailgartrefu'r teulu. Mae'n bwysig iawn ein bod yn sicrhau bod ein harweinwyr ffydd yn ein cymunedau yn ystyried y mater hwn gymaint o ddifrif â phawb arall, ac mewn gwirionedd yn ymgysylltu â chymunedau a'u hannog i ymgysylltu â'r heddlu pan fo pethau fel hyn yn digwydd.

16:45

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have a speech prepared, however, having listened to the debate, I just wanted to add my voice around the disability hate crime element of this. We have heard so many good examples from people about how we need to move this forward. However, I still think that the language of the right-wing media, fuelled, unfortunately, by the Tory Government's welfare reforms, has to take some of the blame for the way in which some of our most vulnerable people in society feel, which is that they are now victims of hate crime. We have seen, in 2011, hate crime increase by something like 14%. In that same year, the numbers who were prosecuted and convicted fell by the same numbers. So, there is still a lot of work to do, and that is why this framework is very important.

Mae gennyf araith wedi'i pharatoi, fodd bynnag, ar ôl gwrando ar y ddadl, rwyf eisiau ychwanegu fy llais ynghylch yr elfen trosedd casineb anabledd o hyn. Rydym wedi clywed cymaint o enghreifftiau da gan bobl am yr angen i ni symud ymlaen â hyn. Fodd bynnag, rwy'n dal i gredu bod yn rhaid i sylwadau cyfryngau'r adain dde, wedi'u heffeithio, yn anffodus, gan ddiwygiadau lles y Llywodraeth Doriäidd, gymryd rhywfaint o'r bai am y ffordd y mae rhai o'n pobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn teimlo, sef eu bod bellach yn ddioddefwyr trosedd casineb. Rydym wedi gweld, yn 2011, troseddau casineb yn cynyddu gan rywbeth fel 14%. Yn yr un flwyddyn, syrthiodd y nifer a gafodd eu herlyn a'u cael yn euog gan yr un niferoedd. Felly, mae llawer o waith i'w wneud, a dyna pam y mae'r fframwaith hwn yn bwysig iawn.

You will have heard me mention the tragic death of a former constituent of mine, a man who was 56. Philip Holmes, who had a disability and was in a wheelchair, was befriended by somebody who then preyed on him, exploited him and beat him to death for his benefits. Last week, I attended a conference organised by Age Concern, Age Connect and Age Cymru around how we help older people who have been victims of crimes conducted by people who—I am sad to say—feel that they are easy targets. These are often vulnerable people who have nowhere to turn. I was very pleased to hear that the advocacy programme has helped so many people across north Wales. However, it makes me really angry and it makes me really sad to think that people still feel that, because everybody is not the same as them, they are a target for some sort of torment or abuse, or some sort of catcalling or name calling. As somebody who has lived with a disability all of my life, I have had some of that. When I shout at you all in the Chamber, it is probably a bit of a throwback to the fact that I am standing up for myself. I had a good teacher when I was in school. I had a good headteacher, who understood. I had good support at home, and I had good friends who really understood what it was like. From that, we coined the phrase, 'Come on then, we're all different but we're all equal, aren't we, Ann?' That is what I went through in my formative years with my disability.

Byddwch wedi fy nghlywed yn sôn am farwolaeth drasig cyn etholwr i mi, dyn a oedd yn 56 oed. Daeth rhywun yn ffrind i Philip Holmes, a oedd ag anabledd ac a oedd mewn cadair olwyn, ac yna gwnaeth y person hwn ei ysbeilio, camfanteisio arno a'i guro i farwolaeth i gael ei fudd-daliadau. Yr wythnos diwethaf, bûm mewn cynhadledd a drefnwyd gan Age Concern, Cyswllt Oedran ac Age Cymru ynghylch sut yr ydym yn helpu pobl hŷn sydd wedi dioddef troseddau a gyflawnwyd gan bobl sydd—rwy'n drist i ddweud—yn teimlo eu bod yn dargedau hawdd. Mae'r rhain yn aml yn bobl sy'n agored i niwed nad oes ganddynt unrhyw le i droi ato. Roeddwn yn falch iawn o glywed bod y rhaglen eiriolaeth wedi helpu cymaint o bobl ar draws Gogledd Cymru. Fodd bynnag, mae'n fy ngwneud yn flin iawn ac mae'n fy ngwneud yn drist iawn i feddwl bod pobl yn dal i deimlo, oherwydd nad yw pawb yr un fath â nhw, eu bod yn darged ar gyfer rhyw fath o artaith neu gam-drin, neu ryw fath o wawd neu alw enwau. Fel rhywun sydd wedi byw ag anabledd drwy fy holl fywyd, rwyf wedi cael rhywfaint o hynny. Pan fyddaf yn gweiddi arnoch chi i gyd yn y Siambr, mae'n debyg ei fod yn dipyn o adlais o'r ffaith fy mod yn sefyll drosof fy hun. Roedd gennyf athro da pan oeddwn i yn yr ysgol. Roedd gennyf bennaeth da, a oedd yn deall. Cefais gefnogaeth dda yn y cartref, ac roedd gennyf ffrindiau da a oedd wir yn deall fy sefyllfa. O hynny, bathwyd yr ymadrodd gennym, 'Dewch ymlaen te, rydym ni i gyd yn wahanol, ond rydym ni i gyd yn gyfartal, onid ydym, Ann?' Dyna'r hyn a wynebais yn fy mlynyddoedd ffurfiannol gyda fy anabledd.

What people with a disability often try to do is try to hide that disability, because they do not want to seem any different. What I want to do today is say to everybody: we are all different, but we are all equal. I am sure that this framework will go a long way to reinforcing that. I want the same vision that Lindsay Whittle wants. I want a Wales where we are all different but where we are all equal.

Yr hun y mae pobl ag anabledd yn aml yn ei wneud yw ceisio cuddio'r anabledd hwnnw, am nad ydynt yn dymuno ymddangos yn wahanol i rywun arall. Yr hyn yr wyf yn awyddus i'w wneud heddiw yw dweud wrth bawb: rydym ni i gyd yn wahanol, ond rydym ni i gyd yn gyfartal. Rwy'n siŵr y bydd y fframwaith hwn yn atgyfnerthu hynny i raddau helaeth. Yr wyf yn dymuno gweld gwireddu'r un weledigaeth ag y mae Lindsay Whittle yn ei dymuno. Rwyf am weld Cymru lle'r ydym i gyd yn wahanol ond lle'r ydym i gyd yn gyfartal.

16:48 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sadly, for many years, hate crimes have been almost ignored and poorly reported in Wales. However, from the 1990s, it has become a significant area of concern for public policy, with new legislation, policy and procedures being developed. Racist incidents have been recorded since 1986, but there have been no systematically collected statistics on hate crime. There remains significant under-reporting of incidents to the police. Census data show that twenty-first century Wales is a diverse country, with a mixture of people from differing backgrounds, beliefs and cultures. Huge strides have been made to make our country a safe and vibrant place to live, where people's differences are something that should be valued and celebrated, and where we can have a greater sense of belonging and civic pride.

Yn anffodus, am flynyddoedd lawer, mae troseddau casineb wedi cael eu hanwybyddu fwy neu lai a phrin fu'r adrodd amdanynt yng Nghymru. Fodd bynnag, o'r 1990au ymlaen, mae wedi dod yn faes sylweddol o bryder ar gyfer polisi cyhoeddus, gyda deddfwriaeth, polisi a gweithdrefnau newydd yn cael eu datblygu. Mae digwyddiadau hiliol wedi cael eu cofnodi ers 1986, ond nid oes unrhyw ystadegau wedi'u casglu'n systematig ar gyfer troseddau casineb. Mae diffyg sylweddol o hyd o ran hysbysu'r heddlu am ddigwyddiadau o'r fath. Mae data o'r cyfrifiad yn dangos bod Cymru'r unfed ganrif ar hugain yn wlad amrywiol, gyda chymysgedd o bobl o wahanol gefndiroedd, credoau a diwylliannau. Mae camau breision wedi eu cymryd i wneud ein gwlad yn lle diogel a bywiog i fyw ynddo, lle mae gwahaniaethau rhwng pobl yn rhywbeth y dylid ei werthfawrogi a'i ddathlu, a lle y gallwn gael mwy o ymdeimlad o berthyn a balchder dinesig.

Evidence shows that when hate crime occurs, it can not only have a corrosive and damaging impact on the victim, but it also has a wider impact on the communities in which we live. As a consequence, people can feel unsafe and disconnected from community life, which has a detrimental impact on health, housing, education and economic wellbeing. The charity Victim Support is leading the way for victims of hate crime, observing that victims are not all stamped from the same mould. So, supporting them requires dedication, imagination and flexibility. In 2006, Victim Support commissioned 'Crime & prejudice—The support needs of victims of hate crime: a research report'. At this time, none of the interviewees had made use of third-party reporting schemes. In each of the study areas, service providers reported that they had regarded such schemes highly, but that they were underused. Community organisations, many of which were the first place of support to victims, were often unaware of the schemes. As a result of this research, Wales has come a long way in implementing a third-party reporting scheme in Wrexham to increase reporting, a multi-agency forum operating in Gwent to support victims and to increase reporting, and the Pegasus scheme in Dyfed-Powys Police force area to tackle repeat victimisation. Due to the success of these schemes, I welcome the Welsh Government's announcement to aim to increase reporting through the development of a comprehensive and national third-party reporting centre for Wales in partnership with Victim Support. The service aims to provide a one-stop-shop system that will have an all-Wales helpline, an online reporting facility, and text, e-mail and drop-in services. This service aims to provide a full range of access options across language, interpretation and disability to ensure that the service is accessible. This will provide a unified system for Wales that aims to work with victims to provide a complete service that links together reporting and increased victim support, where advice, advocacy and emotional help will be linked through caseworkers and a network of volunteers across protected characteristics.

Mae tystiolaeth yn dangos pan fydd trosedd casineb yn digwydd, y gall hynny nid yn unig gael effaith andwyol a niweidiol ar y dioddefwr, ond mae hefyd yn cael effaith ehangach ar y cymunedau yr ydym yn byw ynddynt. O ganlyniad, gall pobl deimlo'n anniogel ac wedi'u datgysylltu oddi wrth fywyd y gymuned, sy'n cael effaith niweidiol ar iechyd, tai, addysg a lles economaidd. Mae'r elusen Cymorth i Ddioddefwyr yn arwain y ffordd ar gyfer dioddefwyr troseddau casineb, gan ddweud nad yw dioddefwyr i gyd yr un fath â'i gilydd. Felly, mae eu cefnogi yn gofyn am ymroddiad, dychymyg a hyblygrwydd. Yn 2006, comisiynodd Cymorth i Ddioddefwyr 'Trosedd a rhagfarn—Anghenion cymorth dioddefwyr troseddau casineb: adroddiad ymchwil'. Ar y pryd, nid oedd yr un o'r rhai a gyfwelwyd wedi gwneud defnydd o gynlluniau adrodd trydydd parti. Ym mhob un o'r ardaloedd astudiaeth, adroddodd darparwyr gwasanaeth bod ganddynt gryn ffydd mewn cynlluniau o'r fath, ond nad oedd digon o ddefnydd arnynt. Roedd sefydliadau cymunedol, llawer ohonynt yn cynrychioli'r lle cyntaf o gymorth i ddioddefwyr, yn aml heb fod yn gwybod am y cynlluniau. O ganlyniad i'r ymchwil hwn, mae Cymru wedi dod yn bell o ran gweithredu cynllun adrodd trydydd-parti yn Wrecsam i gynyddu adrodd, fforwm amlasiantaeth sy'n gweithredu yng Ngwent i gefnogi dioddefwyr ac i gynyddu adrodd, a'r cynllun Pegasus yn ardal heddlu Dyfed-Powys i fynd i'r afael ag erledigaeth a ailadroddir. Oherwydd llwyddiant y cynlluniau hyn, rwy'n croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru o'r nod o gynyddu adrodd drwy ddatblygu canolfan adrodd trydydd parti cynhwysfawr a chenedlaethol ar gyfer Cymru mewn partneriaeth â Chymorth i Ddioddefwyr. Nod y gwasanaeth yw darparu system siop un stop a fydd â llinell gymorth Cymru gyfan, cyfleuster adrodd ar-lein, a gwasanaethau testun, e-bost a galw heibio. Mae'r gwasanaeth hwn yn amcanu at ddarparu ystod lawn o ddewisiadau mynediad gan gwmpasu iaith, cyfieithu ac anabledd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch. Bydd hyn yn darparu system unedig i Gymru sydd â'r nod o weithio gyda dioddefwyr i ddarparu gwasanaeth cyflawn sy'n cysylltu adrodd a mwy o gefnogaeth i ddioddefwyr, lle bydd cyngor, eiriolaeth a chymorth emosiynol yn cael eu cysylltu trwy weithwyr achos a rhwydwaith o wirfoddolwyr ar draws nodweddion gwarchodedig.

It should be remembered that reporting an incident or crime is a monumental first step for victims. So, it is important that an immediate response is put in place to provide support to the victim and to assess their practical and emotional needs—a victim-focused approach that will assess what level of support is required and ensure that there are clear lines of communication in place, working with partner organisations such as Victim Support to assess current methods of delivery and to increase the ways in which victims can be supported will ensure underpinning monitoring for support, signposting and strong communication for the victim, with the victim's emotional needs and wellbeing being paramount in any support provided.

Dylid cofio bod hysbysu am ddigwyddiad neu drosedd yn gam cyntaf anferth i ddioddefwyr. Felly, mae'n bwysig bod ymateb yn cael ei roi ar waith yn ddi-oed i ddarparu cymorth i ddioddefwyr ac asesu eu hanghenion ymarferol ac emosiynol—dull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr a fydd yn asesu pa lefel o gymorth sydd ei hangen, a sicrhau bod llinellau cyfathrebu clir ar waith, gan weithio gyda sefydliadau partner megis Cymorth i Ddioddefwyr i asesu'r dulliau presennol o ddarparu a chynyddu'r ffyrdd o gefnogi dioddefwyr. Bydd hyn yn sicrhau monitro sylfaenol ar gyfer cefnogi, cyfeirio a chyfathrebu cryf ar gyfer y dioddefwr, gydag anghenion emosiynol a lles y dioddefwr yn brif flaenoriaeth mewn unrhyw gefnogaeth a ddarperir.

The Welsh Government in 2013 undertook a review of its relationship with the third sector to identify ways in which funding and engagement arrangements can be strengthened to support the delivery of programmes for Government commitments, and I pay tribute to the Minister for his endeavours in this regard. Identifying opportunities across the third sector for further training, funding and support to tackle hate crime, and to provide good relations to ensure that organisations such as Victim Support continue to ensure that people can find the strength to report such incidents, is of the utmost importance.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'i pherthynas â'r trydydd sector yn 2013 i nodi ffyrdd y gellid cryfhau trefniadau ariannu ac ymgysylltu i gefnogi cyflwyno rhaglenni ar gyfer ymrwymiadau'r Llywodraeth, a thalaf deyrnged i'r Gweinidog am ei ymdrechion yn hyn o beth . Mae nodi cyfleoedd ar draws y trydydd sector ar gyfer hyfforddiant pellach, ariannu a chefnogaeth i fynd i'r afael â throseddau casineb, ac i ddarparu cysylltiadau da i sicrhau bod sefydliadau megis Cymorth i Ddioddefwyr yn parhau i sicrhau y gall pobl ddod o hyd i'r nerth i adrodd am ddigwyddiadau o'r fath, o'r pwys mwyaf.

16:52 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

'Hate' is an ugly word. It is a nasty word, and it sticks in most people's throats. However, it is more than a word; it can be violent. Hate commits murder, it ruins lives and it corrodes communities. That is why this framework is so important; it reinforces the best of Wales: equality, fairness, tolerance and togetherness. I welcome the opportunity to debate it here today.

Mae 'casineb' yn air hyll. Mae'n air annifyr, ac mae'n mynd yn sownd yng ngwddf y rhan fwyaf o bobl. Fodd bynnag, mae'n fwy na gair; gall fod yn dreisgar. Mae casineb yn cyflawni llofruddiaeth, mae'n difetha bywydau ac mae'n difa cymunedau. Dyna pam y mae'r fframwaith hwn mor bwysig; mae'n atgyfnerthu'r gorau o Gymru: cydraddoldeb, tegwch, goddefgarwch ac agosatrwydd. Rwy'n croesawu'r cyfle i'w drafod yma heddiw.

The first thing that I think we all need to say is that hate crime is rare. That is cold comfort, of course, if you had been a victim, but we should recognise that, for the most part, we all live in a tolerant country. There is, of course, an issue with under-reporting, and the framework does seek to address that, but even so, this sort of crime is mostly unusual here in Wales. So, when we talk about hate and discrimination, we tend to think primarily of race, and that is indeed supported by the figures. Race accounts for more than three quarters of incidents of hate crime. It is the most stubborn prejudice. However, prejudices come in many forms, against religion, sexual orientation, transgender and disability. I very much welcome the inclusion of cyber hate—women and girls are particularly vulnerable to this form of nastiness and, I would argue, especially women in public life who dare to put their heads above the parapet. Take Labour MP Stella Creasey, who was allegedly threatened with rape for supporting the campaign to put Jane Austen on the back of the £10 note. That is just one of too many recent examples.

Y peth cyntaf y credaf fod angen i ni i gyd ei ddweud yw bod trosedd casineb yn brin. Ychydig iawn o gysur sydd yn hynny, wrth gwrs, os ydych chi wedi bod yn ddioddefwr, ond dylem gydnabod, ar y cyfan, ein bod i gyd yn byw mewn gwlad oddefgar. Mae problem, wrth gwrs, o ran diffyg adrodd, ac nid yw'r fframwaith yn ceisio ymdrin â hynny, ond er hynny, mae'r math yma o drosedd yn anarferol ar y cyfan yma yng Nghymru. Felly, pan fyddwn yn sôn am gasineb a gwahaniaethu, rydym yn tueddu i feddwl yn bennaf am hil, ac mae hynny'n sicr yn cael ei ategu gan y ffigurau. Mae hil yn cyfrif am fwy na thri chwarter yr achosion o droseddau casineb. Dyma'r rhagfarn fwyaf ystyfnig. Fodd bynnag, mae rhagfarnau yn dod mewn sawl ffurf, yn erbyn crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, trawsrywedd ac anabledd. Rwy'n croesawu cynnwys seiber gasineb yn fawr—-mae menywod a merched yn arbennig o agored i'r math hwn o fileindra a, byddwn yn dadlau, yn enwedig menywod mewn bywyd cyhoeddus sydd yn meiddio gwneud eu hunain yn wynebau cyfarwydd. Ystyriwch yr AS Llafur Stella Creasey, a oedd dan fygythiad honedig o drais rhywiol am gefnogi'r ymgyrch i roi Jane Austen ar gefn y papur £10. Dim ond un o ormod o enghreifftiau diweddar yw hwnnw.

isability hate crime is a particular concern, because we are seeing more of it. There is a dispute about whether or not it is on the rise or at a comparatively high level. Recent research by Scope found that 83% of disabled people said that UK Government rhetoric about benefits scroungers has had a negative impact on public attitudes towards disabled people. I think that that is something that all Members of the Chamber should keep upmost in their minds when debating those particular subjects here. At the extreme end of that spectrum, there was a very recent case in Bristol of a disabled man who was murdered after being kicked unconscious, doused in white spirit and then set alight. In terms of enforcement, I welcome the work that Dyfed-Powys Police has undertaken. Its Pegasus scheme makes it easier for people with a disability or illness that makes it difficult for them to communicate to contact them. Alongside disability hate crime, the recent All Wales Hate Crime Research Project report found that transphobic hate crime has the biggest effect on people. It might sound glib—and it was after all only the Eurovision song contest—but I hope that Conchita Wurst's victory means something. This election week particularly, in contrast with some of the jingoistic and insidious campaigning we have seen, I hope that it says something about our shared values and tolerance in Europe.

Mae trosedd casineb anabledd yn bryder penodol, oherwydd ein bod yn gweld mwy ohono. Mae yna anghydfod ynghylch a yw ar gynnydd ai peidio neu ar lefel gymharol uchel. Mae ymchwil diweddar gan Scope wedi canfod bod 83% o bobl anabl yn dweud bod rhethreg Llywodraeth y DU ynghylch lloffwyr budd-daliadau wedi cael effaith negyddol ar agwedd y cyhoedd tuag at bobl anabl. Rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth y dylai pob Aelod o'r Siambr ei gofio'n arbennig wrth drafod y pynciau penodol hynny yma. Ar ben eithaf y sbectrwm, roedd achos diweddar iawn ym Mryste o ddyn anabl a lofruddiwyd ar ôl cael ei gicio'n anymwybodol, ei drochi mewn gwirod gwyn, ac yna ei roi ar dân. O ran gorfodi, rwy'n croesawu'r gwaith y mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymgymryd ag ef. Nod eu cynllun Pegasus yw ei gwneud yn haws i bobl gysylltu â nhw pan fo ganddynt anabledd neu salwch sy'n ei gwneud yn anodd iddynt gyfathrebu. Ochr yn ochr â throseddau casineb anabledd, canfu adroddiad Prosiect Ymchwil Trosedd Casineb Cymru Gyfan yn ddiweddar mai trosedd casineb trawsffobig sy'n cael yr effaith fwyaf ar bobl. Efallai ei fod yn swnio'n rhwydd—a dim ond cystadleuaeth y gân Eurovision oedd hi wedi'r cyfan—ond rwy'n gobeithio bod buddugoliaeth Conchita Wurst yn golygu rhywbeth. Yn yr wythnos etholiad hon yn arbennig, mewn cyferbyniad i rywfaint o'r ymgyrchu jingoistaidd a dichellgar yr ydym wedi ei weld, rwy'n gobeithio ei fod yn dweud rhywbeth am ein gwerthoedd a'n goddefgarwch a rennir yn Ewrop.

16:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

I call on the Minister to reply to the debate.

16:56

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I would like to thank Assembly Members for their helpful discussion on 'Tackling Hate Crimes and Incidents: a Framework for Action' and I welcome the supportive comments that have been made.

Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Cynulliad am eu trafod defnyddiol ar 'Mynd i'r afael â Throseddau Casineb a Digwyddiadau: Fframwaith ar gyfer Gweithredu' ac rwy'n croesawu'r sylwadau cefnogol a wnaethpwyd.

Let me turn to the amendments. I oppose the first amendment put forward by Aled Roberts, concerning the view expressed by the race equality council at the Wales race forum meeting. In terms of the points made by Peter Black, I acknowledge that when he asked me the question a couple of weeks ago, I could not recall, I have to say, the particular discussion at that moment. I then went away and checked and, indeed, I found the record where the matter was raised at a particular forum meeting. The trouble is that the amendment is based on a selective quotation from the draft minutes and does not show that I disagreed with the assessment that race issues are low on the agenda and at that meeting I sought to reassure members of the race forum. The very existence of the race forum and its twice-yearly meetings shows my willingness to engage on the race agenda.

Gadewch i mi droi at y gwelliannau. Rwy'n gwrthwynebu'r gwelliant cyntaf a gyflwynwyd gan Aled Roberts, yn ymwneud â'r farn a fynegwyd gan y cyngor cydraddoldeb hiliol yn y cyfarfod fforwm hil Cymru. O ran y pwyntiau a wnaed gan Peter Black, rwy'n cydnabod pan ofynnodd y cwestiwn i mi ychydig o wythnosau yn ôl, na allwn gofio, mae'n rhaid i mi ddweud, y drafodaeth benodol ar y pryd. Yna euthum i ffwrdd a gwirio ac, yn wir, deuthum o hyd i'r cofnod lle cafodd y mater ei godi yn ystod cyfarfod fforwm penodol. Y drafferth yw bod y gwelliant yn seiliedig ar ddyfyniad dethol o'r cofnodion drafft ac nid yw'n dangos nad oeddwn yn cytuno â'r asesiad bod materion hil yn isel ar yr agenda, ac yn y cyfarfod hwnnw, ceisiais dawelu meddyliau aelodau'r fforwm hil. Mae'r ffaith fod y fforwm hil yn bodoli a'i gyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn yn dangos fy mod yn barod i ymgysylltu ar yr agenda hil.

Through the equality and inclusion grant, we are funding a number of organisations that represent the protected characteristics of race. I am committed to working with the equality councils and I am launching, as Peter Black mentioned, the community cohesion national delivery programme at an event organised by the Swansea regional equality council.

Drwy'r grant cydraddoldeb a chynhwysiant, rydym yn ariannu nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli nodweddion gwarchodedig hil. Rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda'r cynghorau cydraddoldeb a byddaf yn lansio, fel y soniodd Peter Black, y rhaglen genedlaethol cyflawni cydlyniant cymunedol mewn digwyddiad a drefnwyd gan gyngor cydraddoldeb rhanbarthol Abertawe.

I support Aled Roberts's second amendment about the UK Government's reporting of hate crime. We all recognise that it is an improvement and that there are more detailed, consistent statistics. It is essential that we have robust data on hate crime and, on this point, I acknowledge and support William Graham's comments about improving awareness and the greater accessibility that there is now to services. I also support the amendment from Paul Davies regarding the role of school councils and school governors in preventing bullying. We expect all schools to adopt a zero-tolerance approach to bullying and I pay tribute to the comments of Suzy Davies in this regard and, like everyone else here, I hope and pray that a peaceful solution to the problem of the school girls in Nigeria comes very, very soon. We will, in terms of your particular question, be measuring the progress of the framework through the independent advisory group that I will be setting up and by indicators, once we have our baseline, which we are currently drawing up.

Rwy'n cefnogi ail welliant Aled Roberts ynghylch adrodd Llywodraeth y DU am droseddau casineb. Rydym i gyd yn cydnabod ei fod yn gwella'r fframwaith, ac y bydd ystadegau mwy manwl a chyson o'r herwydd. Mae'n hanfodol bod gennym ddata cadarn ar droseddau casineb ac, ar y pwynt hwn, rwy'n cydnabod ac yn cefnogi sylwadau William Graham ynghylch gwella ymwybyddiaeth a'r ffaith fod gwasanaethau yn fwy hygyrch erbyn hyn. Rwyf hefyd yn cefnogi'r gwelliant gan Paul Davies ynglŷn â swyddogaeth cynghorau ysgol a llywodraethwyr ysgol o ran atal bwlio. Rydym yn disgwyl i bob ysgol fabwysiadu ymagwedd dim goddefgarwch at fwlio a thalaf deyrnged i sylwadau Suzy Davies yn hyn o beth ac, fel pawb arall yma, rwy'n gobeithio ac yn gweddïo y bydd ateb heddychlon i broblem y merched ysgol yn Nigeria yn fuan iawn, iawn. Byddwn, o ran eich cwestiwn penodol, yn mesur cynnydd y fframwaith trwy'r grŵp cynghori annibynnol y byddaf yn ei sefydlu a thrwy ddangosyddion, ar ôl i ni gael ein llinell sylfaen, yr ydym yn ei llunio ar hyn o bryd.

We are serious about tackling hate crime and incidents in Wales and the framework will mark a significant point in time where better co-ordination of support and action will take place—hence the key action of better multi-agency support.

Rydym o ddifrif am fynd i'r afael â throseddau a digwyddiadau casineb yng Nghymru a bydd y fframwaith yn nodi pwynt arwyddocaol mewn amser lle bydd gwell cydgysylltu o ran cefnogaeth a chamau gweithredu—ac felly'r cam allweddol o ddarparu gwell cefnogaeth amlasiantaethol.

I have been very clear that this is not going to be a document that will sit gathering dust on a shelf. The framework is rightly focused on actions, and I am confident that we are building strong and sustainable structures across Wales to ensure that the framework is deliverable. There will be additional challenges in the current economic climate, but we need to rise to the challenges, and it is even more important that we are able to co-ordinate and pull together better partnership approaches to make this work. If we needed a reason, it is the one that was articulated by Joyce Watson—that hate crime can lead to murder.

Rwyf wedi bod yn glir iawn nad yw hon yn mynd i fod yn ddogfen a fydd yn eistedd yn casglu llwch ar silff. Mae'r fframwaith yn briodol yn canolbwyntio ar gamau gweithredu, ac rwy'n hyderus ein bod yn adeiladu strwythurau cryf a chynaliadwy ledled Cymru i sicrhau y gellir cyflawni'r fframwaith. Bydd heriau ychwanegol yn yr hinsawdd economaidd bresennol, ond mae angen i ni ymateb i'r heriau, ac mae hyd yn oed yn fwy pwysig ein bod yn gallu cydgysylltu a thynnu gwell dulliau partneriaeth ynghyd i sicrhau bod hyn yn gweithio. Pe byddai angen rheswm arnom, yr un a fynegwyd gan Joyce Watson fyddai hwnnw—sef y gall troseddau casineb arwain at lofruddiaeth.

Leadership is an important principle to make sure that the framework is delivered. The Equality Act 2010 is very clear that promoting equality, eliminating discrimination and fostering good relations are taken forward within public sector authorities. I am pleased that the Welsh Government has been able to support third sector projects that will provide an increased infrastructure to tackle hate crimes and incidents. The national hate crime reporting centre delivered by Victim Support will ensure that victims have a better support mechanism. This will act as a catalyst to increase confidence to report, and I want to continue to send out strong messages that victims should not suffer in silence. This will act as a catalyst to increase confidence to report, and I want to continue to send out strong messages that victims should not suffer in silence. I acknowledge the words of Rebecca Evans, when she said how pleased she was that mate crime—the befriending of a vulnerable individual—is very much part of this framework. Also, I welcome the comments from Lindsay Whittle on the approach to cyber bullying, which is clearly an important issue, and schools have an important role to play in helping to educate and therefore prevent issues of hate crime in the future by engaging with our youngest members of society.

Mae arweinyddiaeth yn egwyddor bwysig i wneud yn siŵr bod y fframwaith yn cael ei gyflawni. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn glir iawn bod hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da yn cael eu datblygu o fewn awdurdodau'r sector cyhoeddus. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi gallu cefnogi prosiectau trydydd sector a fydd yn darparu mwy o seilwaith i fynd i'r afael â throseddau a digwyddiadau casineb. Bydd y ganolfan adrodd am droseddau casineb cenedlaethol a ddarperir gan Gymorth i Ddioddefwyr yn sicrhau bod dioddefwyr yn cael mecanwaith cefnogi gwell. Bydd hyn yn gweithredu fel catalydd i gynyddu hyder i adrodd, ac rwy'n awyddus i barhau i anfon negeseuon cryf na ddylai dioddefwyr ddioddef yn dawel. Bydd hyn yn gweithredu fel catalydd i gynyddu hyder i adrodd, ac rwy'n awyddus i barhau i anfon negeseuon cryf na ddylai dioddefwyr ddioddef yn dawel. Rwy'n cydnabod geiriau Rebecca Evans, pan ddywedodd pa mor falch oedd hi fod troseddau cyfeillio—dod yn ffrind ag unigolyn agored i niwed—yn rhan bwysig o'r fframwaith hwn. Hefyd, rwy'n croesawu'r sylwadau gan Lindsay Whittle ar yr ymagwedd at seiberfwlio, sydd yn amlwg yn fater pwysig, ac mae gan ysgolion ran bwysig i'w chwarae wrth helpu i addysgu ac felly atal problemau trosedd casineb yn y dyfodol drwy ymgysylltu â'r aelodau ieuengaf o'n cymdeithas.

Jenny Rathbone rightly talked about her experience in her Cardiff Central constituency, and the role of new communities moving in. That is one of the reasons why we have included far-right hate crime as part of this framework. Ann Jones spoke on the issue of disability hate crime and its links to mate crime, and, importantly, the role of the media in how it portrays individuals is absolutely crucial in terms of reducing tensions and excuses for taking unpleasant action.

Roedd Jenny Rathbone yn iawn i siarad am ei phrofiad yn ei hetholaeth Canol Caerdydd, a swyddogaeth y cymunedau newydd sy'n symud i mewn. Dyna un o'r rhesymau pam yr ydym wedi cynnwys troseddau casineb asgell dde yn rhan o'r fframwaith hwn. Siaradodd Ann Jones ar y mater o drosedd casineb anabledd a'i chysylltiadau â throseddau cyfeillio, ac, yn bwysig, mae swyddogaeth y cyfryngau yn y modd y maent yn portreadu unigolion yn gwbl hanfodol o ran lleihau tensiynau ac esgusodion ar gyfer cymryd camau annymunol.

I will report back to Assembly Members on progress following year 1 of delivery in advance of publishing progress on the annual delivery plan. I am keen to ensure that this important area of work has and maintains cross-party support. Finally, I would like to say that I would welcome further dialogue with Members on future support and progress, and that includes ideas for improving the framework.

Byddaf yn adrodd yn ôl i Aelodau'r Cynulliad ar y cynnydd yn dilyn blwyddyn 1 o gyflawni cyn cyhoeddi cynnydd ar y cynllun cyflwyno blynyddol. Rwy'n awyddus i sicrhau bod gan y maes pwysig hwn o waith gefnogaeth drawsbleidiol ac y bydd hynny'n parhau. Yn olaf, hoffwn ddweud y byddwn yn croesawu deialog pellach gydag Aelodau ar gefnogaeth a chynnydd yn y dyfodol, ac mae hynny'n cynnwys syniadau ar gyfer gwella'r fframwaith.

17:03

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Oes, felly gohiriwyd pob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that amendment 1 be agreed. Are there any objections? I see that there are, therefore I defer all voting under this item until voting time.

Voting time now follows.

Mae amser pleidleisio yn dilyn nawr.

17:04

# Cyfnod Pleidleisio

# Voting Time

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not. We may be a bit slow as my terminal is not working. I see that Members cannot vote, either. I will suspend proceedings for 10 minutes while we endeavour to sort out our technical difficulties. I apologise. We will reconvene at 5.15 p.m.

Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes. Efallai y byddwn ychydig yn araf gan nad yw fy nherfynell yn gweithio. Gwelaf na all aelodau bleidleisio, ychwaith. Byddaf yn atal y trafodion am 10 munud tra byddwn yn ymdrechu i ddatrys ein hanawsterau technegol. Rwy'n ymddiheuro. Byddwn yn ailymgynnull am 5.15 pm

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 17:05.*

*Plenary was suspended at 17:05.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 17:15, gyda'r Dirprwy Lywydd yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 17:15, with the Deputy Presiding Officer in the Chair.*

17:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am afraid that due to a technical difficulty we are unable to proceed with an electronic vote. In accordance with Standing Order 12.43, I propose that Members vote by show of hands. Are there any objections? We will vote then by show of hands. [Interruption.] Are there any objections? We need to take this seriously, because we do need—. [Interruption.] Are there any objections to a vote by show of hands?

Rwy'n ofni nad ydym yn gallu mynd ymlaen â phleidlais electronig oherwydd anhawster technegol. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.43, rwyf yn cynnig bod yr Aelodau'n pleidleisio drwy godi dwylo. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Byddwn yn pleidleisio trwy godi dwylo felly. [Torri ar draws.] A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae angen i ni gymryd hyn o ddifrif, oherwydd mae arnom angen—. [Torri ar draws.] A oes unrhyw wrthwynebiad i bleidlais drwy godi dwylo?

17:15 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Oes, Ddirprwy Lywydd. Fel un a fu â chyfrifoldeb am sefydlu'r system dechnolegol yn y lle hwn, nid wyf eisiau gweld sefyllfa lle rydym yn dechrau defnyddio dulliau o bleidleisio nad ydyn nhw'n electronig, oherwydd mae goblygiadau tymor hir i hyn o ran gwastraffu amser pleidleisio yn y lle hwn. Felly, a gaf ofyn i chi ohirio'r bleidlais am ychydig amser ymhellach er mwyn i ni sicrhau beth yw'r sefyllfa dechnolegol?

Yes, Deputy Presiding Officer. As one who was responsible for establishing the technological system in this place, I do not want to see a situation arise where we start to use voting methods that are not electronic, because there are long-term implications to this in terms of wasting voting time in this place. Therefore, may I ask you to defer the vote for a little longer so that we can establish what the position is in terms of the technology?

17:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does any other Member hold this view? No-one does. So, I am able to proceed with voting by show of hands, which is what I intend to do.

A oes unrhyw Aelod arall yn cytuno â'r safbwynt hwn? Nid oes unrhyw un yn cytuno. Felly, gallaf fwrw ymlaen â phleidleisio trwy godi dwylo, a dyma'r hyn yr wyf yn bwriadu ei wneud.

We are voting on the Rating Lists (Postponement of Compilation) (Wales) Order 2014.

Rydym yn pleidleisio ar y Gorchymyn Rhestri Ardrethu (Gohirio Cyhoeddi) (Cymru) 2014.

Cynhaliwyd y bleidlais ar gynnig NDM5508 drwy ddangos dwylo.

The vote on motion NDM5508 was held by show of hands.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 37, Yn erbyn 0, Ymatal 9.*

*Motion agreed: For 37, Against 0, Abstain 9.*

Cynhaliwyd y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5507 drwy ddangos dwylo.

The vote on amendment 1 to motion NDM5507 was held by show of hands.

17:21 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One Member is not voting.

Mae un Aelod nad yw'n pleidleisio.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 22, Yn erbyn 24, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 22, Against 24, Abstain 0.*

17:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One Member did not vote.

Roedd un Aelod na wnaeth bleidleisio.

Cynhaliwyd y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5507 drwy ddangos dwylo.

The vote on amendment 2 to motion NDM5507 was held by show of hands.

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One Member did not vote.

Roedd un Aelod na wnaeth bleidleisio.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 38, Yn erbyn 0, Ymatal 8.*

*Amendment agreed: For 38, Against 0, Abstain 8.*

Cynhaliwyd y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5507 drwy ddangos dwylo.

The vote on amendment 3 to motion NDM5507 was held by show of hands.

17:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One Member did not vote.

Roedd un Aelod na wnaeth bleidleisio.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 46, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NDM5507 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5507 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' a'r Cynllun Cyflawni ategol, a lansiwyd ar 12 Mai 2014.

1. Notes 'Tackling Hate Crimes and Incidents: A Framework for Action' and the supporting Delivery Plan, launched on 12 May 2014.

2. Yn croesawu bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu cofnodi a chyhoeddi troseddau casineb yn briodol am y tro cyntaf.

2. Welcomes that the UK Government has instituted the proper recording and publishing of hate crimes for the first time.

3. Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan gynghorau ysgol a llywodraethwyr ysgol, yn ogystal ag athrawon, teuluoedd a'r gymdeithas ehangach, rôl i'w chwarae i atal bwlio.

3. Welcomes the Welsh Government's recognition that school councils and school governors have a role, as well as teachers, families and wider society, in preventing bullying.

Cynhaliwyd y bleidlais ar gynnig NDM5507 fel y'i diwygiwyd drwy ddangos dwylo.

The vote on motion NDM5507 as amended was held by show of hands.

17:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One Member did not vote.

Roedd un Aelod na wnaeth bleidleisio.

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion as amended agreed: For 46, Against 0, Abstain 0.*

17:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's proceedings.

Dyna ddiwedd trafodion heddiw

17:25

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ar bwynt o drefn, Ddirprwy Lywydd, a gaf ofyn cwestiwn—

On a point of order, Deputy Presiding Officer, may I ask a question—

17:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order. I have not called a point of order yet.

Trefn, trefn. Nid wyf wedi galw pwynt o drefn eto.

17:25

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have asked for one.

Rwyf wedi gofyn am un.

17:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have closed proceedings, and I would ask your indulgence to raise the point of order tomorrow, Dafydd, if that is possible. We would have all considered the issue then. I think it would be better for procedure. Thank you.

Rwyf wedi cau'r trafodion, a byddwn yn gofyn am eich goddefgarwch i godi'r pwynt o drefn yfory, Dafydd, os yw hynny'n bosibl. Byddwn i gyd wedi ystyried y mater erbyn hynny. Rwy'n credu y byddai'n well ar gyfer y drefn. Diolch.

That concludes today's proceedings.

Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:25.*

*The meeting ended at 17:25.*